**Canllaw i Rieni ar Dderbyniadau i Ysgolion yn y Fro 2026/27**
Addysgu Plant ym Mro Morgannwg

Tabl Cynnwys


1. Llythyr gan yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Diwylliant a'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau ........ 4
2. Gwneud cais am le mewn ysgol ........ .5
3. Canolfan Iaith Gymraeg........ 6
4. Cod Derbyn i Ysgolion Gorffennaf 2013........7
5. Dyddiadau pwysig........7
6. Ceisiadau hwyr ........8
7. Derbyniadau Ysgol Ar-Lein........ 9
8. Gwneud cais drwy'r post ........9
9. Nifer Derbyn/Terfynau Maint Dosbarthiadau Babanod ........9
10. Derbyn i Addysg y Blynyddoedd Cynnar / Ysgol Feithrin ........10
11. Trefniadau Derbyn I Ysgol Feithrin ........10
12. Oed Ysgol Statudol ........14
13. Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir ........15
14. Derbyn i Ysgol Gynradd ........15
15. Meini Prawf Gordanysgrifio Addysg Gynradd ........16
16. Derbyn i Ddosbarthiadau Derbyn: Cwestiynau ac Atebion ........18
17. Symud o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd ........19
18. Meini Prawf Gordanysgrifio Ysgolion Uwchradd ........19
19. Trosglwyddo o'r Cynradd i'r Uwchradd (ateb rhai cwestiynau) ........24
20. Trosglwyddo i ysgol wahanol / symud i'r ardal ........265
21. Derbyn i'r Chweched Dosbarth ........26
22. Derbyniadau i Addysg Enwadol ........26
23. Apeliadau Statudol ........27
24. Rhestrau Aros ........28
25. Genedigaethau Lluosog ........28

26. Diffiniad o Frodyr a Chwiorydd ........................................................... 28

27. Ceisiadau Twyllodrus / camarweiniol .................................................... 29

28. Ceisiadau ar gyfer plant personel Lluoedd Arfog y DU a Gweision y Goron…………………………………………………………………………..29

29. Darpariaeth ar gyfer plant ag Anghenion Yschwanegol ........................... 29

30. Trafnidiaeth........................................................................................ 30

31 Prydau Ysgol Am Ddim ……………………………………………………….31

32. Grant Hanfodion Ysgolion.................................................................... 32

33. Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)........................................................ 33

34. Arholiadau Cyhoeddus …………………………………………………….33

35. Trefniadau Codi Tâl ar Deithiau/ Ymweliadau Ysgol ac ati ....................... 33

36. Prawf o Gyfeiriad / mwy nag un cyfeiriad ................................................ 34

37. Anghenion Meddygol a Chymdeithasol Cymhellol .................................. 34

Atodiad 1 – Rhestr o'r Ysgolion Cynradd ac Uwchradd a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.........................................................................35

Atodiad 2 - Rhestr o Ysgolion Bwydo Cynradd i'n Fyyd wirfoddol a Gynorthwyir a'n ysgolion Uwchradd .... 42

Atodiad 3 - Ysgol Stanwell - newid categori i Statws Cymunedol .................... 43

Atodiad 4 - Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ……..………………………..44

Atodiad 5 - Rhestr o Ysgolion Arbennig a Darpariaeth Arbennig mewn ysgolion prif ffrwd …………………………………………………………………………….45

Atodiad 6 - Polisïau Derbyn ar gyfer Ysgolion Fydd Gwirfoddol a Gynorthwyir.................................................................................... 50

Atodiad 7 - Dyddiadau Gwyliau Ysgol.............................................................. 88

Cyhoeddwyd 1 Medi 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras a fformatau eraill ar gais.
Cyngor Bro Morgannwg sy'n cyhoeddi'r llyfryn hwn, ac mae'n cynnwys y wybodaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor ei chyhoeddi dan Reoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011. Er bod y wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau lle bo hynny'n angenrheidiol i'w alluogi i gydymffurfio â newidiadau polisi a/neu ddeddfwriaeth.

**Manylion Cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth am Dderbyniadau i Ysgolion ewch i'n gwefan www.bromorgannwg.gov.uk.
Gallwch hefyd gysylltu â'r tîm drwy e-bostio **admissions@valeofglamorgan.gov.uk** neu ffonio 01446 700111.
Ein cyfeiriad yw Cyngor Bro Morgannwg, Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri CF63 4RU

## 1. Llythyr gan yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Diwylliant a'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau

Annwyl Riant/ Warcheidwad

Ym Mro Morgannwg rydym yn falch iawn o'n hysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig ffyniannus ac rydym yn falch iawn o'ch croesawu chi a'ch plentyn i'n cymuned addysg. Rydym yn ymrwymo i safonau addysg uchel a'n partneriaeth â rhieni, llywodraethwyr ac ysgolion.

Mae dechrau'r ysgol yn amser pwysig i rieni a phlant. Rydym yn deall pwysigrwydd gwneud penderfyniad gwybodus am yr ysgol yr hoffech i'ch plentyn ei mynychu. Mae'r llyfryn hwn yn rhoi'r holl wybodaeth mae ei hangen arnoch am ein trefniadau derbyn, ffeithiau am ein hysgolion a gwybodaeth arall a allai fod o ddiddordeb i chi. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ymweld ag ysgolion lleol. Mae gwefannau ysgolion unigol hefyd yn ffynhonnell wybodaeth ragorol yn ogystal â gwefan y Cyngor (www.bromorgannwg.gov.uk) lle mae dolen at safle Llywodraeth Cymru "fy ysgol leol". Efallai yr hoffech hefyd ddarllen adroddiadau arolygu diweddar Estyn.

Cewch ddewis o blith amrywiaeth o ysgolion, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg, Ysgolion Cymunedol ac ysgolion â'u trefniadau derbyn eu hunain megis Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir (gweler atodiad 6 i gael rhagor o wybodaeth am hyn).Er bod gennych hawl i fynegi dewis ysgol, cofiwch nad oes sicrwydd y cewch gynnig eich dewis cyntaf. Weithiau mae mwy o geisiadau am ysgol nag y lleoedd sydd ar gael. Pan fydd hyn yn digwydd, cynigir lleoedd drwy ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio - y rheolau a gymhwysir wrth ddyrannu lleoedd - yn y canllaw hwn. Ystyriwch y rheolau hyn gan y bydd hynny yn eich helpu i ddeall y tebygolrwydd y caiff eich plentyn gynnig lle. Er bod yn rhaid gwrthod ceisiadau weithiau, mae Cyngor Bro Morgannwg yn falch iawn o'r ffaith bod dros 90% o'r rhieni'n llwyddo i gael lle yn ysgol eu dewis cyntaf.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael i chi a phenderfynu pa ysgolion yr hoffech wneud cais amdanynt, sicrhewch eich bod yn gwneud eich cais erbyn y dyddiadau cau sydd yn y llyfryn hwn. Drwy wneud cais yn brydlon, byddwch yn gwybod y caiff ei ystyried ynghyd â'r ceisiadau eraill ar gyfer eich dewis ysgol. Os yw eich cais yn hwyr, mae perygl y bydd eich dewis ysgol eisoes yn llawn.

Gobeithio y dewch o hyd i bopeth mae ei angen arnoch yn y canllaw hwn; fodd bynnag, mae ein Tîm Mynediad i'r Ysgol profiadol ar gael i roi unrhyw gyngor ac arweiniad y mae arnoch eu hangen.

Yr eiddoch yn gywir

**Y Cynghorydd Rhiannon Birch**

**Aelod Cabinet dros**

**Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg**

**Elizabeth Jones**

**Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau**

## 2. Gwneud cais am le mewn ysgol

Caiff mynediad plant i ysgolion ei reoli a'i weinyddu gan 'Awdurdod Derbyn'. Yr awdurdod derbyn ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir Bro Morgannwg yw'r Cyngor a rheolir hyn gan ein Tîm Mynediad i'r Ysgol.

Yn achos Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir, Corff Llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn. Edrychwch ar wefan yr ysgol i gael rhagor o wybodaeth yn yr achos hwn.

O fewn y cyngor mae gan bob ysgol ardal a elwir yn ddalgylch. Caiff disgyblion sy'n byw yn y dalgylch flaenoriaeth dros y rhai sy'n byw y tu allan iddo, fel y nodir yn y meini prawf gordanysgrifio. I gael rhagor o wybodaeth a manylion am eich ysgol ddalgylch, cyfeiriwch at y gwiriwr cod post "Yn eich cymdogaeth" ar hafan gwefan Bro Morgannwg.

Mae'n ofynnol i bob rhiant fynegi dewis ysgol ar gyfer ei blentyn ac mae'n rhaid gwneud hyn drwy lenwi ffurflen gais, naill ai drwy ddefnyddio un o'n ffurflenni cais papur neu drwy wneud cais ar-lein. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae rhieni neu ofalwyr yn hapus i ddewis eu hysgol leol ond mae angen bod enw'r ysgol ar ffurflen gais a gyflenwir gan rieni cyn y gellir dyrannu lle. Wrth wneud cais am le yn y dosbarth derbyn neu drosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd, rheolir hyn gan gylch derbyn blynyddol a rhaid cwblhau eich cais erbyn y dyddiad cau a hysbysebir, sydd yn ein hadran **Dyddiadau Pwysig** i roi'r cyfle gorau i'ch plentyn gael lle yn eich ysgol ddewis. Ni ellir dyrannu lle i ddisgyblion fynychu eu hysgol dalgylch, nac unrhyw ysgol arall, oni wneir cais ffurfiol. Bydd y rhieni sy'n mynegi eu dewis erbyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried yn gyntaf ac ni chaiff y ceisiadau hwyr ond eu hystyried unwaith y bydd cylch cyntaf y dyraniadau wedi'i gwblhau. Cofiwch, os na wnewch gais erbyn y dyddiad cau, efallai y bydd eich ysgol ddewis eisoes yn llawn a gellid gwrthod lle i'ch plentyn yn ei ysgol leol.

Sylwch mai dim ond Tîm Mynediad i Ysgolion y Cyngor all ddyrannu lle i'ch plentyn mewn ysgol a gynhelir. Ni ddylid cymryd unrhyw lythyr a gewch gan ysgol (oni bai mai hi yw'r awdurdod derbyn) sy'n datgan bod lle wedi ei gadw i'ch plentyn, fel arwydd bod lle wedi'i ddyrannu.

**Anghydfodau rhieni**

Cyn cyflwyno cais ar gyfer eu plentyn, dylai rhieni drafod pa ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, a cheisio dod i gytundeb, yn enwedig lle mae gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant. Os na all rhieni gytuno ar addysg addas i'w plentyn, ni fyddwn yn gallu prosesu ceisiadau am dderbyniadau i'r ysgol nes y cawn ddogfen gyfreithiol sy'n cyfarwyddo gwneud hynny.

Cynghorir rhieni i gwblhau'r cais yn ofalus a rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl (gan gynnwys tystiolaeth ddogfennol ategol lle bo angen) gan y defnyddir hyn i asesu ble y bydd y plentyn ar y rhestr ar gyfer pob ysgol y gwnaed cais amdani. Mae'r cyngor yn defnyddio 'Cynllun Dewis Cyfartal' i benderfynu pa ysgol y gellir ei chynnig. Mae hyn yn golygu, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, nad ydym yn ystyried y drefn y mae rhieni wedi rhoi'r ysgolion yn y cais. Caiff pob dewis ei asesu yn erbyn meini prawf derbyn y Cyngor, felly mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen ac yn deall y rhain yn llawn. Dim ond un lle y gall y cyngor ei gynnig mewn ysgol Gymunedol felly wrth ddyrannu lleoedd, os gallwn gynnig mwy nag un lle, byddwn bob amser yn cynnig yr

ysgol yr ydych wedi'i rhestru fel blaenoriaeth. Felly, mae'r drefn y mae rhieni'n rhoi'r ysgolion ynddi yn bwysig iawn. Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael lle yn eu hysgol leol, pan fo hynny'n bosibl, argymhellir yn gryf bod rhieni'n rhestru 3 Ysgol Gynradd wahanol, ac yn rhoi'r ysgol ddalgylch o leiaf fel un dewis.

## 3. Canolfan Iaith Gymraeg

A yw eich plentyn yn 5-11 oed? Ydych chi wedi bod yn ystyried addysg Gymraeg? Mae cyfle cyffrous bellach ar gael drwy raglen 12 wythnos newydd yn ein Canolfan Gymraeg.

Os yw eich plentyn yn newydd i'r Gymraeg, bydd ein Canolfan yn caniatáu i ddysgwyr oedran cynradd gael eu trochi yn yr iaith, gan ddatblygu lefel o ruglder a fydd yn eu galluogi i lwyddo yn eu taith addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol Gymraeg ym Mro Morgannwg.

Rydyn ni'n:

- Datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr ar draws y cwricwlwm, gyda ffocws penodol ar ddatblygu sgiliau gwrando a siarad
- Darparu amgylchedd dysgu cyfoethog ac adnoddau dysgu pwrpasol er mwyn cefnogi'r dysgwyr ar hyd eu taith
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth pob dysgwr o ddiwylliant Cymreig a chyfoethogi profiadau teuluoedd o'r iaith a'r diwylliant

**Mynychu'r Ganolfan Iaith**

Bydd dysgwyr yn treulio cyfnod o 12 wythnos (ddim yn cynnwys gwyliau ysgol) yn y Ganolfan Iaith, o ddydd Llun i ddydd Iau. Bydd y plant yn mynychu'r ysgol ble mae wedi'u cofrestru pob dydd Gwener yn ystod y cyfnod hwn. Bwriad hynny yw gofalu am les y plant wrth sicrhau eu bod yn derbyn cyfleoedd priodol i ddod i adnabod eu cyd-ddysgwyr ac athrawon.

**Cyrraedd y Ganolfan Iaith**

Lleolir y Ganolfan Iaith yn Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant, yn Y Barri.

**Canolfan Iaith Ysgolion Bro Morgannwg,**
**Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant,**
**Amroth Court, Caldy Close, Y Barri, CF62 9DU**

Gallwch gludo eich plentyn eich hunain i'r Ganolfan Iaith, neu fanteisio ar wasanaeth tacsi a drefnir gan adran drafnidiaeth y Sir. Gofynnwn yn garedig i rieni/warchodwyr roi gwybod sut maent yn bwriadu i'w plentyn deithio. Cynigiwn ad-dalu eich costau milltiredd petrol, os yn gymwys

**Cysylltu â ni**
Mae croeso i chi gysylltu â ni er mwyn trefnu ymweliad neu ar gyfer cynnal sgwrs dros y ffôn.

- 01446 421723
- owene533@hwbcymru.net

## 4. Cod Derbyn i Ysgolion Gorffennaf 2013

Bydd y Cyngor yn cadw at ofynion y Cod Derbyn i Ysgolion newydd Gorffennaf 2013 a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Ceir crynodeb o'r prif newidiadau isod:

- gofyniad bod meini prawf gordanysgrifio' awdurdod derbyn yn cynnwys 'plant a fu'n derbyn gofal' ochr yn ochr â phlant sy'n derbyn gofal, fel y maen prawf cyntaf ym mhob achos;
- pennu dyddiadau Cynnig Cyffredin ar gyfer anfon llythyrau penderfynu. Cyfeiriwch at yr adran "Dyddiadau Pwysig".
- gofyniad bod rhestrau aros yn cael eu cadw tan 30 Medi, o leiaf, lle mae gormod o geisiadau am lefydd mewn ysgol.
- canllawiau ar eithriadau ychwanegol i'r ddeddfwriaeth ar faint dosbarthiadau. Mae'r eithriadau ychwanegol hyn yn helpu i dderbyn pob plentyn o enedigaethau lluosog pan fo'r 30ain plentyn yn dod o enedigaeth luosog. Yn flaenorol, byddai'n rhaid i rieni benderfynu a oeddent am gymryd y lle ar gyfer un plentyn pan nad oedd lle ar gyfer y llall. Mae'r newidiadau hefyd yn caniatáu i awdurdodau derbyn dderbyn disgyblion y lluoedd arfog i'w hysgol leol pe baent yn symud i'r ardal y tu allan i gyfnod y rownd dderbyn.
- mwy o gyfleoedd i amrywio'r trefniadau derbyn presennol heb ofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru (Cod Derbyn 2.21).

## 5. Dyddiadau pwysig

Isod, mae dyddiadau pwysig sy'n ymwneud â'r broses ymgeisio, gan gynnwys y dyddiad cau a phryd y byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad eich cais. Mae'n ofynnol i bob awdurdod derbyn, gan gynnwys ysgolion sy'n rheoli eu derbyniadau eu hunain, gadw at y dyddiadau hyn,

| AMSERLEN DDYDDIOL | CAIS AR GYFER | CAIS AR GYFER | CAIS AR GYFER |
|---|---|---|---|
| | SYMUD I YSGOL UWCHRADD BLWYDDYN ACADEMAIDD 2025/2026 | DERBYN BLWYDDYN ACADEMAIDD 2025/2026 | LLE MEITHRIN BLWYDDYN ACADEMAIDD 2025/2026 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anfon gwybodaeth derbyn** at rieni / i ysgolion a'r gwasanaeth cais ar-lein yn agor | **19 Medi 2025** | **28 Tachwedd 2025** | **23 Ionawr 2026** |
| **Dyddiad cau ar gyfer ffurflenni dewis yn dod i law** | **21 Tachwedd 2025** | **23 Ionawr 2026** | **16 Mawrth 2026** |
| **Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn hysbysu'r Cyngor am ganlyniadau'r ceisiadau** | **2 Chwefror 2026** | **9 Mawrth 2026** | **27 Ebrill 2026** |
| **Postio hysbysiad y canlyniadau rieni ar gyfer Ceisiadau i ysgolion cymunedol, gwirfoddol A gynorthwyir Ysgolion** | **2 Mawrth 2026** | **16 Ebrill 2026** | **28 Mai 2026** |
| **CLYWED APELIADAU'R ROWND 1AF YN UNOL Â GOFYNION COD APELIO'R YSGOL A CHYN DECHRAU'R FLWYDDYN ACADEMAIDD** | | | |

* Caiff llythyrau Penderfyniad Meithrin ar gyfer disgyblion a fydd yn dair oed cyn 31 Awst 2025 eu hanfon ym mis Mai 2025, anfonir llythyrau at rieni disgyblion fydd yn dair oed rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr 2025 ym mis Hydref 2025 a chaiff disgyblion a fydd yn dair rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Mawrth 2026 eu hysbysiad ym mis Ionawr 2026.

## 6. Ceisiadau hwyr

Dim ond ceisiadau a ddaw i law erbyn y dyddiad cau ar gyfer y dosbarth derbyn ac ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd y gellir eu hystyried yn y rownd gyntaf y derbyniadau felly nodwch y dyddiadau hyn er mwyn sicrhau bod eich cais yn dod i law mewn pryd i'w ystyried ochr yn ochr â phob rhiant arall sy'n gwneud cais yn brydlon. Dim ond ar ôl cwblhau'r cylch cyntaf o geisiadau y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Gallai hyn effeithio ar obeithion plentyn o gael ei dderbyn yn ysgol ddewis y rhieni os, er enghraifft, oes digon o geisiadau wedi dod i law cyn y dyddiad cau i'r Cyngor gyrraedd y nifer derbyn. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, bod pobl sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac a wnaeth gais cyn y dyddiad cau yn cael cynnig lle yn hytrach na disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch na wnaeth eu rhieni gais cyn y dyddiad cau.

Mae'r trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr am le meithrin ychydig yn wahanol yn sgil y broses dderbyn dymhorol. Wedi i'r dyddiad cau fynd heibio, a dyraniadau'r cylch cychwynnol wedi eu gwneud ar gyfer plant sy'n gymwys i ddechrau ym mis Medi, caiff unrhyw geisiadau hwyr eu hychwanegu at y rhestr aros dyraniadau ar gyfer plant iau sy'n cychwyn ym mis Ionawr neu Ebrill, yn nhrefn y meini prawf gordanysgrifio.

Ym mhob achos, wedi i ddyraniadau'r cylch cyntaf gael eu gwneud a/neu ar ôl cynnig pob lle sydd ar gael, mae unrhyw geisiadau hwyr yn ymuno â'r rhestr aros neu restri dyrannu ysgolion meithrin tymhorol fel y'u blaenoriaethir gan y meini prawf gordanysgrifio. Os caiff unrhyw leoedd eu cynnig yn yr ysgol wedyn, byddant yn cael eu cynnig yn ôl y meini prawf hyn. Yn yr achos hwn, byddai ceisiadau dalgylch hwyr

yn cael blaenoriaeth dros geisiadau "prydlon" sydd wedi eu categoreiddio'n is o ran y meini prawf ac y gwrthodwyd lle iddynt yn y rownd gyntaf.

## 7. Derbyniadau Ysgol Ar-lein

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn defnyddio proses dderbyn ar-lein ar gyfer derbyniadau i'r Ysgol Feithrin, y Dosbarth Derbyn a'r Ysgol Uwchradd. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i rieni wneud cais am leoedd mewn ysgolion ym Mro Morgannwg. Dyma fanteision y system:

- mae'n gyflym ac yn hawdd ei defnyddio;
- gallwch wneud cais o'ch cartref 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos;
- does dim peryg i'ch cais fynd ar goll yn y post;
- byddwch yn cael e-bost yn cadarnhau bod eich cais wedi'i gyflwyno a'i dderbyn gan y cyngor;
- mae'n ddiogel ac mae cyfres o nodweddion diogelwch a fydd yn atal eraill rhag gweld eich gwybodaeth.

Mae manylion y broses a sut i wneud cais ar-lein ar gael ar wefan y cyngor ac mae hefyd wedi'i gynnwys mewn llythyr a anfonir at rieni disgyblion cymwys Bro Morgannwg sy'n hysbys i dîm mynediad yr ysgol yn nhymor yr hydref ar lansio'r rownd dderbyn ar gyfer y flwyddyn academaidd hon. Am fwy o fanylion edrychwch ar ein tudalennau gwe neu e-bostiwch admissions@valeofglamorgan.gov.uk.

## 8. Gwneud cais drwy'r post

Mae'r broses bapur draddodiadol ar gael o hyd ac mae'n gofyn i rieni lenwi ffurflen gais bapur a'i hanfon i'r cyngor. Bydd cydnabyddiaeth yn cael ei hanfon drwy'r post.

## 9. Nifer Derbyn/Terfynau Maint Dosbarthiadau Babanod

Mae gan bob ysgol nifer derbyn sy'n dangos nifer y disgyblion y gall ysgol eu derbyn i 'grŵp oedran perthnasol'. Ni ellir gwrthod derbyn i unrhyw ysgol yn y flwyddyn fynediad arferol nes y cyrhaeddir terfyn y nifer derbyn. Mae'r nifer derbyn yn adlewyrchu gallu ysgol i dderbyn disgyblion o ran maint y lle sydd ar gael. Pan gyrhaeddir terffyn y nifer derbyn, gellir gwrthod derbyn.  Mae nifer derbyn pob ysgol ym Mro Morgannwg yn Atodiad 1.

Yn ogystal â niferoedd derbyn, mae deddfwriaeth y Llywodraeth yn nodi na fydd unrhyw blentyn 5, 6 neu 7 oed mewn dosbarth o fwy na 30 o ddisgyblion fel yr amlinellir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae'r rheoliad hwn yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i gyfyngu maint pob dosbarth babanod i 30 plentyn. Bydd y Cyngor yn cadw at y gofynion sydd arno

o ran niferoedd derbyn a chyfyngiadau maint dosbarthiadau babanod a sicrhau, lle bynnag y bo modd, bod pob disgybl yn cael cynnig lle mewn ysgol gynradd o fewn pellter rhesymol o'r cartref. Fodd bynnag, dylai rhieni nodi nad yw'n ofynnol i gynghorau a chyrff llywodraethu gydymffurfio â dewisiadau rhieni petai derbyn disgybl i ddosbarth yn anghydnaws â'r ddyletswydd i fodloni terfynau maint dosbarthiadau babanod, ar yr amod bod nifer derbyn yr ysgolion wedi'i chyrraedd hefyd.

## 10. Derbyn i Addysg y Blynyddoedd Cynnar / Ysgol Feithrin

Rhestrir manylion unedau meithrin ac ysgolion ym Mro Morgannwg yn atodiad 1. Mae gan blant hawl i le rhan amser pum sesiwn addysgol hanner diwrnod o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed a **rhaid** iddynt fynychu am bum hanner diwrnod. **Ni all y Cyngor ystyried ceisiadau i fynychu unedau meithrin am lai na 5 diwrnod**. Penderfyniad y Pennaeth yw cynnig lle yn y bore neu'r prynhawn. Gall y ddarpariaeth hon fod naill ai mewn ysgol feithrin, uned feithrin ysgol neu ddarparwr addysg sydd wedi'i gofrestru gyda Bro Morgannwg. Cyfeiriwch at y rhestr o ddarparwyr addysg cofrestredig ym Mro Morgannwg yn atodiad 3.

**Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn rhoi hawl uniongyrchol i'r plentyn hwnnw gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Bydd angen gwneud cais ar wahân a chaiff ei ystyried yn unol â'r meini prawf cyhoeddedig.**

**Ysgolion a Dosbarthiadau Meithrin - Dyddiadau cymhwyso i blant gael lle rhan amser.**

Os yw eich plentyn yn dair oed rhwng:

1 Ebrill a 31 Awst (yn cynnwys y rhain) Gellir derbyn eich plentyn yn ystod Tymor yr Hydref

1 Medi a 31 Rhagfyr (yn cynnwys y rhain) Gellir derbyn eich plentyn gyn ystod Tymor y Gwanwyn

1 Ionawr a 31 Mawrth (yn cynnwys y rhain) Gellir derbyn eich plentyn yn ystod Tymor yr Haf

Os hoffech gael gwybodaeth am gynlluniau chwarae, clybiau gofal plant a brecwast ac ati, cyfeiriwch at yr adran Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGiD) neu cysylltwch a'r ysgolion unigol.

## 11. Trefniadau derbyn i Ysgol Feithrin

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion meithrin cymunedol a dosbarthiadau meithrin a gynhelir ym Mro Morgannwg. Ni ellir dyrannu lle meithrin cymunedol neu le wedi ei reoli heb gais ffurfiol. Bydd y Cyngor fel arfer yn derbyn

plant sy'n dair blwydd oed ar ddechrau'r tymor (1 Medi, 1 Ionawr neu 1 Ebrill) hyd nes cyrraedd capasiti cymeradwy'r ysgol. Lle bo nifer y ceisiadau i gael lle mewn ysgol yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r meini prawf derbyn canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth, fel y nodir isod, tan y cyrhaeddir y capasiti cymeradwy..

Dylai rhieni hefyd sylwi na fydd gan blant sy'n mynychu ysgol feithrin hawl 'awtomatig' i barhau â'u haddysg yn yr un ysgol pan fyddant yn symud i fyny i ddosbarth derbyn, boed nhw'n byw yn y dalgylch neu'r tu allan iddo. Bydd yn rhaid i rieni wneud cais ar gyfer eu hysgol ddewis (gweler adran Trefniadau Derbyn Addysg Gynradd). Gan nad yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle i blentyn mewn ysgol benodol.

Pan fo rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael mantais mewn ysgol benodol ar gyfer ei blentyn, na fyddai hawl ar le gan riant ynddi fel arall, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig am le yn ôl.

### Meini Prawf Gordanysgrifio Derbyn i Ysgol Feithrin

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl ysgolion meithrin cymunedol a dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion gwirfoddol a reolir. Mae lleoedd yn cael eu dyrannu fesul tymor gan ystyried ceisiadau ar gyfer plant oedd yn dair oed ar neu cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol **(31 Awst, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth).**

Bydd plant â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, pan fo'r ysgol wedi ei henwi fel y lleoliad mwyaf priodol, yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf sydd ar waith pan fo mwy o alw nag o leoedd.

Mae pob cais yn cael ei flaenoriaethu'n unol â'r meini prawf gordanysgrifio waeth beth fo'r dyddiad cychwyn gyda'r feithrinfa. Bydd disgyblion sy'n byw yn y dalgylch neu sydd â chysylltiad brawd neu chwaer sy'n gymwys ar gyfer lle'n hwyrach yn y flwyddyn academaidd yn derbyn darpar leoedd cyn i geisiadau o'r tu allan i'r dalgylch gael eu dyrannu hyd yn oed pan fo'r ceisiadau o'r tu allan i'r dalgylch ar gyfer plant hŷn.

Wedi i ddyraniadau cychwynnol mis Medi gael eu gwneud, bydd unrhyw gynigion hwyr yn cael eu hychwanegu at y rhestr aros/rhestr ddyrannu dymhorol a lleoedd yn cael eu cynnig ar y sail honno. Yn yr achosion hyn, bydd ceisiadau dalgylch hwyr, er enghraifft, yn cael mwy o flaenoriaeth na cheisiadau "prydlon" sy'n gymwys yn ôl meini prawf is.

**<u>Derbyn yn nhymor yr hydref</u>** (dyrennir ym mis Mai er mwyn cychwyn ym mis Medi)

1. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Awst a thystiolaeth wedi ei chyflwyno i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn flaenorol, gan awdurdod lleol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.

2. Plant a gafodd eu pen-blwydd yn dair oed cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol ac sy'n byw yn nalgylch diffiniedig yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar

gyfer derbyn ffurflenni cais. Bydd angen tystiolaeth o'r preswyliad parhaol. Pan fo mwy o alw nag o leoedd yn y categori hwn yn unig, bydd y meini prawf isod, yn nhrefn eu blaenoriaeth, yn cael eu defnyddio i lunio trefn flaenoriaeth ar gyfer ceisiadau;

(a) Plant sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd y mae'r plentyn i gael ei dderbyn. (Pan fo mwy wedi dewis yr ysgol na sydd o leoedd ynddi, mae'r Cyngor yn pennu blaenoriaeth drwy ystyried oed y brawd neu'r chwaer ieuengaf sydd yn yr ysgol a'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf).

(b) Plant yn nhrefn gronolegol dyddiadau geni, yr hynaf yn cael ei dderbyn gyntaf. Os yw dau neu ragor o blant yn rhannu'r un pen-blwydd rhoddir blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf i'r ysgol yn ôl mesuriad y llwybr cerdded byrraf, y rhai sy'n byw agosaf fydd â'r flaenoriaeth. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol.

3. Plant a gafodd eu pen-blwydd yn dair oed cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol ac y mae'r Cyngor yn barnu bod rhesymau meddygol neu gymdeithasol cryf dros eu derbyn i ysgol/dosbarth meithrin penodol, h.y. plant yr argymhellir eu lleoli am resymau meddygol, seicolegol neu addysgol arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o'r fath).

4. Plant a gafodd eu pen-blwydd yn dair oed cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol ac y mae ganddynt frawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd y disgwylir derbyn y plentyn. (Pan fo mwy wedi dewis lle yn yr ysgol na sydd o leoedd ar gael ynddi, mae'r Cyngor yn pennu blaenoriaeth drwy ystyried oed y brawd neu'r chwaer ieuengaf sydd yn yr ysgol a'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf).

**Derbyn yn nhymor y gwanwyn** (Wedi eu dyrannu ym mis Hydref i gychwyn ym mis Ionawr)

5. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Rhagfyr a thystiolaeth wedi ei chyflwyno i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn flaenorol, gan awdurdod lleol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.

6. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Rhagfyr, ac sy'n byw o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol ar neu cyn dyddiad cau cyhoeddedig derbyn ffurflenni dewis. Bydd angen tystiolaeth o'r preswyliad parhaol. Pan fo mwy o alw nag o leoedd yn y categori hwn yn unig, bydd y meini prawf ym mhwynt 2 uchod, yn nhrefn eu blaenoriaeth, yn cael eu defnyddio i lunio trefn flaenoriaeth ar gyfer ceisiadau.

Bydd pob cais arall yn cael ei flaenoriaethu drwy ddefnyddio pwyntiau 3 a 4 uchod.

**Derbyn yn nhymor yr haf** (dyrannu ym mis Ionawr er mwyn cychwyn ym mis Ebrill)

7. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Mawrth a thystiolaeth wedi ei

chyflwyno i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn flaenorol, gan awdurdod lleol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.

8. Plant a fydd yn dair oed ar neu cyn 31 Mawrth, ac sy'n byw o fewn dalgylch diffiniedig yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig er mwyn derbyn ffurflenni dewis. Bydd angen tystiolaeth o'r preswyliad parhaol. Pan fo mwy o alw nag o leoedd yn y categori hwn yn unig, bydd y meini prawf ym mhwynt 2 uchod, yn nhrefn eu blaenoriaeth, yn cael eu defnyddio i lunio trefn flaenoriaeth ar gyfer ceisiadau. Bydd pob cais dalgylch arall yn cael ei flaenoriaethu drwy ddefnyddio pwyntiau 3 a 4 uchod.

Ceisiadau sy'n Weddill

9. Pan fo lleoedd yn dal ar gael wedi dyrannu yn ôl y meini prawf uchod, bydd y gweddill yn cael eu dyrannu i blant a gafodd eu pen-blwydd yn dair oed cyn diwrnod olaf y tymor blaenorol (31 Awst, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth) gyda blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol/dosbarth meithrin yn ôl y llwybr cerdded byrraf, a'r rhai sy'n byw agosaf gaiff flaenoriaeth. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol.

**Prawf Preswylio**

Ym mhob achos, rhaid cyflwyno tystiolaeth o fan preswylio parhaol plentyn ar adeg gwneud y cais. Bydd unrhyw le a gymeradwyir ar sail preswyliad yn cael ei dynnu nôl os nad yw'r disgybl yn preswylio yn y cyfeiriad hwnnw ar ddechrau'r tymor ysgol sy'n berthnasol i'r cais.

Pan fo plentyn yn byw'n barhaol mewn dau gyfeiriad yn ystod wythnos ysgol, yna y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad lle mae'r plentyn yn byw y rhan fwyaf o'r wythnos (e.e. 4 diwrnod o 7). Bydd yn rhaid i rieni gyflwyno tystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau bod y plentyn yn byw yn y cyfeiriad y dymunant ei ddefnyddio wrth ystyried dyrannu lleoedd. Bydd angen i'r dystiolaeth fod ar ffurf dogfennau cyfreithiol, cadarnhad o Fudd-dal Plant, tystiolaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol neu weithwyr proffesiynol eraill.

**Diddymu Cynnig Lle**

Pan fo rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael mantais mewn ysgol benodol ar gyfer ei blentyn, na fyddai hawl ar le ynddi fel arall, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl.

## Derbyn i Ddosbarthiadau Meithrin: Cwestiynau ac Atebion

**Rwyf wedi rhoi enw fy mhlentyn ar gyfer fy ysgol ddewis ers iddo gael ei eni. Ydy hynny'n sicrhau y caf i le neu y bydd gen i fantais dros ymgeiswyr eraill?**

Nac ydy. Er bod ysgolion yn ei chael yn ddefnyddiol cadw rhestrau weithiau, nid yw'r rhestrau hynny'n berthnasol i'r broses dderbyn. Rhaid i rieni wneud cais o hyd drwy'r awdurdod derbyn i gael lle yn yr ysgol. Caiff y cais ei brosesu gan ddefnyddio ceisiadau a dderbynnir a thrwy gymhwyso'r meini prawf derbyn cyhoeddedig. Nid oes mantais bod enw eich plentyn ar restr gan ysgol.

**Mae gennyf blentyn arall yn mynychu fy ysgol ddewis, ond rydyn ni'n byw allan o'r dalgylch. A yw brawd neu chwaer yn yr ysgol yn rhoi fy mhlentyn mewn maen prawf uwch?**
Mae brawd neu chwaer yn yr ysgol yn rhan o'r meini prawf a ddefnyddir, ond nid yw'n gwarantu lle i chi yn eich ysgol ddewis. Bydd plant y dalgylch yn dal i gael blaenoriaeth bob amser.

**Mae fy nhrefniadau gofal plant yn golygu ei bod yn bwysig imi gael lle yn fy ysgol ddewis, sydd y tu allan i'm dalgylch. A gaiff hyn ei ystyried?**
Yn anffodus, ni ellir ystyried trefniadau gofal plant. Caiff plant y dalgylch bob amser y flaenoriaeth uchaf dros blant o'r tu allan i'r dalgylch.

**Pryd bydd fy mhlentyn yn gymwys i ddechrau?**
Os yw eich plentyn yn dair rhwng:

1 Ebrill a 31 Awst (yn cynnwys y rhain) Bydd yn bosibl derbyn eich plentyn ar gyfer Tymor yr Hydref canlynol (mis Medi)
1 Medi a 31 Rhagfyr (yn cynnwys y rhain) gellir derbyn eich plentyn yn ystod Tymor y Gwanwyn (mis Ionawr)
1 Ionawr a 31 Mawrth (yn cynnwys y rhain) gellir derbyn eich plentyn yn ystod Tymor yr Haf (mis Ebrill)
Gall eich plentyn ddechrau addysg amser llawn y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn bedair, felly, yn dibynnu ar ei ddyddiad geni gall fynychu'r feithrinfa am hyd at 5 tymor.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â Derbyniadau i'r Ysgol Feithrin, cysylltwch â'r tîm: admissionsnursery@valeofglamorgan.gov.uk

## 12. Oed Ysgol Statudol

Mae polisi'r Cyngor yn caniatáu i bob plentyn sydd wedi cael ei ben-blwydd yn bedair ar neu cyn 31 Awst fynychu ysgol lawn amser y mis Medi hwnnw. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ofyniad cyfreithiol. Gall rhieni ddewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol tan yn hwyrach yn y flwyddyn, neu pan fo eu plant yn bump oed ac wedi cyrraedd oed ysgol statudol. Mater i'w benderfynu gan rieni yw hwn, fodd bynnag, wrth ystyried hyn, sicrhewch eich bod yn ymwybodol o oblygiadau sylweddol y penderfyniad hwn. Byddai'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn gallu rhoi cyngor i chi yn ogystal ag ysgolion unigol os ydych yn ystyried y camau hyn.

At ddibenion gwybodaeth, diffinnir oed ysgol gorfodol fel cychwyn y tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn bump oed. Os yw eich plentyn yn bump oed ar neu cyn:

- 1 Medi
- 1 Ionawr neu
- 1 Ebrill

yna rhaid iddo gael ei gofrestru yn yr ysgol ar ddechrau'r tymor hwnnw. Er enghraifft, byddai plentyn a ddaeth yn bump oed ar 31 Awst yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol ar gyfer tymor mis Medi; ni fyddai plentyn a ddaeth yn bump oed ar 1 Medi yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol tan ddechrau tymor mis Ionawr.

**Ceisiadau y Tu Allan i Oed Cronolegol**
Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithredu polisi ar wahân ar gyfer ceisiadau y Tu Allan i Oed Cronolegol. Os bydd rhiant yn gofyn i gael rhoi plentyn mewn grŵp blwyddyn sydd y tu allan i oedran cronolegol y plentyn a bod y cais ar yr adeg derbyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried pob cais yn ôl ei rinwedd ei hun.

## 13. Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir

Yr awdurdod derbyn priodol ar gyfer y categori hwn o ysgolion yw'r corff llywodraethu y dylid gwneud pob cais iddo. Fodd bynnag, rhaid i'r Cyngor ac awdurdodau derbyn eraill yn ei ardal ddaearyddol gytuno ar ddyddiadau cynnig cyffredin er mwyn cynorthwyo rhieni. Mae gan Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir eu meini prawf gordanysgrifio en hunain. Mae'r rhain i'w gweld yn atodiad 6. Rhoddir manylion cyswllt pob ysgol ar restr yr ysgol yn atodiad 1. Mae gwefan yr ysgol hefyd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol.

Mae'r Cyngor yn cydlynu derbyniadau ar gyfer wyth ysgol Ffydd wirfoddol a gynorthwyir bartner sy'n gweithredu fel eu hawdurdod derbyn eu hunain, sef:

- Ysgol Gynradd yr Eglwys Yng Nghymru yr Holl Saint
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Llansanwyr;
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Saint Andras;
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Sain Ffraid;
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant;
- Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff;
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes;
- Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

Yn ogystal ag Ysgolion Cymunedol Bro Morgannwg, gallwch hefyd ymgeisio am leoedd yn yr ysgolion hyn drwy wneud cais uniongyrchol i'r Cyngor neu ddefnyddio'r gwasanaeth ymgeisio ar-lein. Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall yn union y meini prawf derbyn ar gyfer pob ysgol uchod yr ydych yn ymgeisio ar ei chyfer.

Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael lle yn eu hysgol leol, lle bynnag y bo modd, mae system dewis cyfartal ar waith ar gyfer ceisiadau i'r ysgol gynradd lle gwahoddir rhieni i nodi hyd at 3 dewis. Argymhellir yn gryf bod rhieni'n rhestru 3 Ysgol Gynradd wahanol, ac o leiaf un ohonynt yn ysgol ddalgylch

## 14. Derbyn i Ysgol Gynradd

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl Ysgolion Cynradd, Iau a Babanod Cymunedol a Gynhelir a Gwirfoddol a Reolir ym Mro Morgannwg. Yn achos ysgol ffydd wirfoddol a gynorthwyir, yr awdurdod derbyn priodol yw'r corff llywodraethu y dylid cyflwyno'r holl geisiadau derbyn iddo. Rhaid gwneud ceisiadau am leoedd derbyn i'r

wyth ysgol ffydd wirfoddol a gynorthwyir bartner yn adran 13 i'r Cyngor yn uniongyrchol gan ddefnyddio gwasanaeth gwneud cais ar-lein y Cyngor. Bydd y Cyngor yn sicrhau, gymaint ag y gall, y bydd lle mewn ysgol o fewn pellter rhesymol i'r cartref yn cael ei warantu ar gyfer pob disgybl.

Mae angen i rieni nodi dewis ysgol i'w plentyn ei mynychu/pontio iddi, hyd yn oed os mai'r ysgol ddalgylch yw hi. Yn nhymor yr hydref gwahoddir rhieni disgyblion cymwys Bro Morgannwg sy'n hysbys i'r awdurdod derbyn i wneud cais ar gyfer eu ysgol gynradd ddewis ar gyfer y mis Medi canlynol. Bydd rhieni'n cael eu hysbysu o'r penderfyniadau yn ôl yr amserlen yn y canllaw hwn. Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn golygu bod hawl gan blentyn ar le yn y dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais ar wahân. Ni ellir gwarantu y gellir gwireddu dewis rhiant ymhob achos, gan y gall fod mwy o geisiadau na nifer y lleoedd mewn rhai ysgolion.

Rhestrir pob ysgol gynradd yn atodiad 1 i'r ddogfen hon. Caiff ysgolion cynradd eu categoreiddio fel "Ysgolion Cymunedol", "Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru" ac "Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir" (yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig). Bydd y Cyngor yn ymdrechu i wireddu dymuniad rhieni pan fo hynny'n bosibl, cyn belled â bod lleoedd ar gael ac nad yw nifer derbyn yr ysgol wedi ei chyrraedd.  Fodd bynnag, pan fo nifer y ceisiadau am le mewn ysgol yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r meini prawf derbyn, yn nhrefn blaenoriaeth, a nodir isod.

## 15. Meini Prawf Gordanysgrifio Addysg Gynradd

Bydd plant sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol, pan gaiff yr ysgol ei henwi fel y lleoliad mwyaf priodol, yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio.

1. Plant sydd â thystiolaeth i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989.

2. Plant sy'n byw'n barhaol o fewn dalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis.  Bydd rhaid rhoi tystiolaeth o breswylfa barhaol plentyn os gofynnir am hynny. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5) a (6) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

3. Plant nad ydynt yn byw ar hyn o bryd yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol, ond y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol cyn i'r tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo ddechrau. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5) a (6) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

4. Plant sydd â sail feddygol neu gymdeithasol gref ym marn y Cyngor dros gael eu derbyn i'r ysgol gynradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn i ysgol

benodol oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o’r fath).  Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd yn y categori hwn yn unig, bydd meini prawf (5) a (6), yn nhrefn blaenoriaeth, yn berthnasol.

5. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol rhwng y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6 yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael o’r categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu lleoedd yn ôl oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf fydd â'r flaenoriaeth uchaf.

6. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn ystyried agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol gynradd, a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, bydd y rhai sy'n byw'n agosaf yn cael blaenoriaeth. Mae’r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo’r pellter o’r cartref i’r ysgol a chaiff y system ei diweddaru’n rheolaidd i sicrhau bod y wybodaeth fwyaf cywir yn cael ei defnyddio i gyfrifo’r pellter a ddefnyddir i ystyried ceisiadau.

Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael lle yn eu hysgol leol, lle bynnag y bo modd, mae system dewis cyfartal ar waith ar gyfer ceisiadau i'r ysgol gynradd lle gwahoddir rhieni i nodi hyd at 3 dewis. Argymhellir yn gryf bod rhieni'n rhestru 3 Ysgol Gynradd Gymunedol wahanol, ac o leiaf un ohonynt yn ysgol eu dalgylch.

Nid yw mynegi dewis yn gwarantu derbyn i’r ysgol ddewis. Bydd yn rhoi blaenoriaeth i blant yr ymgeiswyr dros blant nad yw eu rhieni wedi mynegi dewis ar gyfer yr ysgol honno. Os nad yw rhieni'n gwneud cais am 3 Ysgol Gynradd Gymunedol wahanol neu os ydynt yn cyflwyno eu cais yn hwyr, bydd yn llai tebygol y gall y plentyn fynychu ei ysgol ddewis neu'r ysgol ddalgylch gan y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hasesu ar ôl y ceisiadau a ystyrir yn y rownd gyntaf ac efallai y bydd eu hysgol ddewis neu'r ysgol ddalgylch eisoes yn llawn.

Cynghorir rhieni i gwblhau'r cais yn ofalus a rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl (gan gynnwys tystiolaeth ddogfennol ategol lle bo angen) gan y defnyddir hyn i asesu safle’r plentyn ar y rhestr ar gyfer pob ysgol y gwnaed cais amdani. Mae'r cyngor yn defnyddio 'Cynllun Dewis Cyfartal' i benderfynu pa ysgol y gellir ei chynnig.  Mae hyn yn golygu, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, nad ydym yn ystyried y drefn y mae rhieni wedi rhoi'r ysgolion ynddi yn y cais. Caiff pob dewis ei asesu yn erbyn meini prawf derbyn y Cyngor, felly mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen ac yn deall y rhain yn llawn.  Dim ond un lle y gall y cyngor ei gynnig mewn ysgol Gymunedol felly wrth ddyrannu lleoedd, os gallwn gynnig mwy nag un lle, byddwn bob amser yn cynnig yr ysgol yr ydych wedi'i rhestru fel blaenoriaeth. Dyma pam mae'r drefn y mae rhieni'n rhoi'r ysgolion ynddi yn bwysig iawn.

**Prawf Preswylio**
Ym mhob achos, rhaid cyflwyno tystiolaeth o fan preswylio parhaol plentyn ar adeg

gwneud y cais. Bydd unrhyw le a gymeradwywyd ar sail preswyliad yn cael ei dynnu yn ôl os nad yw’r disgybl yn preswylio’n barhaol yn y cyfeiriad hwnnw ar ddechrau’r tymor ysgol sy’n berthnasol i’r cais.

Pan na fydd rhieni plentyn yn byw yn yr un cyfeiriad ond yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros blentyn, ac mae’r plentyn yn byw mewn mwy nag un cyfeiriad am ran o’r wythnos ysgol, cyfeiriad cartref y plentyn fydd y cyfeiriad lle mae’r plentyn yn preswylio am y rhan fwyaf o’r wythnos (h.y. 4 diwrnod allan o 7). Nid yw rhannu cyfrifoldeb rhiant dros blentyn yn berthnasol i drefniadau preifat a wneir rhwng rhieni ac aelodau eraill o'r teulu fel plentyn sy'n byw gyda nain a thaid yn ystod yr wythnos. Yn yr achosion hyn, bydd cyfeiriad y person sydd â chyfrifoldeb rhiant sy’n gwneud y cais yn cael ei ddefnyddio. Bydd yn rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol ar gyfer y cyfeiriad y dymunant ei ddefnyddio at ddibenion dyrannu.

**Diddymu Cynnig Lle**
Pan fo rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael mantais mewn ysgol benodol ar gyfer ei blentyn, na fyddai hawl ar le ynddi fel arall, mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i dynnu’r cynnig o le yn ôl.

## 16. Derbyn i Ddosbarthiadau Derbyn: Cwestiynau ac Atebion

Dyma'r atebion i rai o’r cwestiynau y bydd rhieni’n eu gofyn amlaf am dderbyniadau i’r dosbarth derbyn.

**Ar ba oed y caiff fy mhlentyn fynd i'r dosbarth derbyn?**
Caiff plant eu derbyn i ddosbarthiadau derbyn yn y mis Medi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Nid yw hyn yn orfodol, ond yn ôl y gyfraith rhaid i bob plentyn ddechrau'r ysgol nid hwyrach na diwrnod cyntaf y tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed. Mae'r polisi presennol yn caniatáu derbyn unwaith ym mis Medi, sy'n galluogi disgyblion oedran derbyn i gael dod i'r ysgol yn llawn amser ym mis Medi eu blwyddyn academaidd yn bump oed. Gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n troi’n bump oed rhwng 1 Medi a 31 Awst i'r ysgol ar ddechrau tymor yr hydref cyn ei ben-blwydd yn bump oed. (Gweler yr adran **Oedran Ysgol Statudol**).

**A yw fy mhlentyn yn cael sicrwydd awtomatig o le yn nosbarth derbyn ysgol lle mae'n mynychu'r ysgol feithrin?**
Nac ydy. Nid fydd mynychu dosbarth meithrin o anghenraid yn rhoi hawl i blentyn ar le yn y dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol ar ôl cymhwyso'r meini prawf cyhoeddedig. Nid yw presenoldeb yn y dosbarth meithrin yn ffactor a ystyrir yn y meini prawf gordanysgrifio.

**Sut y penderfynir ar dderbyniadau os yw’r galw am leoedd yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael?**
Os oes gormod o alw h.y. lle mae mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff ceisiadau eu derbyn gan gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio a gyhoeddir yn y ddogfen hon. Yn achos YsgolionFfydd Gwirfoddol a Gynorthwyir cyfeiriwch at y

meini prawf derbyn sydd yn atodiad 6.

**Pa drefniadau apelio sydd i mi?**
Mae gan bob rhiant hawl statudol i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir i wrthod derbyn i ysgol unwaith y bydd y plentyn yn cyrraedd oedran ysgol statudol. Bydd rhieni sydd wedi gwneud cais aflwyddiannus yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y penderfyniad, gan gynnig yr hawl i apelio a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apêl. Caiff yr apêl ei glywed gan Banel Apeliadau sy'n annibynnol ar y Cyngor a bydd ei benderfyniad yn derfynol. Cyfeiriwch at yr adran ar **Apeliadau** am ragor o wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â Derbyniadau i'r Ysgol Gynradd, cysylltwch â'r tîm: admissionsprimary@valeofglamorgan.gov.uk

## 17. Symud o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd.

Rhestrir yr ysgolion uwchradd ym Mro Morgannwg yn atodiad 1 y llyfryn hwn. Dosberthir ysgolion uwchradd fel Ysgolion Cymunedol neu Ysgolion a Gynorthwyir. Y Cyngor sy'n gyfrifol am y trefniadau derbyn ar gyfer Ysgolion Cymunedol, a chyrff llywodraethu ysgolion unigol sy'n gyfrifol am y sector Gynorthwyir. Dylid gwneud ceisiadau ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn uniongyrchol i'r Cyngor gan ddefnyddio gwasanaeth gwneud cais ar-lein y Cyngor.

Mae plant fel arfer yn trosglwyddo i ysgol uwchradd yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn un ar ddeg oed. Yn nhymor yr hydref gwahoddir rhieni disgyblion Blwyddyn 6 i wneud cais am le yn eu hysgol uwchradd ddewis ar gyfer y mis Medi canlynol. Wrth benderfynu ar dderbyniadau, bydd y Cyngor yn ystyried pob cais unigol a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Ni ellir gwarantu y gellir gwireddu dewis rhiant ym mhob achos, oherwydd gall ceisiadau am lefydd mewn rhai ysgolion fod yn fwy niferus na'r lleoedd sydd ar gael. Bydd y Cyngor yn ymdrechu i wireddu dymuniad rhieni pan fo hynny'n bosibl, cyn belled â bod lleoedd ar gael ac nad yw nifer derbyn yr ysgol wedi ei chyrraedd. Fodd bynnag, pan fo nifer y ceisiadau am le mewn ysgol yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r meini prawf derbyn, yn nhrefn blaenoriaeth, a nodir isod.

## 18. Meini prawf gordanysgrifio Ysgolion Uwchradd

Bydd plant sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol, pan gaiff yr ysgol ei henwi fel y lleoliad mwyaf priodol, yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio.

1. Plant sydd â thystiolaeth i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol yn y gorffennol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.

2. Plant sy’n byw yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig derbyn y ffurflenni dewis. Bydd rhaid rhoi tystiolaeth o breswylfa barhaol plentyn os gofynnir am hynny. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5), (6) a (7) i’w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

3. Disgyblion nad ydynt yn byw yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol ar hyn o bryd, y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5), (6) a (7) i’w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

4. Disgyblion a oedd ar y gofrestr mewn ysgol gynradd fwydo flaenorol cyn i drefniadau'r ysgol fwydo gael eu tynnu’n ôl ym mis Medi 2020. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (5), (6) a (7) i’w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

5. Plant y mae sail feddygol neu gymdeithasol gref, ym marn y Cyngor, dros eu derbyn i’r ysgol uwchradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn i ysgol benodol oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o’r fath). Pan fo rhagor o geisiadau gan ymgeiswyr na sydd o lefydd o’r categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (6) a (7) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

6. Disgyblion y mae ganddynt frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol ym Mlwyddyn 7 - 11 yn ystod y flwyddyn academaidd y caiff y plentyn ei dderbyn. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael o’r categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu lleoedd yn ôl oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf fydd â'r flaenoriaeth uchaf.

7. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion o ran disgyblion eraill, rhydd y Cyngor ystyriaeth benodol i agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol uwchradd, a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, bydd y rhai sy'n byw'n agosaf yn cael blaenoriaeth. Mae’r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo’r pellter o’r cartref i’r ysgol.

## NEWID CATEGORI YSGOL STANWELL I YSGOL STATWS CYMUNEDOL

### Trefniadau derbyn trwy bontio

O ganlyniad i newid categori Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol Statws Cymunedol o fis Medi 2024, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sefydlu trefniadau pontio ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu’r dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 6 yn un o ysgolion cynradd bwydo dynodedig Stanwell cyn newid statws. Yr ysgolion bwydo

dynodedig yw Albert, Evenlode, Sili a Victoria. Byddai trefniadau pontio yn rhan o bolisi derbyn y Cyngor.

Bydd y Cyngor felly yn cadw'r cyswllt â'r ysgol gynradd fwydo ar gyfer Ysgol Stanwell i'r plant hynny sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 wrth bontio i addysg uwchradd. Byddai pob plentyn yn y grŵp oedran o'r dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 6 mewn ysgol fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 yn cadw eu statws cyswllt ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Stanwell wrth bontio i addysg uwchradd.

Byddai'r trefniadau pontio yn dod i ben ar gyfer proses drosglwyddo blwyddyn 6 i addysg uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf sy'n gymwys o dan drefniadau pontio yn gadael ei ysgol gynradd fwydo.

**POLISI DERBYN TRWY BONTIO YSGOL STANWELL**

Mae'r trefniadau derbyn trwy bontio canlynol ar waith ar gyfer plant oedd yn mynychu ysgol fwydo ddynodedig ar gyfer Ysgol Stanwell yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024. Nid yw'r trefniadau pontio a'r cyswllt ysgol fwydo yn berthnasol i blant sy'n dechrau yn ysgolion cynradd Albert, Evenlode, Sili a Victoria o fis Medi 2024 ymlaen. Yn yr achosion hyn, byddai meini prawf gordanysgrifio y Cyngor yn berthnasol.

Pan fydd ceisiadau derbyn i flwyddyn 7 yn Ysgol Stanwell yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio canlynol ar gyfer plant, yn y drefn isod, i benderfynu pa blant i'w derbyn.

**Meini Prawf Gordanysgrifio**

1. Plant sy'n Derbyn Gofal fel y'u diffinnir gan Adran 22 Deddf Plant 1989. Rhoddir blaenoriaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal yn unol â Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal, Cymru) 2009 a Chod Derbyn i Ysgolion 2013.

2. Disgyblion oedd ar y gofrestr yn un o'r ysgolion cynradd bwydo dynodedig (Albert, Evenlode, Sili a Victoria) yn y dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 6 yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024. Os bydd gordanysgrifio gan ymgeiswyr o'r ysgolion cynradd bwydo dynodedig yn unig, defnyddir meini prawf (3), (4), (5) a (6) i greu trefn dewis.

3. Disgyblion sydd ar hyn o bryd yn byw yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer derbyn y ffurflenni dewis. Bydd yn rhaid rhoi tystiolaeth o breswylfa barhaol plentyn os gofynnir am hynny. Os bydd gordanysgrifio gan ymgeiswyr o'r categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (5), (6) a (7), yn nhrefn blaenoriaeth, i greu trefn dewis.

4. Disgyblion nad ydynt ar hyn o bryd yn byw yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol, y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn

nalgylch yr ysgol erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo. Os oes gordanysgrifio gan ymgeiswyr o’r categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (5), (6) a (7), yn nhrefn blaenoriaeth, i greu trefn dewis.

5. Disgyblion y mae sail feddygol neu gymdeithasol gref, ym marn y Cyngor, dros eu derbyn i ysgol uwchradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu lleoli mewn ysgol benodol oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantaethau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol fel arfer mewn achosion o’r fath). Os oes gordanysgrifio gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (6) a (7).

6. Plant sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol ym mlynyddoedd 7 i 11 yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. Os oes gordanysgrifio gan ymgeiswyr o’r categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn penderfynu ar flaenoriaeth ac yn dyrannu lleoedd yn ôl oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, gyda’r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf.

7. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion o ran disgyblion eraill, rhydd y Cyngor ystyriaeth benodol i agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol uwchradd, a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, bydd y rhai sy'n byw'n agosaf yn cael blaenoriaeth. Mae’r Cyngor yn defnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo’r pellter o’r cartref i’r ysgol.

Dim ond ceisiadau a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis fydd yn cael eu hystyried yn ystod y cylch cychwynnol o ddyrannu lleoedd.

Ym mhob achos, rhaid cyflwyno tystiolaeth o fan preswylio parhaol plentyn ar adeg gwneud y cais. Bydd unrhyw le a gymeradwywyd ar sail preswyliad yn cael ei dynnu yn ôl os nad yw’r disgybl yn preswylio’n barhaol yn y cyfeiriad hwnnw ar ddechrau’r tymor ysgol sy’n berthnasol i’r cais.

Pan na fydd rhieni plentyn yn byw yn yr un cyfeiriad ond yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros blentyn, ac mae’r plentyn yn byw mewn mwy nag un cyfeiriad am ran o’r wythnos ysgol, cyfeiriad cartref y plentyn fydd y cyfeiriad lle mae’r plentyn yn preswylio am y rhan fwyaf o’r wythnos (h.y. 4 diwrnod allan o 7). Nid yw rhannu cyfrifoldeb rhiant dros blentyn yn berthnasol i drefniadau preifat a wneir rhwng rhieni ac aelodau eraill o'r teulu fel plentyn sy'n byw gyda nain a thaid yn ystod yr wythnos. Yn yr achosion hyn, bydd cyfeiriad y person sydd â chyfrifoldeb rhiant sy’n gwneud y cais yn cael ei ddefnyddio. Bydd yn rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol ar gyfer y cyfeiriad y dymunant ei ddefnyddio at ddibenion dyrannu.

Pan fo rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael mantais mewn ysgol benodol ar gyfer ei blentyn, na fyddai hawl ar le ynddi fel arall, mae’r Cyngor yn cadw’r hawl i dynnu’r cynnig o le yn ôl.

Er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bod disgyblion yn cael lle yn eu hysgol leol, cyflwynir system dewis cyfartal ar gyfer ceisiadau i'r ysgol uwchradd. Mae'r system hon eisoes ar waith ar gyfer ceisiadau dosbarth derbyn ac ysgol feithrin lle gwahoddir rhieni i nodi hyd at 3 dewis. Argymhellir yn gryf bod rhieni'n rhestru 3 Ysgol Uwchradd Gymunedol wahanol, ac o leiaf un ohonynt yn ysgol eu dalgylch. Yn achos ceisiadau i Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, cydnabyddir y caiff rhieni ddewis enwebu'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn unig, ond gallant enwebu dewis arall. os dymunant.

Nid yw mynegi dewis yn gwarantu derbyn i'r ysgol ddewis. Bydd yn rhoi blaenoriaeth i blant yr ymgeiswyr dros blant nad yw eu rhieni wedi mynegi dewis ar gyfer yr ysgol honno. Os nad yw rhieni'n gwneud cais am 3 Ysgol Uwchradd Gymunedol wahanol neu os ydynt yn cyflwyno eu cais yn hwyr, bydd yn llai tebygol y gall y plentyn fynychu ei ysgol ddewis neu'r ysgol ddalgylch gan y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hasesu ar ôl y ceisiadau a ystyrir yn y rownd gyntaf ac efallai y bydd eu hysgol ddewis neu'r ysgol ddalgylch eisoes yn llawn.

Cynghorir rhieni i gwblhau'r cais yn ofalus a rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl (gan gynnwys tystiolaeth ddogfennol ategol lle bo angen) gan y defnyddir hyn i asesu safle'r plentyn ar y rhestr ar gyfer pob ysgol y gwnaed cais amdani. Mae'r cyngor yn defnyddio 'Cynllun Dewis Cyfartal' i benderfynu pa ysgol y gellir ei chynnig. Mae hyn yn golygu, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, nad ydym yn ystyried y drefn y mae rhieni wedi rhoi'r ysgolion yn y cais. Caiff pob dewis ei asesu yn erbyn meini prawf derbyn y Cyngor, felly mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn darllen ac yn deall y rhain yn llawn. Dim ond un lle y gall y cyngor ei gynnig mewn ysgol Gymunedol felly wrth ddyrannu lleoedd, os gallwn gynnig mwy nag un lle, byddwn bob amser yn cynnig yr ysgol yr ydych wedi'i rhestru fel blaenoriaeth. Felly, mae'r drefn y mae rhieni'n rhoi'r ysgolion ynddi yn bwysig iawn.

**Meini prawf Gordanysgrifio Ysgolion Uwchradd (trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn)**

1. Plant sydd â thystiolaeth i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol yn y gorffennol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.

2. Plant sy'n byw yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig derbyn y ffurflenni dewis. Bydd rhaid rhoi tystiolaeth o breswylfa barhaol plentyn os gofynnir am hynny. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5), (6) a (7) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

3. Disgyblion nad ydynt yn byw yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol ar hyn o bryd, y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol erbyn dechrau'r tymor ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5) a (6) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

4. Disgyblion a oedd ar y gofrestr mewn ysgol gynradd fwydo flaenorol cyn i drefniadau'r ysgol fwydo gael eu tynnu'n ôl ym mis Medi 2020. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (5), (6) a (7) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

5. Disgyblion y mae sail feddygol neu gymdeithasol gref, ym marn y Cyngor, dros eu derbyn i ysgol uwchradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn i ysgol benodol oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o'r fath). Pan fo rhagor o geisiadau na sydd o lefydd o'r categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (6) a (7) i'w rhoi yn ôl trefn blaenoriaeth.

6. Plant sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol ym mlynyddoedd 7 i 11 yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. Os oes mwy o geisiadau gan ymgeiswyr na nifer y lleoedd sydd ar gael o'r categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu lleoedd yn ôl oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf fydd â'r flaenoriaeth uchaf.

7. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion o ran disgyblion eraill, bydd y Cyngor yn ystyried agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol uwchradd, a gaiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael; bydd y rhai sy'n byw'n agosaf yn cael blaenoriaeth. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol a chaiff y system ei diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod y wybodaeth fwyaf cywir yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r pellter a ddefnyddir i ystyried ceisiadau.

## 19. Trosglwyddo o'r Cynradd i'r Uwchradd (ateb rhai cwestiynau)

### Cwestiynau ac Atebion

Dyma atebion i rai o'r cwestiynau y bydd rhieni'n eu gofyn amlaf am symud i addysg uwchradd.

**Beth fydd oedran fy mhlentyn yn dechrau yn yr ysgol uwchradd?**
Polisi'r Cyngor yw bod plant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ym mis Medi unrhyw flwyddyn os ydynt wedi cyrraedd un ar ddeg oed ar neu erbyn 31 Awst yn y flwyddyn honno.

**Beth yw'r trefniadau ar gyfer symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd?**
Os yw eich plentyn yn mynychu Ysgol Gynradd Gymunedol neu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru ac mae i fod i drosglwyddo i ysgol uwchradd fis Medi nesaf, byddwch yn cael gohebiaeth gan y Cyngor yn nhymor yr hydref ym mlwyddyn 6. Rhaid i bob rhiant wneud cais am yr ysgol y mae'n dymuno i'w plentyn ei

mynychu/trosglwyddo iddi. Os nad yw rhieni/gofalwyr yn gwneud cais, mae'n bosibl na fydd eu plentyn yn cael lle yn ei ysgol leol, os oes mwy o geisiadau na sydd o leoedd ar gael. Fe'ch cynghorir yn gryf i wneud cais erbyn y dyddiad cau. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau a ddaw i law cyn y dyddiad cau cyn unrhyw geisiadau hwyr. Dylid gwneud ceisiadau i Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn uniongyrchol i'r Cyngor gan ddefnyddio gwasanaeth gwneud cais ar-lein y Cyngor. Mae manylion y trefniadau derbyn ar gyfer Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf ar gael gan yr ysgol ei hun.

**Sut y penderfynir ar dderbyniadau os yw'r galw am leoedd yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael?**
Wrth benderfynu ar dderbyniadau, mae'r cyngor yn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig sydd yn y llyfryn hwn

**Beth y dylwn ei wneud os ydw i am i'm plentyn fynychu ysgol uwchradd enwadol (h.y. ysgol uwchradd yr Eglwys yng Nghymru neu Gatholig)?**
Llywodraethwyr yr ysgolion sy'n delio â derbyniadau i'r ysgolion hynny. Caiff disgyblion sydd yn eu blwyddyn olaf mewn Ysgolion Cynradd Cymunedol ac Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru fanylion am sut i wneud cais am le mewn ysgolion uwchradd yr Eglwys yng Nghymru. Caiff disgyblion sydd yn eu blwyddyn olaf mewn ysgolion cynradd Catholig fanylion am drefniadau derbyn i ysgolion uwchradd Catholig. Dylid gwneud ceisiadau i Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn uniongyrchol i'r Cyngor gan ddefnyddio gwasanaeth gwneud cais ar-lein y Cyngor. Hefyd, gall unrhyw rieni gael gwybodaeth am drefniadau derbyn i ysgol enwadol benodol gan yr ysgol ei hun. Gweler polisïau derbyn ac ysgolion bwydo ar gyfer ein Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir yn Atodiadau 2 a 6.

**Pa drefniadau apelio sydd ar gael i mi?**
Cyfeiriwch at ein hadran apelio. Mae Panel Apeliadau yn annibynnol ar y Cyngor ac mae'n cynnwys personau lleyg, personau sydd â phrofiad mewn addysg, sy'n gyfarwydd â'r amodau addysgol yn yr ardal, neu'n rhieni i ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arall. Rhaid i rieni sydd wedi gwneud cais aflwyddiannus am le mewn Ysgol Uwchradd Gymunedol ac sy'n dymuno gwneud apêl yn rownd gyntaf yr apeliadau gyflwyno eu ffurflen apelio erbyn y dyddiad cau. Ni chaiff apeliadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau eu hystyried ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, e.e. pan fo teulu'n newid cyfeiriad ar adeg sy'n ei gwneud yn amhosibl cydymffurfio â'r dyddiad cau. Mae Paneli Apeliadau penodol ac ar wahân yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau ysgolion a gynorthwyir. Felly dylech gael cyngor gan yr ysgol berthnasol os ydych am wneud apêl o'r fath.

**Ar ba oed caiff fy mhlentyn adael yr ysgol yn gyfreithlon?**
Gall plentyn adael yr ysgol yn gyfreithiol ar Ddydd Gwener olaf y mis Mehefin ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â Derbyniadau i'r Ysgol Uwchradd, cysylltwch â'r tîm: admissionssecondary@valeofglamorgan.gov.uk

## 20. Trosglwyddo i ysgol wahanol/ symud i'r ardal

Gall rhieni ofyn am newid ysgol ar unrhyw gam yn addysg eu plant. Wrth gwrs, efallai y cânt eu gorfodi i wneud hyn achos eu bod yn symud i dŷ newydd, ond mewn achosion eraill ystyrir yn gyffredinol nad yw fel arfer er lles gorau'r disgybl. Gall newid ysgol yng nghanol blwyddyn neu ar ôl blwyddyn 7 amharu'n ddifrifol ar barhad addysg plentyn ac achosi anawsterau ynghylch cydnawsedd y cwricwlwm, trefniadau arholi ac ati. Os yw eich plentyn ym mlwyddyn 9, 10 neu 11, gall ystod yr opsiynau pwnc a ddewisir hefyd fod yn ffactor. Os yw rhieni'n teimlo bod problem yn yr ysgol sydd mor ddifrifol fel bod angen newid, fe'ch anogir i gymryd pob cam rhesymol i ddatrys y mater gyda'r ysgol yn gyntaf, ac yna i ofyn am gyngor gan y Cyngor os oes angen, cyn gwneud cais ffurfiol am drosglwyddo.

Fel arfer, caiff ceisiadau i drosglwyddo i ysgol wahanol eu cwblhau ddeng niwrnod ysgol ar ôl eu derbyn gan y Tîm Mynediad i'r Ysgol. Pan geir mwy o geisiadau na sydd o lefydd ar gael, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio perthnasol. Ym mhob achos mae'n bosibl y caiff Pennaeth yr ysgol bresennol a'r ysgol nesaf wybod am y cais a'r rhesymau drosto. Ni ddylai rhieni symud plant o ysgol nes y trefnir Derbyn i ysgol arall. Lle nodwyd angen, gellir ceisio cyngor gan dimau arbenigol eraill yn y Gyfarwyddiaeth.

Gan fod ceisiadau i drosglwyddo ysgolion fel arfer yn cael eu cwblhau mewn deg diwrnod ysgol, ni fyddai'r Cyngor fel arfer yn prosesu cais i drosglwyddo (y tu allan i'r cylch derbyn blynyddol ar gyfer Derbyn a throsglwyddo i Addysg Uwchradd) fwy na chwe wythnos cyn bod angen y lleoedd. Ar gyfer lleoedd ym mis Medi, byddai'r broses hon yn dechrau tua chanol mis Mehefin er mwyn ei chwblhau cyn dechrau gwyliau'r haf ym mis Gorffennaf. Ni fyddai modd cwblhau ceisiadau a dderbynnir yn ystod gwyliau ysgol fel arfer nes bydd ysgolion yn ailagor yn y tymor newydd.

## 21. Derbyn i'r Chweched Dosbarth

Mewn Ysgolion cymunedol, y Cyrff Llywodraethu sy'n gyfrifol am bennu trefniadau derbyn i'r chweched dosbarth. Felly dylid gwneud ceisiadau yn uniongyrchol i'r ysgol.

## 22. Derbyniadau i Addysg Enwadol

### A) Addysg Enwadol

**(i) Ysgolion Catholig**
Yr awdurdod derbyn priodol yw'r corff llywodraethu a dylid gwneud pob cais iddo. Santt Richard Gwyn yw'r unig Ysgol Uwchradd Gatholig ym Mro Morgannwg a chanddi ddwy ysgol fwydo gysylltiedig, Ysgolion Cynradd Catholig Santes Helen a Sant Joseff. Bydd rhieni disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion cysylltiedig hyn yn cael gwybod am y gweithdrefnau a'r trefniadau derbyn gan yr ysgol ei hun yn ystod tymor yr hydref. Dylid gwneud ceisiadau i drosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd yn Ysgol

Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn uniongyrchol i'r Cyngor gan ddefnyddio gwasanaeth gwneud cais ar-lein y Cyngor. Gwahoddir y disgyblion nad ydynt yn mynychu ysgol gysylltiedig ond sy'n mynychu ysgol arall ym Mro Morgannwg i wneud cais am le gan y cyngor. Os ydynt yn gwneud cais am le mewn ysgol sy'n rheoli ei derbyniadau ei hun, bydd y tîm derbyn i ysgolion yn hysbysu'r ysgol berthnasol. Bydd angen i rieni disgyblion nad ydynt yn mynychu ysgol gynradd ym Mro Morgannwg gysylltu â'r ysgol ei hun i gael rhagor o fanylion a ffurflen gais. Dangosir polisïau derbyn perthnasol yr ysgol yn Atodiad 6.

**(ii) Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru**

Nid oes Ysgolion Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru yn y Fro. Bydd angen i rieni sy'n dymuno cael addysg uwchradd yr Eglwys yng Nghymru gysylltu ag awdurdodau cyfagos. Mae'r Cyngor wedi sefydlu cysylltiadau ag ysgol uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf yng Nghaerdydd. Oherwydd mai'r Corff Llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn perthnasol, dylai rhieni gysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol am fanylion a ffurflen gais. Ystyrid cludiant i'r ysgol hon ar gyfer disgyblion y Fro, yn amodol ar y cyfyngiadau cymhwyso statudol. Cyfeiriwch at adran **cludiant i'r ysgol** y llyfryn hwn.

## 23. Apeliadau Statudol

Mae gan bob rhiant yr hawl i apelio os gwrthodir lle i'w plentyn mewn ysgol. Yr unig eithriad i hyn yw'r Ysgol Feithrin gan nad addysg statudol yw hi. Os yw rhieni'n anfodlon ar ganlyniad cais am le mewn ysgol gymunedol benodol, gellir cyflwyno apêl i Banel Apêl, sy'n annibynnol ar y Cyngor, ac sy'n cynnwys aelodau lleyg gyda phrofiad mewn addysg, neu sy'n gyfarwydd â'r amodau addysgol yn yr ardal, neu sy'n rhieni disgyblion cofrestredig mewn ysgol. Bydd Paneli Apeliadau penodol ar wahân yn clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau Llywodraethwyr Ysgolion Eglwys. Dylech gael cyngor gan yr ysgol berthnasol os ydych am wneud apêl o'r fath. Rhaid cyflwyno'r apêl yn ysgrifenedig ar y ffurflen briodol erbyn y dyddiad cau a enwir, gan nodi'r rhesymau dros apelio. Caiff rhieni sy'n cyflwyno apêl gyfle i siarad gerbron y Panel Apeliadau os dymunant. Mae penderfyniad y Panel Apeliadau ar unrhyw apêl yn derfynol ac mae'n rhaid i'r Cyngor, a'r Llywodraethwyr, gydymffurfio ag ef. Yn achos apêl aflwyddiannus, oni bai bod newid sylweddol wedi hynny yn yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r cais gwreiddiol ni fydd hawl arall i apelio ar gyfer y flwyddyn academaidd dan sylw.

**Apeliadau derbyn i ysgolion a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn academaidd Medi 2024 i Orffennaf 2025**
Cynhaliwyd 9 o apeliadau yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Dyma fu'r canlyniadau:

| Ysgol | Nifer yr Apeliadau | Canlyniad |
|---|---|---|
| Ysgol Gyfun y Bont-faen | 15 | 2 Llwyddiannus |
| Ysgol Gynradd Evenlode | 1 | 1 Llwyddiannus |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Sant Cyres | 5 | 2 Llwyddiannus |
| Ysgol Gynradd Sili | 2 | 2 Aflwyddiannus |
| Ysgol Uwchradd Whitmore | 20 | 3 Lwyddiannus |
| Ysgol Dewi Sant | 1 | 1 Aflwyddiannus |

## 24. Rhestrau Aros

Pan wrthodir cais, caiff y disgybl ei roi ar restr aros tan ddiwedd y tymor academaidd yn dilyn ei gais - Tymor yr Hydref (Medi-Rhagfyr), Tymor y Gwanwyn (Rhagfyr-Ebrill, Tymor yr Haf (Ebrill-Gorffennaf). Mae'r rhestr aros hon wedi'i gosod yn nhrefn y meini prawf gordanysgrifio perthnasol ac felly mae eu safle ar y rhestr yn agored i newid os, er enghraifft, ceir ceisiadau ychwanegol sy'n gymwys o dan feini prawf uwch. Nis ystyrir faint o amser y mae'r disgybl wedi bod ar restr aros, yr ysgol fabanod neu gynradd benodol y mae'r plentyn yn ei mynychu yn y cyfamser na’r cyfnod y bu'r ysgol yn ymwybodol o fwriad y rhieni i wneud cais am le yn yr ysgol. Os yw rhiant yn dymuno i'w blentyn aros ar y rhestr aros am y tymor academaidd canlynol (Medi-Rhagfyr, Ionawr-Ebrill, Ebrill-Gorffennaf) bydd angen iddo gysylltu â'r Tîm Mynediad i Ysgolion i drefnu hyn.

## 25. Genedigaethau Lluosog

Pan nad oes ond un lle ar gael ac mae gan riant blant genedigaeth luosog (h.y. efeilliaid, tripledi ac ati), fel arfer dim ond nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol y gall yr awdurdod derbyn eu cynnig. Mater i'r rhieni fydd penderfynu a ydynt yn dymuno cymryd y lle sydd ar gael i un o'u plant. Yn yr achosion eithriadol hyn, dylid ceisio cyngor gan y tîm Mynediad i Ysgolion oherwydd caniateir eithriadau ar gyfer rhai achosion yng Nghyfnod Allweddol un.

## 26. Diffiniad o Frodyr/Chwiorydd

Mae hyn yn cynnwys pob plentyn sy'n byw ar yr un aelwyd gydag un rhiant neu fwy sydd â chyfrifoldeb rhiant llawn. Mae hyn yn cynnwys brawd/chwaer neu lysfrawd/chwaer neu hanner brawd/hanner chwaer neu blant wedi'u mabwysiadu neu eu maethu'n barhaol yn yr un cyfeiriad. Efallai y bydd angen tystiolaeth o gyfrifoldeb rhiant. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid ceisio cyngor gan y tîm Mynediad i Ysgolion.

## 27. Ceisiadau Twyllodrus/ Camarweiniol

Pan fo rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus, anwir neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael mantais mewn ysgol benodol ar gyfer ei blentyn, na fyddai ganddo hawl ar le ynddi fel arall, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Enghraifft o hyn fyddai honni byw mewn cyfeiriad o fewn dalgylch a fyddai i bob pwrpas yn atal lle rhag cael ei gynnig i blentyn arall.

Yn yr achosion hyn, gall y cyngor dynnu'r lle yn ôl, hyd yn oed os yw'r plentyn wedi dechrau yn yr ysgol. Pan dynnir lle yn ôl ar sail gwybodaeth gamarweiniol, rhaid ystyried y cais o'r newydd, a chynnig hawl i apelio os gwrthodir lle.

## 28. Ceisiadau ar gyfer plant personél Lluoedd Arfog y DU a Gweision y Goron

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg hanes hir o groesawu plant personél lluoedd arfog y DU i'n hysgolion. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod rhaid i deuluoedd gweithwyr y Lluoedd symud yn fyr-rybudd ac nad yw prawf preswylio bob tro ar gael, ac ystyrir hyn wrth drin ceisiadau gan deuluoedd y Lluoedd arfog. Rhoddir ystyriaeth ddyledus i gyngor Llywodraeth Cymru a'r canllaw statudol yn achos eithriadau i gyfyngiadau maint dosbarthiadau babanod ar y mater hwn. Bydd y Cyngor yn:

- sicrhau bod anghenion plant teuluoedd Lluoedd y DU yn cael eu hystyried;
- dyrannu lle ysgol cyn y symud petai'r cais yn bodloni'r meini prawf ar ôl iddynt symud i'w cyrchfan;
- gwahodd cynrychiolydd o'r lluoedd i ymuno â'r fforwm derbyn;
- derbyn cyfeiriad post uned ar gyfer ceisiadau gan bersonél y lluoedd os nad oes cyfeiriad post cartref newydd ar gael.

Ni fydd y Cyngor yn:

- cadw lleoedd ar gyfer blociau o'r plant hyn; nac yn
- gwrthod lle i blentyn teulu lluoedd y DU oherwydd nad yw'r teulu yn byw yn yr ardal ar hyn

## 29. Darpariaeth ar gyfer Plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanego

Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth newydd, o'r enw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru), a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a fydd yn disodli'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau ynghylch anghenion addysgol arbennig. Fel rhan o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ADYTA) 2018 mae Llywodraeth Cymru wedi disodli'r term 'anghenion addysgol arbennig' (AAA) ag 'anghenion dysgu ychwanegol' (ADY). Fodd bynnag, mae'r

diffiniad o ADY yn wahanol ac efallai y gwelwch fod gan eich plentyn AAA ar hyn o bryd ond na fydd ganddo ADY.  Ni ddylai hyn effeithio ar y gefnogaeth na'r cymorth a gaiff yn yr ysgol i gael mynediad at ddysgu.

Bydd ADY yn cwmpasu'r rhai sydd:

- Ag anhawster sylweddol fwy o ran dysgu na mwyafrif y plant eraill o'r un oedran
- Ag anabledd sy'n eu hatal neu eu rhwystro rhag defnyddio'r cyfleusterau addysgol a ddarperir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran mewn ysgol prif ffrwd a gynhelir neu Sefydliad Addysg Bellach.

Dan y system ADY newydd:

- Ar gyfer unrhyw ddysgwr a nodir ag ADY sydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), rhaid i'r ysgol greu a chynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a rhoi pob cam rhesymol ar waith i sicrhau bod y DDdY angenrheidiol i fodloni'r angen a asesir ar gael.
- Yr CDU yw'r ddogfen sy'n cynnwys disgrifiad o'r ADY sy'n rhwystr i'r dysgwr wrth gyflawni ei botensial addysgol a'r DDdY sy'n angenrheidiol i oresgyn neu liniaru'r rhwystr hwn. Fe'i crëir drwy gydweithio â'r dysgwr a rhieni/gofalwyr y dysgwr ar y cyd ag unrhyw weithwyr proffesiynol eraill a allai fod yn rhan o'r broses. Y bwriad yw ei bod yn ddogfen waith sy'n cael ei defnyddio i lywio addysgu a dysgu, ac nid dim ond yn rhan o broses weinyddol.
- Yn y rhan fwyaf o achosion bydd CDU yn cael ei gynnal gan ysgol. Fodd bynnag, i nifer fechan, lle mae cymhlethdod y ddarpariaeth ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion dysgwyr yn afresymol i ddisgwyl i leoliad prif ffrwd ei darparu, gall yr Ysgol atgyfeirio at yr Awdurdod Lleol i ystyried a ddylai'r ALl gynnal y CDU. Byddai disgwyl i rieni / gofalwyr / pobl ifanc gysylltu gydag ysgolion i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.
- Er mwyn sicrhau bod y CDU yn parhau i adlewyrchu anghenion y dysgwr yn gywir ac yn manylu ar y ddarpariaeth sydd ei hangen er mwyn diwallu'r anghenion hynny, mae gofyniad i adolygu CDUau o leiaf bob blwyddyn a'u haddasu'n unol â hynny.

## 30. Trafnidiaeth

Mae dyletswydd statudol ar gynghorau i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'r ysgol agosaf sydd ar gael os ydynt yn byw y tu hwnt i 'bellter cerdded' i'r ysgol honno. Diffinnir 'pellter cerdded' fel dwy filltir i oedran cynradd a thair milltir i oedran uwchradd, yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn darparu trafnidiaeth fel a ganlyn:

- ar gyfer disgyblion oedran cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'u hysgol gynradd ddalgylch agosaf neu'r ysgol ddynodedig ar gyfer y dalgylch; ac

- ar gyfer disgyblion oedran uwchradd sy'n byw 3 milltir neu ymhellach o'u hysgol ddalgylch agosaf neu’r ysgol ddynodedig ar gyfer y dalgylch.
- Mae'r cyngor yn defnyddio pecyn meddalwedd System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i fesur y "pellter cerdded".

  Y diffiniad o'r ysgol addas agosaf i ddisgyblion sy'n mynychu ysgol prif ffrwd yw'r awdurdod addysg leol rhagnodi ysgol dalgylch.

Bydd y meini prawf pellter uchod yn berthnasol i ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, pan fo disgyblion, o ganlyniad i ddewis rhiant, yn mynychu ysgol arall yn hytrach na’r ysgol agosaf neu ysgol benodol y dalgylch, rhaid deall bod y rhieni yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros wneud eu trefniadau cludiant eu hunain. Os oes gan blentyn hawl i gael cludiant am ddim, darperir lle fel arfer ar gerbyd contract arbennig os oes un yn gwasanaethu'r ardal benodol.

Weithiau, caiff disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim deithio ar gerbydau contract arbennig drwy dalu ffi ond dim ond pan fo lleoedd gwag. Rhaid deall nad yw’n ofynnol bod y Cyngor yn darparu'r cyfleuster hwn ac mae’n dibynnu ar gapasiti'r cerbyd a ddefnyddir, a gall arwain at ddiddymu’r cyfleuster ar fyr rybudd.

Mewn achosion lle mae disgybl yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol, ond nad oes bysiau contract ar gael, gall rhieni wneud cais am dreuliau teithio.

Ceir rhagor o wybodaeth am gludiant i'r ysgol ar y wefan:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/transportation/school_transport/School-Transport.aspx

## 31. Prydau Ysgol Am Ddim

Rhieni sy’n derbyn budd-daliadau penodol sy’n gymwys i hawlio prydau ysgol am ddim. Y budd-daliadau perthnasol yw:

- Cymhorthdal Incwm (CI)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn Seiliedig ar Incwm)
- Lwfans Ceisio Gwaith ar Sail Incwm
- Cymorth dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd Treth Plant (ond nid Credyd Treth Gwaith) gydag incwm blynyddol nad yw'n fwy na £16,190, ond DDIM yn gymwys i hawlio Credyd Treth Gwaith.
- Elfen warantedig o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Mae plant sy'n derbyn y Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm drwy eu hawl eu hunain hefyd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim

Os credwch y gallai eich plentyn neu blant fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yna bydd angen i chi lenwi ffurflen gais sydd ar gael gan yr Adran Budd-daliadau, y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri, CF63 4RU. Ffoniwch 01446 709244 neu

e-bostiwch benefits@valeofglamorgan.gov.uk.

## 32. Grant Hanfodion Ysgol

Mae Grant Hanfodion Ysgol ar gael i helpu teuluoedd sydd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol, cit chwaraeon, gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, bagiau ysgol, deunydd ysgrifennu ac ati. Gellir defnyddio'r grant hwn gyda'r canlynol:

- Prynu gwisgoedd ysgol gan gynnwys cotiau ac esgidiau
- Gwisg ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sgowtiaid, geidiaid, cadetiaid, crefft ymladd, chwaraeon, celfyddydau perfformio a dawns.
- Offer e.e. bagiau ysgol a deunydd ysgrifennu
- Offer arbenigol pan fo gweithgareddau cwricwlwm newydd yn dechrau, megis dylunio a thechnoleg
- Offer ar gyfer teithiau y tu allan i oriau'r ysgol, megis dysgu yn yr awyr agored, e.e. dillad gwrth-ddŵr.
- A gliniaduron neu gyfrifiaduron llechen

### Pwy sy'n Gymwys?

Mae'r grant ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim neu sy'n blant sy'n derbyn gofal ac sy'n mynd i:

- Dosbarth derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3 neu Blwyddyn 5 ysgol gynradd a gynhelir ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd
- Blwyddyn 7, Blwyddyn 8, Blwyddyn 9, Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 ysgol uwchradd a gynhelir ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd
- Yn y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7, Blwyddyn 8, Blwyddyn 9, Blwyddyn 10 neu Flwyddyn 11 neu ddosbarth cyfatebol mewn ysgol arbennig, canolfan adnoddau anghenion arbennig neu uned cyfeirio disgyblion.

**Nid** yw'r grant ar gael i ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion preifat. Mae arian hefyd ar gael i bob plentyn oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn gofal.

Rhaid i'r rhiant/gwarchodwr sy'n gwneud y cais dderbyn un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar Sail Incwm (JSAIB)
- Lwfans Cymorth Cyflogaeth ar sail incwm (ESAIR)
- Credyd Treth Plant, gydag incwm cartref o £16,190 neu lai
- Credyd Pensiwn (elfen gwarant)
- Credyd Cynhwysol ag enillion net y cartref yn is na £7400 y flwyddyn

**Nid** yw Credyd Treth Gwaith yn fudd-dal cymhwyso ac os ydych yn cael Credyd Treth Gwaith **ni fyddwch** yn gymwys i gael Grant Datblygu Disgybl hyd yn oed os ydych yn ei gael ynghyd ag un o'r incymau uchod.

### Sut i Wneud Cais

Os ydych yn bodloni'r meini prawf hyn ac yn tybio bod eich plentyn/plant yn gymwys, cwblhewch a dychwelwch Ffurflen Gais Grant Datblygu Disgyblion, ar gael gan benefits@valeofglamorgan.gov.uk.

## 33. Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn rhoi cymorth ariannol i bobl ifanc 16-18 oed sy'n parhau â'u haddysg mewn ysgolion neu sefydliadau addysg bellach. Fe'i rhoddir ar sail prawf modd ac i fod yn gymwys, mae angen i chi fod yn:

- 16 i 18 oed
- Byw yn y Deyrnas Gyfunol
- Mewn addysg llawn-amser
- Astudio cwrs cymwys

Os credwch y gallech fod yn gymwys, cysylltwch â'ch ysgol yn uniongyrchol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

## 34. Arholiadau Cyhoeddus

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydymffurfio â'r cyngor, y canllawiau a'r ddeddfwriaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ynghylch cofrestru ar gyfer arholiadau cyhoeddus. Gellir cael rhagor o wybodaeth am bolisi'r ysgol gan yr ysgol yn uniongyrchol, ynghyd â manylion canlyniadau arholiadau cyhoeddus. Mae gan bob disgybl hawl i gael ei gofrestru ar gyfer arholiadau cyhoeddus ar y lefel briodol yn y pynciau y mae'n eu hastudio. Telir ffioedd arholiadau fel arfer gan yr ysgol, yn amodol ar delerau ac amodau.

## 35. Trefniadau codi tâl ar Deithiau/Ymweliadau Ysgol ac ati

Fel arfer, mae angen talu am lety a bwyd i blant sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud ag arhosiad dros nos ac mae ysgolion yn aml yn gofyn am gyfraniadau gwirfoddol ar gyfer gweithgareddau a theithiau dydd. Mae cymorth ar gael i rai teuluoedd yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Cysylltwch â'ch ysgol i gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y gellir ei ddarparu am ddim a'r hyn y bydd angen i chi dalu amdano.

## 36. Prawf cyfeiriad/ mwy nag un cyfeiriad

Ymhob achos, rhaid darparu tystiolaeth o fan preswylio parhaol plentyn ar adeg gwneud cais. Bydd unrhyw le a gymeradwyir ar sail preswyliad yn cael ei dynnu yn ôl os nad yw'r disgybl yn preswylio yn y cyfeiriad hwnnw ar ddechrau'r tymor ysgol sy'n berthnasol i'r cais.

Os yw'r teulu'n datgan ei fod eisoes yn preswylio yn y cyfeiriad a roddwyd ar y ffurflen gais, bydd y Tîm Mynediad i'r Ysgol yn gwirio hyn drwy gofnodion y Dreth Gyngor a ffynonellau eraill. Bydd unrhyw le a gymeradwyir ar sail y cyfeiriad yn cael ei dynnu yn ôl os canfyddir bod y cyfeiriad hwn yn anghywir neu nad hwnnw yw cyfeiriad parhaol y plentyn ar ddechrau'r tymor ysgol sy'n berthnasol i'r cais..

Pan na fydd rhieni plentyn yn byw yn yr un cyfeiriad ond yn rhannu cyfrifoldeb rhiant dros blentyn, ac mae'r plentyn yn byw mewn mwy nag un cyfeiriad am ran o'r wythnos ysgol, cyfeiriad cartref y plentyn fydd y cyfeiriad lle mae'r plentyn yn preswylio am y rhan fwyaf o'r wythnos (h.y. 4 diwrnod allan o 7). Nid yw rhannu cyfrifoldeb rhiant dros blentyn yn berthnasol i drefniadau preifat a wneir rhwng rhieni ac aelodau eraill o'r teulu fel plentyn sy'n byw gyda nain a thaid yn ystod yr wythnos. Yn yr achosion hyn, bydd cyfeiriad y person sydd â chyfrifoldeb rhiant sy'n gwneud y cais yn cael ei ddefnyddio. Bydd yn rhaid i rieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol ar gyfer y cyfeiriad y dymunant ei ddefnyddio at ddibenion dyrannu. .

Os yw rhiant yn rhoi gwybod wrth wneud cais y bydd yn symud i gyfeiriad newydd ar ôl y dyddiad cau ond cyn i'r plentyn ddechrau'r ysgol, dim ond os darperir tystiolaeth ddogfennol ynghyd â'r ffurflen gais cyn y dyddiad cau y caiff y cyfeiriad newydd hwn ei ystyried. Bydd y dystiolaeth hon yn cynnwys cyfnewid contract, prawf prynu neu gytundeb rhentu. Os na ddarperir y wybodaeth hon, y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer ystyried y cais fydd y cyfeiriad cyfredol. **Oherwydd nifer uchel y ceisiadau sy'n cael eu prosesu, ni fydd y Tîm Mynediad Ysgolion yn cysylltu â'r rhieni i ofyn am y wybodaeth hon os yw ar goll. Cyfrifoldeb y rhiant yw ei rhoi.**

## 37. Anghenion Meddygol a Chymdeithasol Cymhellol

Mewn rhai achosion prin, bydd amgylchiadau penodol plentyn yn caniatáu i'w gais gael ei ystyried yn unol â'r maen prawf hwn. Er mwyn i hyn ddigwydd, dylid datgelu ffeithiau'r achos yn gyfrinachol erbyn y dyddiad cau fan hwyrach. Dylai'r dystiolaeth hon ddod gan weithiwr meddygol proffesiynol neu'r gwasanaethau cymdeithasol a bydd angen nodi mai dim ond yr ysgol dan sylw y gall y disgybl ei mynychu ynghyd â'r rhesymau penodol dros hyn. Yn yr achosion prin hyn, dylid ceisio cyngor cyn gynted â phosibl gan y Tîm Mynediad Ysgolion cyn y dyddiad cau. Heb y dystiolaeth hon ni fydd modd ystyried y cais o dan y maen prawf hwn. **Oherwydd nifer uchel y ceisiadau sy'n cael eu prosesu, ni fydd y Tîm Mynediad Ysgolion yn cysylltu â'r rhieni i ofyn am y wybodaeth hon os yw ar goll. Cyfrifoldeb y rhiant yw ei rhoi.**

**Atodiad 1**

**Mae'r Rhif Derbyn yn nodi'r rhif derbyn arferol ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Mae pob ysgol yn gyd-addysgol, oni nodir yn wahanol.**

## Ysgolion Cynradd

**Mae'r ysgolion canlynol yn ysgolion dydd y Fro sy'n darparu ar gyfer disgyblion o'r ddau ryw rhwng 4 ac 11 oed. Mae'r ysgolion sydd wedi'u marcio gyda * yn cynnwys Uned Feithrin ar gyfer plant iau.**

### Cyfrwng Saesneg

**Ysgol Gynradd Albert***
Albert Road, Penarth, CF64 BX
Ffôn: 029 20707682
Pennaeth: Mr. A Gilbert
Capasiti - 385
Nifer Derbyn – 55
www.albertprimary.co.uk

**Ysgol Gynradd Ynys y Barri***
Clive Road, Y Barri, CF62 5UZ
Ffôn: 01446 733807
Pennaeth – Matt Gilbert
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.barryislandprimary.com

**Ysgol Gynradd Tregatwg***
Victoria Park Road, Tregatwg, Y Barri CF63 2JS
Ffôn: 01446 741518
Pennaeth Gweithredol: Mrs. J Hayward
Capasiti - 420
Nifer Derbyn – 60
https://www.cadoxtonprimaryschool.com

**Ysgol Gynradd Cogan***
Pill Street, Cogan, Penarth, CF64 2JS
Ffôn: 029 20708497
Pennaeth: Susan Sibert
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
**Darperir darpariaeth feithrin ar hen safle Meithrinfa Cogan**
https://www.coganprimaryschool.co.uk

**Ysgol Gynradd Colcot***
Florence Avenue, Y Barri, CF62 9XH
Ffôn: 01446 735719
Pennaeth: Nia Cule
Capasiti - 315
Nifer Derbyn – 45
www.colcotprimary.ik.org

**Ysgol Y Bont Faen (Cyfnod Cynradd)***
Aberthin Road,
Y Bont-faen CF71 7EN
Ffôn: 01446 772311/773948
Pennaeth: Debra Thomas
Nifer Derbyn – 30
https://www.cowbridgecomprehensiveschool.co.uk

**Ysgol Gynradd Dinas Powys***
Ffordd Caerdydd, Dinas Powys CF64 4JU
Ffôn: 029 20512151
Pennaeth: Jon-Paul Guy
Capasiti - 420
Nifer Derbyn – 60
https://www.dinaspowysps.co.uk

**Ysgol Gynradd Evenlode**
Evenlode Avenue, Penarth, CF64 3PD
Ffôn: 029 20702168
Pennaeth: Ruth Foster
Capasiti - 420
Nifer Derbyn – 60
**Darperir darpariaeth feithrin ar hen safle Meithrinfa Bute Cottage**
https://www.evenlodeschoolpenarth.co.uk

**Ysgol Gynradd Fairfield**
Dryden Road, Penarth, CF64 2RT
Ffôn: 029 20709035
Pennaeth: Sian Lewis
Capasiti - 315
Nifer Derbyn – 45
www.fairfieldpenarth.co.uk

**Ysgol Gynradd Gladstone ***
Gladstone Road, y Barri, CF62 8NA
Ffôn: 01446 735321
Pennaeth : Cer-Ann Clark
Capasiti - 420
Nifer Derbyn – 60
www.gladstoneprimaryschool.co.uk

**Ysgol Gynradd High Street ***
St Paul's Avenue, Barry, CF62 8HT
Ffôn: 01446 734553
Pennaeth : Sarah McKee
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.highstreetprimary.co.uk

**Ysgol Gynradd Holton***
Heol Holltwn, y Barri, CF63 4TF
Ffôn: 01446 734844
Pennaeth : Tŷ Golding
Capasiti - 420
Nifer Derbyn – 60
www.holtonprimary.com

**Ysgol Gynradd Jenner Park***
Hannah Street, Y Barri, CF63 1DG
Ffôn: 01446 735587
Pennaeth: David Morris
Capasiti - 216
Nifer Derbyn – 30
www.jennerparkprimary.co.uk

**Ysgol Gynradd Llandochau***
Dochdwy Road, Llandochau, Penarth, CF64 2QD
Ffôn: 029 20702835
Pennaeth: Mr Mark Ellis
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.llandoughps.ik.org

**Ysgol Gynradd Llanfair***
The Herberts, Eglwys y Santes Fair, Y Bont-faen CF71 7LT
Ffôn: 01446 772245
Pennaeth: Rhys Jones
Capasiti - 140
Nifer Derbyn – 20
www.llanfairps.com

**Ysgol Gynradd Llangan**
Llan-gan, Pen-y-bont ar Ogwr, CF35 5DR
Ffôn: 01446 772403
Pennaeth: James Griffiths
Capasiti - 111
Nifer Derbyn – 15
https://www.llanganschool.co.uk

**Ysgol Gynradd Oakfield***
Amroth Court, Caldy Close, Y Barri, CF62 9DU
Ffôn: 01446 744606
Pennaeth Gweithredol: Janet Hayward
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
https://www.oakfieldprimarybarry.co.uk

**Ysgol Gynradd Palmerston***
Pen-y-Bryn, Tregatwg, Y Barri, CF63 2XL
Ffôn: 01446 747393
Pennaeth: Sarah Casson
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
https://www.palmerstonprimary.com

**Ysgol Gynradd y Rhws***
Fontygary Road, Y Rhws, Y Barri, CF62 3DS
Ffôn: 01446 710258
Pennaeth: Matthew Worth
Capasiti - 375
Nifer Derbyn – 53
www.rhwsprimary.co.uk

**Ysgol Gynradd Romilly***
Romilly Road, Y Barri, CF62 6LF
Ffôn: 01446 736934
Pennaeth: Katy Williams
Capasiti - 630
Nifer Derbyn – 90
www.romillyprimaryschool.co.uk

**Ysgol Gynradd Trwyn y De***
Fordd Rhws, Rhws, CF62 3FD
Ffôn: 01446 781375
Pennaeth: Colin Smith
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
https://www.southpointprimaryschool.co.uk

**Ysgol Gynradd Sain Tathan***
Rock Road, Sain Tathan, ger Y Barri, CF62 4PG
Ffôn: 01446 751480
Pennaeth: Louise Haynes
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.stathanprimaryschool.co.uk

**Ysgol Gynradd St Illtyd***
Station Road, Llanilltud Fawr, CF61 1ST
Ffôn: 01446 796335
Pennaeth: Mr Roger Hardy
Capasiti - 315
Nifer Derbyn – 45
www.stilltydprimaryschool.co.uk

**Ysgol Gynradd Sili***
Burnham Avenue, Sili, Penarth, CF64 5SU
Ffôn: 029 20530377
Pennaeth: Andrea Waddington
Capasiti - 350
Nifer Derbyn – 50
www.sullyschool.co.uk

**Ysgol Gynradd Victoria***
Cornerswell Road, Penarth, CF64 2UZ
Ffôn: 029 20709225
Pennaeth: Mrs Samantha Daniels
Capasiti - 420
Nifer Derbyn – 60
https://www.victoriaprimaryschool.com

**Ysgol Gynradd y Bont-faen***
Borough Close, Y Bont-faen, CF71 7BN
Ffôn: 01446 772374
Pennaeth: Mrs Julia Adams
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
https://ybontfaen.school

**Ysgol Gynradd y Ddraig***
Ham Lane East, Llanilltud Fawr, CF61 1TQ
Ffôn: 01446 792368
Pennaeth: Rebecca Cadman
Capasiti - 420
Nifer derbyn – 60
http://www.ysgolyddraig.co.uk/

**Cyfrwng Cymraeg**
**Ysgol Gymraeg Dewi Sant***
Ham Lane East, Llanilltud Fawr, CF61 1TQ
Ffôn: 01446 709595
Pennaeth: Helen Scully
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.ysgolgymraegdewisant.co.uk

**Ysgol Gwaun y Nant***
Amroth Court, Caldy Close, Y Barri, CF62 9DU
Ffôn: 01446 421723
Pennaeth: Mr Rhydian Lloyd
Capasiti - 420
Nifer Derbyn – 60
www.ysgolgwaunynant.co.uk

**Ysgol Iolo Morganwg***
Broadway, Y Bont-faen, CF71 7ER
Ffôn: 01446 772358
Pennaeth: Sara Rees
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.ysgoliolomorganwg.co.uk

**Ysgol Gymraeg Pen y Garth***
Redlands Road, Penarth, CF64 2QN
Ffôn: 029 20700262
Pennaeth: Rebecca Pugh
Capasiti – 420
Nifer Derbyn – 60
https://www.ysgolpenygarth.cymru/en/

**Ysgol Sant Baruc***
Stryd St Baruc, Barry CF62 5EB
Ffôn: 01446 749009
Pennaeth: Rhian Andrew
Capasiti - 420
Nifer Derbyn – 60
www.ysgolsantbaruc.co.uk

**Ysgol Sant Curig***
Heol y Coleg, Y Barri, CF62 8HQ
Ffôn: 01446 744222
Pennaeth: Rhodri Jones
Capasiti - 420
Nifer Derbyn – 60
www.ysgolgymraegsantcurig.com

## Rhestr o Ysgolion Cynradd Enwadol (Eglwys) a Gynorthwyir - Babanod Catholig, Ysgolion Cynradd Iau Gwirfoddol a Gynorthwyir

**Ysgol Gynradd St Helen (4-11 oed) ***
Maes y Cwm Street, y Barri CF63 4EH
Ffôn: 01446 732834
Pennaeth Dros Dro: Michelle Clawson
Capasiti - 308
Nifer Derbyn – 44
http://www.sthelenscps.co.uk

**Ysgol Gynradd Joseff Sant (4-11 oed) ***
Sully Road, Penarth, CF64 2TQ
Ffôn: 029 20702864
Pennaeth: Laura Taylor
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.stjosephsrc.com

## Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru (4-11 oed)

**Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfo***
Hen Ffordd y Porth, Gwenfô, CF5 6AN
Ffôn: 029 20593225
Pennaeth: Nicola Starke
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
https://gwenfocwprimary.co.uk

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-Fro***
Heol Llanbedr, Llanbedr-y-fro CF5 6LP
Ffôn: 01446 760328
Pennaeth: Owen Turner
Capasiti - 189
Nifer Derbyn – 27
www.peterstonprimary.net

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas**
Sain Nicolas CF5 6SG
Ffôn: 01446 760239
Pennaeth: Rachel Evans
Capasiti - 140
Nifer Derbyn – 20
https://www.stnicholascwprimary.co.uk

## Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru (4-11 oed)

**Mae'r ysgolion sydd wedi'u marcio â * yn cynnwys Uned Feithrin ar gyfer plant iau.**

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint***
Plas Cleddau, oddi ar Severn Avenue, Cwm Talwg, Y Barri CF62 7FG
Ffôn: 01446 745726
Pennaeth Dros Dro  Mr Aled Williams
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
https://www.allsaintspsbarry.co.uk

**Ysgol Gynradd Saint-y-Brid yr Eglwys yng Nghymru***
Heol yr Ysgol, Saint-y-brid, Pen-y-bont ar Ogwr CF32 OTB
Ffôn: 01656 880477
Pennaeth: Duncan Mottram
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.stbridesprimary.org.uk

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant (3-11)***
Tregolwyn, Y Bont-faen, CF71 7NL
Ffôn: 01656 656447
Pennaeth dros dro: Becci Morteo
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
https://www.stdavidscwprimaryschool.co.uk

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr***
Llansanwyr, Ystradowen, Y Bont-faen CF71 7SZ
Ffôn: 01443 223545
Pennaeth : Stephanie Davies
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
https://www.llansannorprimary.co.uk

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn***
Pendoylan, Y Bont-faen CF71 7UJ
Ffôn: 01446 760272
Pennaeth: Paula Vaughan
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.pendoylan.com

**Ysgol Gynradd St Andrew yr Eglwys yng Nghymru***
St Andrew's Road, Dinas Powys CF64 4HB
Ffôn: 029 20513089
Pennaeth: Jo Bayliss
Capasiti - 210
Nifer Derbyn – 30
www.standrewsweb.com

**Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yr Eglwys yng Nghymru**
Heol yr Eglwys, Y Wig, Y Bont-faen CF71 7QE
Ffôn: 01656 890253
Pennaeth: Mrs. Ceri Thomas
Capasiti - 154
Nifer Derbyn – 22
www.wickmarcross.co.uk

## Ysgolion Uwchradd a Gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.

Mae'r holl ysgolion canlynol yn ysgolion dydd Cyfun Bro Morgannwg. Yn unol ag Adran 8 (4) Deddf Addysg 1996 un dyddiad gadael ysgol sydd bellach. Hwn yw dydd Gwener olaf mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fo plentyn yn cael ei 16 blwydd oed.

**Ysgol Uwchradd Whitmore**
Port Road West, Y Barri, CF62 8ZJ
Ffôn: 01446 411411
Pennaeth Gweithredol : Innes Robinson
Cydaddysgol 11-18
Capasiti - 1100
Nifer Derbyn – 180
https://www.whitmorehigh.org

**Ysgol Gyfun y Bont-faen**
Aberthin Road,
Y Bont-faen CF71 7EN
Ffôn: 01446 772311/773948
Pennaeth: Debra Thomas
Bechgyn a Merched 11-18
Capasiti - 1586
Nifer Derbyn – 240
www.cowbridgecomprehensiveschool.co.uk

**Ysgol Llanilltud Fawr**
Ham Lane East, Llanilltud Fawr, CF61 9TQ
Ffôn: 01446 793301
Pennaeth: Charlotte Robins
Bechgyn a Merched 11-18
Capasiti - 1050
Nifer Derbyn 180
www.llantwitschool.org.uk

**Ysgol Stanwell**
Archer Road, Penarth CF64 2XL
Ffôn: 029 20707633
Pennaeth: James Mansfield
Bechgyn a Merched 11-18
Capasiti - 2016
Nifer Derbyn – 300
www.stanwell.org

**Ysgol Gyfun Sant Cyres**
St. Cyres Road, Penarth CF64 2XP
Ffôn: 029 20708708
Pennaeth: Peter Lewis
Bechgyn a Merched 11-18 oed
Capasiti - 1285
Nifer Derbyn – 210
www.stcyres.org

**Ysgol Uwchradd Pencoedtre**
Merthyr Dyfan Road, y Barri CF62 9YQ
Ffôn: 01446 403500
Pennaeth Gweithredol : Innes Robinson
Cydaddysgol 11-18
Capasiti – 1280
Nifer Derbyn – 210
https://www.pencoedtrehigh.org.uk/

## Ysgol Uwchradd Gatholig

**Ysgol Gyfun Gatholig St Richard Gwyn**
Argae Lane, Y Barri CF63 1BL
Ffôn: 01446 729250
Pennaeth: Mr David Blackwell
Bechgyn a Merched 11-16 oed
Capasiti - 813
Nifer Derbyn – 163
www.strichardgwyn.co.uk

## Ysgol Gymunedol Gymraeg 3-18

**Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg**
Colcot Road, Y Barri
Ffôn: 01446 450280
Pennaeth: Mr Rhys Angell Jones
Bechgyn a Merched 3-18
Capasiti – 1151 (CA 3 a 4)
Capasiti – 210 (CA 1 a 2)
Nifer Derbyn – 240 (CA 3 a 4)
Nifer Derbyn – 30 (CA 1 a 2)
https://www.ygbm.cymru

## Ysgolion Uwchradd Eraill sy'n Gwasanaethu Bro Morgannwg

**Mae'r ysgolion uwchradd canlynol yng Nghaerdydd hefyd yn ateb anghenion disgyblion ym Mro Morgannwg.**

Mae'r ysgol ganlynol yn ysgol gyfun wirfoddol a gynorthwyir sy'n darparu ar gyfer bechgyn a merched rhwng 11 a 18 oed.

**Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf**
Caerdydd
CF5 2NR
Ffôn: 029 20562485
Pennaeth:Mr Marc Belli
www.bishopofllandaff.org

Yr ysgol ganlynol yw'r unig goleg Eglwys dynodedig o dan reoliadau Addysg Bellach yng Nghymru. Mae'n darparu ar gyfer myfyrwyr rhwng 16 a 19 oed ac mae'n cynnig ystod eang o gyrsiau gan gynnwys Safon Uwch. Gwarantir lle i fyfyrwyr o Ysgol Gyfun Gatholig St Richard Gwyn ar gwrs priodol.

**Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant**
Tŷ Gwyn Road
Pen-y-lan
Caerdydd CF2 5YD
Ffôn: 029 20498555
Pennaeth: Mark Leighfield
www.st-davids-coll.ac.uk

**Atodiad 2**

## Pontio i Addysg Uwchradd:  Ysgolion cynradd sy'n bwydo Ysgolion Uwchradd Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyir

**CATHOLIG**

**Ysgol Uwchradd Gatholig ST RICHARD GWYN**
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen
Ysgol Gynradd Gatholig Joseff Sant

Y Corff Llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgolion Cyfun Catholig.

**Atodiad 3**

**NEWID CATEGORI YSGOL STANWELL I YSGOL STATWS CYMUNEDOL**

**Trefniadau derbyn trwy bontio**

O ganlyniad i newid categori Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol Statws Cymunedol o fis Medi 2024, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sefydlu trefniadau pontio ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu’r dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 6 yn un o ysgolion cynradd bwydo dynodedig Stanwell cyn newid statws. Yr ysgolion bwydo dynodedig yw Albert, Evenlode, Sili a Victoria. Byddai trefniadau pontio yn rhan o bolisi derbyn y Cyngor.

Bydd y Cyngor felly yn cadw'r cyswllt â’r ysgol gynradd fwydo ar gyfer Ysgol Stanwell i’r plant hynny sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 wrth bontio i addysg uwchradd. Byddai pob plentyn yn y grŵp oedran o’r dosbarth derbyn hyd at flwyddyn 6 mewn ysgol fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 yn cadw eu statws cyswllt ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Stanwell wrth bontio i addysg uwchradd.

Byddai'r trefniadau pontio yn dod i ben ar gyfer proses drosglwyddo blwyddyn 6 i addysg uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf sy’n gymwys o dan drefniadau pontio yn gadael ei ysgol gynradd fwydo.

Nid yw'r trefniadau pontio a'r cyswllt ysgol fwydo yn berthnasol i blant sy'n dechrau yn ysgolion cynradd Albert, Evenlode, Sili a Victoria o fis Medi 2024 ymlaen. Yn yr achosion hyn, byddai meini prawf gordanysgrifio y Cyngor yn berthnasol.

**Yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer Ysgol Stanwell**

## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn wasanaeth cyngor a gwybodaeth un stop i deuluoedd ym Mro Morgannwg. Gall rhieni gysylltu â ni i gael gwybod am y canlynol:

- Gofal plant cofrestredig gan gynnwys: gwarchodwyr plant, meithrinfeydd dydd, cylchoedd chwarae, crèche, Cylchoedd Meithrin, clybiau brecwast ac ar ôl ysgol a chynlluniau gofal yn ystod y gwyliau.
- Gofal plant heb ei gofrestru gan gynnwys clybiau brecwast, cynlluniau chwarae mynediad agored, Cynllun Cymeradwyo Gofal Plant, nanis, au pairs a phobl sy’n edrych ar ôl plant.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i theilwra at anghenion rhieni ac mae'n cynnwys manylion costau, oriau agor, a ellir gollwng a chasglu eich plentyn o'r ysgol, a oes mynediad i gadeiriau olwyn, y gwarchodwyr plant sydd â lle gwag yn yr ardal, a llawer mwy.

Mae’r Gwasanaeth hefyd yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- Grwpiau Rhieni a Phlant Bach a Chylchoedd Ti a Fi
- Gwasanaethau a gweithgareddau eraill i blant a phobl ifanc 0-19 oed.
- Gwasanaethau a gweithgareddau i blant ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys y Mynegai Anabledd
- Llyfryn Gweithgareddau'r Haf, sy'n cynnwys manylion am ddigwyddiadau yn ystod gwyliau haf yr ysgol.
- Help gyda chostau gofal plant, er enghraifft Credydau Treth a Thalebau Gofal Plant.
- Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd
- Hyfforddiant gofal plant a sut i sefydlu darpariaeth gofal plant.

Manylion cyswllt:

Ffôn: 01446 704704.
Oriau agor y swyddfa: 8.30am – 5.00pm Llun – Iau a 8.30am – 4.30pm dydd Gwener. Gwasanaeth ateb ar bob adeg arall.
E-bost: fis@valeofglamorgan.gov.uk
Facebook: Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
Tudalen Twitter: @ValeFIS
Ewch i: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/Family-Information-Service/Family-Information-Service.aspx lle gall rhieni chwilio am ofal plant gan ddefnyddio ein cronfa ddata gofal plant 'ar-lein'

## Rhestr o Ysgolion Arbennig a Darpariaeth Arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd

### Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) Arbenigol sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) Awdurdod Lleol

Dim ond drwy systemau Panel Awdurdodau Lleol y gellir cyrchu'r ddarpariaeth arbenigol ganlynol, a byddai'n darparu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arbenigol fel y'i nodir a'i fanylu mewn Cynllun Datblygu Annibynnol Awdurdod Lleol, yn unol â'r Ddeddf ADY a'r Cod ADY. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY wedi'u nodi sydd angen DDdY yn cael eu cefnogi yn eu hysgol brif ffrwd gyda CDU yn cael ei gynnal gan eu hysgol. Fodd bynnag, i nifer fechan o ddisgyblion, lle mae'n afresymol disgwyl i leoliad prif ffrwd ddarparu cymhlethdod y ddarpariaeth ychwanegol sydd ei hangen i ddiwallu anghenion dysgwyr, gall yr Ysgol atgyfeirio at yr Awdurdod Lleol i ystyried bod yr ALI yn cynnal y CDU. Byddai disgwyl i rieni / gofalwyr / pobl ifanc gysylltu ag ysgolion i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Dysgu a Sgiliau, ymholiadau ADY, Tîm ADY yr Awdurdod Lleol**
Gellir cysylltu â swyddog yr ALI yn y Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barry CF63 4RU.

Rhif Ffôn: 01446 709180
alncomplexneedsreferrals@valeofglamorgan.gov.uk

### Darpariaeth ALI mewn Ysgolion Arbennig a Gynhelir

| Ysgol Arbennig | Anghenion Addysgol Arbennig |
|---|---|
| **Ysgol Y Deri - Safle Penarth**<br><br>Sully Road<br>Penarth<br>CF64 2TP<br><br>Ffôn: 02920 352280<br><br>**Ysgol Y Deri – Safle'r Barri**<br><br>5 St Paul's Avenue<br>Y Barri<br>CF62 8HT<br><br>Ffôn: 02920 352280<br><br>Pennaeth: Mr C Britten | Plant sydd â chyflwr difrifol a chymhleth ar y sbectrwm awtistig<br><br>Anghenion gwybyddiaeth a dysgu difrifol a chymhleth<br><br>Anghenion meddygol corfforol a chymhleth difrifol<br><br>3-19 oed |

| | |
|---|---|
| **Darpariaeth Horizon – Dosbarth Lles yn Ysgol Y Deri**<br><br>Sully Road<br>Penarth<br>CF64 2TP<br><br>Ffôn: 02920 352280<br><br>Pennaeth: Mr C Britten | Cefnogi dysgwyr â gorbryder difrifol a/neu faterion eraill yn gysylltiedig ag iechyd meddwl<br><br>Cyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 10 ac 11) |
| **Ysgol Derw Newydd – Ysgol Y Deri**<br><br>Ysgol Derw Newydd Cam Cynnydd 1,2,3/ Cyfnod Allweddol 1 a 2 yn:<br><br>Derw Newydd<br><br>Barry Road<br><br>Y Barri<br><br>Bro Morgannwg<br><br>CF62 9BG<br><br>Ffôn: 01446 782039<br><br>Ysgol Uwchradd Derw Newydd<br><br>yn:<br><br>Derw Newydd<br><br>Barry Road<br><br>Y Barri<br><br>Bro Morgannwg<br><br>CF62 9BG<br><br>Ffôn: 01446 782039<br><br>Athro mewn gofal: Mr M Sweeden<br><br>Pennaeth: Mr C Britten | Cefnogi dysgwyr gydag anawsterau Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (ICEM).<br><br>11-16 oed |

## Darpariaeth ALI mewn Ysgolion Cynradd Prif Ffrwd

| Ysgol | Adnoddau |
|---|---|
| **Canolfan Ragoriaeth yn Ysgol Gynradd Cogan**<br><br>Pill Street<br>Cogan,<br>Penarth<br>CF64 2JS<br><br>Rhif Ffôn: 02920 708497<br>Pennaeth: Ms S Sibert | Plant ag anghenion clyw<br><br>Disgyblion oed cynradd |
| **Canolfan Ragoriaeth yn Ysgol Gynradd Parc Jenner**<br><br>Hannah Street<br>Y Barri<br>CF63 1DG<br><br>Rhif Ffôn: 01446 765587<br>Pennaeth: Mr D Morris | Plant gydag anghenion cymhleth<br>Disgyblion oed cynradd |
| **Canolfan Ragoriaeth yn Ysgol Y Ddraig**<br><br>Ham Lane East<br>Llanilltud Fawr<br>CF61 1TQ<br>Ffôn: 01446 792368 | Plant ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu<br><br>Disgyblion oed cynradd |
| **Canolfan Ragoriaeth yn Ysgol Gynradd Palmerston**<br><br>Pen-y-Bryn<br>Tregatwg, Y Barri<br>CF63 6QH<br><br>Rhif Ffôn: 01446 747393<br>Pennaeth Dros Dro:  Ms S Cason | Plant ag anawsterau corfforol a meddygol cymhleth<br><br>Disgyblion oed cynradd |
| **Canolfan Ragoriaeth yn Ysgol Gynradd Holltwn**<br><br>Heol Holltwn<br>Y Barri<br>CF63 4HT | Plant ag awtistiaeth ac anawsterau gorbryder |

| | |
|---|---|
| Rhif Ffôn: 01446 734844<br>Pennaeth: Mr T Golding | |
| **Canolfan Ragoriaeth yn Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant (cyfrwng Cymraeg)**<br><br>Amroth Court<br>Y Barri<br>CF62 9DU<br><br>Rhif Ffôn: 01446 421723<br>Pennaeth: Mr M Lloyd | Plant ag anghenion ADY gorbryder a chyflwr ar y sbectrwm awtistig mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg |
| **Uned Sylfaen Ymyrraeth Gynnar – Ysgol Y Deri**<br><br>**yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff**<br><br>**Sully Road**<br>**Penarth**<br>**Caerdydd**<br>**CF64 2TQ**<br><br>**Ffôn: 02920 702864**<br><br>Pennaeth: Mr C Britten | Plant sydd â diagnosis o awtistiaeth a chyn-ddiagnosis<br><br>Disgyblion oed cynradd - Cyfnod Allweddol 1 |

## Darpariaeth ALI mewn Ysgolion Uwchradd Prif Ffrwd

| | |
|---|---|
| **Canolfan Ragoriaeth yn Ysgol Gyfun Sant Cyres**<br><br>St Cyres Road<br>Penarth<br>CF64 2XP<br><br>Rhif Ffôn: 02920 708708<br>Pennaeth: Mr Peter Lewis | Plant ag anghenion clyw ychwanegol<br><br>Plant ag anghenion corfforol ychwanegol<br><br>Ysgol Uwchradd, rhwng 11 ac 16 oed |
| **Canolfan Adnoddau Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) Ysgol Uwchradd Whitmore**<br><br>Port Road West | Ysgol Uwchradd, rhwng 11 ac 16 oed |

| | |
|---|---|
| Y Barri<br><br>CF62 8ZJ<br><br>Ffôn: 01446 411411<br><br>Pennaeth yr Ysgol:  Mr I Robinson<br><br>Nid yw derbyniadau i'r Ganolfan Adnoddau ASA yn cael eu rheoli gan y Tîm Derbyn i Ysgolion ac mae'n atgyfeiriad/asesiad ar wahân i'r Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles. | |
| **Canolfan Lloeren Awdurdod Lleol Ychwanegol yng**<br><br>**Nghanolfan Adnoddau Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) Ysgol Uwchradd Pencoedtre** | Disgyblion ag anghenion ADY awtistiaeth cymhleth<br><br>Ysgol Uwchradd, rhwng 11 ac 16 oed |

## Polisïau Derbyn ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru

Cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol sy'n gyfrifol am eu derbyniadau eu hunain, ac mae gan bob ysgol ei pholisi derbyn ei hun. Felly dylid gwneud ceisiadau i'r ysgol, ac nid i'r Cyngor. I gael manylion llawn y weithdrefn a'r dyddiadau cau ac ati, dylai rhieni gysylltu â'r ysgol cyn gynted â phosibl. Yn yr adran hon rhestrir y meini prawf derbyn ar gyfer pob ysgol wirfoddol a gynorthwyir ym Mro Morgannwg i chi eu hystyried. Roedd y polisïau hyn yn gywir ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, ond sicrhewch eich bod yn cysylltu â'r ysgolion yn uniongyrchol i gael y manylion llawn oherwydd gallai'r manylion newid.

### Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Eglwys yr Holl Seintiau yng Nghymru

**1. Cyflwyniad**

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac yn gydaddysgol. Un o'i phrif amcanion yw darparu addysg Gristnogol yn unol â defodau, seremonïau ac athrawiaethau'r ffydd Anglicanaidd fel yr arferir gan yr Eglwys yng Nghymru. Dylai rhieni fod yn ymwybodol bod ffydd ac athrawiaeth yr Eglwys yng Nghymru yn rhan annatod o'r cwricwlwm ac yn sgil hynny, maent ymhlyg ym mhopeth a wnawn yn yr ysgol.

1.2 Mae Polisi Derbyn yr ysgol yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

1.3 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gyhoeddi ei drefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint ("yr Ysgol"). Nifer Derbyn Safonol yr Ysgol yw 30 disgybl ym mhob blwyddyn.

1.4 Nod y polisi hwn yw amlinellu'r meini prawf y bydd yr Ysgol yn eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau am leoedd yn y Dosbarthiadau Meithrin a Derbyn a cheisiadau y tu allan i'r rownd dderbyn arferol. Y Corff Llywodraethu fydd yn gyfrifol am weithredu'r Polisi hwn.

1.5 Bydd ceisiadau gan deuluoedd yn yr Uned Feithrin yn cael eu hystyried ar yr un sail â phob un arall, ond wrth ystyried lleoedd ar gyfer meithrinfa'r bore, rhoddir blaenoriaeth i'r disgyblion sydd wedi mynychu meithrinfa'r prynhawn. Nid yw cael cynnig lle yn yr Uned Feithrin yn gwarantu lle yn y Dosbarth Derbyn.

**2 Y Weithdrefn Dderbyn**

2.1 Mae'r Ysgol yn rhan o'r broses dderbyn gydlynol gydag Awdurdod Lleol Bro Morgannwg ac mae'n ofynnol bod ymgeiswyr yn cwblhau ffurflen ar-lein neu gopi caled os nad ydynt yn gallu cwblhau'r broses ymgeisio ar-lein. Rhaid i riant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol fynegi ffafriaeth dros le yn yr ysgol ar Borthol Derbyn i Ysgolion y Cyngor neu gwblhau copi caled, os oes angen. Mae'r ffurflen ar-lein hon neu'r copi caled yn storio manylion sylfaenol a ddefnyddir i ddilysu

cyfeiriad cartref yr ymgeisydd ac yn cynorthwyo'r awdurdod lleol wrth reoli ceisiadau i ysgolion amrywiol (e.e. Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint, ysgol ffydd arall a/neu ysgolion cymunedol). Bydd methu â chwblhau ffurflen gais (naill ai ar-lein neu gopi caled), o fewn yr amserlen ddynodedig, yn golygu na chaiff lle ei gynnig.

2.2 Os bydd 30 neu lai o geisiadau, bydd pob ymgeisydd yn cael lle. Pan geir mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf gordanysgrifio yn y drefn a nodir.

2.3 Pan na fydd y Corff Llywodraethu'n gallu cynnig lle i bob plentyn o fewn unrhyw gategori oherwydd y byddai gwneud hynny'n golygu rhagori ar y nifer derbyn, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i'r ymgeiswyr hynny sy'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau a restrir yn y flaenoriaeth ganlynol:

(i) Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer (gweler nodyn 2) sy'n mynychu'r ysgol ar yr adeg y byddent yn cael eu derbyn, pe byddai eu cais yn llwyddiannus. Felly, bydd plentyn sydd â brawd neu chwaer yn cael blaenoriaeth yn y categori mae'r ymgeisydd wedi'i ddyrannu iddo.

(ii) Bydd agosrwydd cyfeiriad cartref y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr i'r ysgol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob maen prawf (ar ôl blaenoriaeth brodyr a chwiorydd) lle mae nifer y ceisiadau'n fwy na'r terfyn lleoedd. Caiff agosrwydd ei fesur trwy gyfrifo'r "pellter cerdded diogel" byrraf o god post yr Ysgol (CF62 7FG) i god post y cartref fel y'i mesurir gan Bolisi Derbyniadau Lleol a Gordanysgrifio (Derbyn 2024) Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint, y Barri Tudalen 2 o 4 System Gwybodaeth Ddaearyddol (SGDd) yr Awdurdod. At ddibenion yr ymarfer hwn, y 'cyfeiriad cartref' i blant nad yw eu rhieni'n byw yn yr un cyfeiriad yw'r cyfeiriad lle bydd y plentyn yn treulio'r rhan fwyaf o'r wythnos ysgol (h.y. o leiaf 3 noson, Sul - Iau) yn ystod y tymor.

2.4 Bydd ceisiadau ar gyfer unrhyw grŵp blwyddyn, ar unrhyw adeg yn y flwyddyn, yn cael eu hystyried gan y Corff Llywodraethu yn unol â Pholisi a Meini Prawf Gordanysgrifio'r Ysgol: Y meini prawf gordanysgrifio yw

1. Plentyn sy'n derbyn gofal, neu a arferai dderbyn gofal (gweler nodyn 1);

2. Plentyn sy'n mynychu gwasanaeth yn un o'r eglwysi yn Ardal Weinidogaeth y Barri (gweler Atodiad 1), yn wythnosol/bob pythefnos ac sydd wedi gwneud hynny am y flwyddyn ddiwethaf o leiaf;

3. Plentyn sy'n byw yn Ardal Weinidogaeth y Barri, ond sy'n mynd i wasanaeth yr Eglwys yng Nghymru mewn eglwys mewn Ardal Weinidogaeth arall yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny am y flwyddyn ddiwethaf o leiaf. Mae map o Ardal Weinidogaeth y Barri ynghlwm yn Atodiad 1;

4. Plentyn sy'n byw y tu allan i Ardal Weinidogaeth y Barri, ond sy'n mynd i wasanaeth yr Eglwys yng Nghymru mewn Ardal Weinidogaeth arall yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny am y flwyddyn ddiwethaf o leiaf;

5. Plentyn sy'n mynd i wasanaeth enwad Cristnogol (gweler nodyn 3), heblaw am yr Eglwys yng Nghymru yn wythnosol/bob pythefnos ac wedi gwneud hynny am y flwyddyn ddiwethaf o leiaf;

6. Plentyn sy'n mynd i addoldy, heblaw am un Cristnogol (gweler nodyn 3), yn wythnosol/bob pythefnos ac sydd wedi bod yn gwneud hynny am y flwyddyn ddiwethaf o leiaf;

7. Plentyn y bydd ganddo frawd neu chwaer (gweler nodyn 2) sy'n mynychu'r ysgol ar yr adeg y caent ei dderbyn, pe byddai ei gais yn llwyddiannus;

8. Plentyn sydd, gyda'i riant neu warcheidwad, yn byw yn Ardal Weinidogaeth y Barri;

9. Plant y mae eu rhiant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid yn gwneud cais iddynt gael eu derbyn am resymau eraill.

2.5 Bydd plant sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio uchod os enwyd yr ysgol fel y lleoliad mwyaf priodol.

2.6 Wrth ystyried ceisiadau gan riant/rhieni neu warcheidwad/gwarcheidwaid plant sy'n gwneud cais am le ar sail anghenion cymdeithasol neu feddygol, gall yr ysgol ymgynghori â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Pennaeth a'r Awdurdod Lleol fel y bo'n briodol.

2.7 Mae'r Corff Llywodraethu bob amser yn cadw'r hawl i wyro oddi wrth y meini prawf hyn os oes ganddo dystiolaeth rymus y bydd lles plentyn yn cael ei beryglu'n ddifrifol os nad yw'r plentyn yn cael ei dderbyn i'r Ysgol.

2.8 Penderfynir ar feini prawf categorïau 2, 3, 4, 5, a 6 yn union yng ngoleuni y geirda a lofnodwyd gan weinidog yr addoldy dan sylw.

**3 Y Weithdrefn Apelio**

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'r llywodraethwyr wedi sefydlu gweithdrefn apelio. Gall rhiant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr plentyn na chafodd ei dderbyn i'r Ysgol apelio yn erbyn y penderfyniad. Penodir y panel gan Esgobaeth Llandaf ac mae'n gwbl annibynnol ar yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol. Dylid anfon hysbysiad o fwriad i apelio i'r Ysgol a fydd wedyn yn hysbysu Swyddfa Addysg yr Esgobaeth.

**4 Cywirdeb gwybodaeth** Byddwch yn ymwybodol, os canfyddir bod rhieni/gofalwyr wedi rhoi gwybodaeth gamarweiniol neu dwyllodrus yn rhan o'r cais, tynnir y cynnig o le yn ôl ac mae'n debygol y bydd yn arwain at ddileu lle, hyd yn oed ar ôl i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol. Polisi Derbyniadau a Gordanysgrifio (Derbyn Medi 2024) Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint, Y Barri, Tudalen 3 o 4

**Nodiadau**

1. Mae **Plant sy'n Derbyn Gofal** yn blant sydd wedi'u cofrestru yng ngwasanaethau gofal yr awdurdod lleol (dan adran 31 Deddf Plant 1989) neu sy'n derbyn llety gan yr awdurdod lleol (dan adran 20 Deddf Plant 1989).

2. Diffinnir **brawd neu chwaer** fel brawd neu chwaer fiolegol, hanner brawd neu chwaer, brawd neu chwaer fabwysiedig, llysfrawd neu lyschwaer neu blant maeth a fydd yn dal i fod ar gofrestr yr ysgol (o oedran ysgol statudol) ar yr adeg derbyn. Efallai

y bydd angen tystiolaeth i wirio statws brodyr a chwiorydd. Diffinnir 'rhiant' fel rhywun sydd â chyfrifoldeb rhianta dros y plentyn neu'n brif ofalwr y plentyn.

3. Cyfeiria **enwadau/Eglwysi Cristnogol** at yr enwadau/Eglwysi Cristnogol hynny sy'n gysylltiedig ag Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) neu'r Gynghrair Efengylaidd, fel y cydnabyddir gan y llywodraethwyr wrth benderfynu ar leoedd (h.y. mis Ionawr) y flwyddyn derbyn. Lle bu ymgeiswyr yn byw y tu allan i Gymru yn ystod y cyfnod mynychu'r eglwys, dylid ystyried bod cyfeiriad at yr Eglwys yng Nghymru yn cynnwys aelodau eraill o'r Cymundeb Anglicanaidd; Dylai Cytûn gynnwys eglwysi/enwadau sy'n gysylltiedig â chyrff aelodau cenedlaethol eraill Cyngor Eglwysi'r Byd; Dylai'r Gynghrair Efengylaidd gynnwys eglwysi/enwadau sy'n gysylltiedig â chyrff aelodau cenedlaethol eraill Cynghrair Efengylaidd y Byd. Gellir gofyn am dystiolaeth gan rieni i gadarnhau eglwysi neu enwadau y tu allan i'r DU.

4. Mae'r **cyfnod** y mae plentyn wedi bod yn bresennol yn wythnosol/bob pythefnos mewn addoldy yn cael ei gyfrifo am yn ôl o'r dyddiad y mae'r Corff Llywodraethu yn cyfarfod i ystyried ceisiadau (mis Ionawr y flwyddyn derbyn).

5. Mae **ymrwymiad ffydd** yn cyfeirio at addoli a fynychir fel rhan o wasanaethau craidd eglwys, fel arfer ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul. Nid oes angen i blant fod yn rhan o'r prif wasanaeth am yr holl amser ac mae cymryd rhan yn 'Ysgol Sul' neu gyfwerth yn gyfystyr â mynychu gwasanaeth. Nid yw addoli a fynychir fel rhan o brofiad ysgol gynradd neu ysgol feithrin arall a/neu addoli anffurfiol (e.e. 'Llan Llanast') yn berthnasol.

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr a Llanhari

## <u>Polisi Derbyn a Gordanysgrifio</u>

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr a Llanhari yn ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir sydd â naws Gristnogol gadarn a nodedig. Mae'r polisi derbyn a gordanysgrifio yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Ethos Cristnogol yr ysgol a'i chysylltiadau agos â'i heglwysi Anglicanaidd lleol, sy'n pwysleisio pwysigrwydd gweddïo, addoli ac addysgu Cristnogol;
- Ymrwymiad yr ysgol wrth gefnogi'r teulu, cyfle cyfartal a diffyg elitiaeth;
- Ein rôl fel sefydliad addysgol lleol sy'n gwasanaethu'r gymuned leol;
- Ein rôl fel ysgol sy'n cyflawni ei gofynion addysgol statudol.

1. **Dyddiadau cyflwyno ceisiadau**
   Dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer y Dosbarth Derbyn yn unol â dyddiadau derbyn i ysgolion Bro Morgannwg y cytunir arnynt a'u cyhoeddir yn flynyddol. Bydd yr holl ddyddiadau o ran

derbyn i'r Meithrin a'r Dosbarth Derbyn yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw, gan gynnwys ar wefan yr ysgol.

**2. Nifer Derbyn**

Cyfrifir capasiti'r ysgol gan ddefnyddio Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 021/2011- Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru. Capasiti'r ysgol yw 210 o ddisgyblion (disgyblion oedran statudol llawn amser). Y nifer derbyn yw nifer y disgyblion y bydd y Corff Llywodraethu'n eu derbyn i grŵp blwyddyn yn yr ysgol a chaiff ei chyfrifo ar sail nifer y lleoedd sydd gan yr ysgol. Y nifer derbyn ar gyfer ysgol Llansanwyr a gyfrifir gan yr Awdurdod Lleol yw **30**.

**3. Maint dosbarthiadau**

Bydd yr ysgol yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chyfarwyddeb Llywodraeth Cymru i sicrhau nad oes mwy na **30** o blant mewn unrhyw ddosbarth yn y cyfnod sylfaen (*derbyn i flwyddyn 2*). Yn nghyfnod allweddol 2 (blwyddyn 3 i 6), 30 yw nifer y disgyblion mewn dosbarth ar gyfartaledd.

**4. Derbyn i'r Dosbarth Meithrin**

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr a Llanhari yn cynnig lleoedd meithrin rhan-amser am bum bore a phum prynhawn yr wythnos. Caiff plant eu derbyn i ddosbarth meithrin yn Nhymor yr Hydref blwyddyn academaidd eu pen-blwydd yn bedair oed. *(Mae'r flwyddyn academaidd yn cychwyn ar 1 Medi ac yn dod i ben ar 31 Awst.)*

Ceir hefyd ddosbarth Meithrin i blant sy'n codi'n 3 oed, y cânt eu derbyn iddo y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed. Bydd y disgyblion hyn yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer mynediad i'n dosbarth Meithrin hŷn y flwyddyn ganlynol.

Mae'r ysgol yn derbyn hyd at 32 o ddisgyblion meithrin bob blwyddyn ym mhob dosbarth Meithrin y bore a'r prynhawn. Os ceir mwy na 32 o geisiadau am leoedd meithrin, byddai'r un meini prawf gordanysgrifio yn cael eu gweithredu fel y nodir ar gyfer dyrannu lleoedd yn y dosbarth Derbyn (*gweler pwynt 7 isod*).

Dylid cyflwyno ceisiadau am leoedd Meithrin yn uniongyrchol i'r ysgol erbyn y diwrnod ysgol olaf cyn hanner tymor mis Chwefror. Bydd rhieni'n cael gwybod am y penderfyniad ar ddiwrnod olaf tymor y gwanwyn, cyn gwyliau'r Pasg. Fel ym mhob ysgol, **ni fydd gan blant sy'n cael eu derbyn i'n dosbarthiadau meithrin hawl awtomatig i gael eu derbyn i addysg lawn-amser** (dosbarth derbyn) yn ein hysgol.

**5. Derbyn disgyblion i'r dosbarth Derbyn ac unrhyw blentyn sy'n ymuno ag un o'r blynyddoedd hŷn**

Bydd plant sy'n bedair oed hyd at ac yn cynnwys ar 31 Awst mewn blwyddyn benodol yn gymwys i gael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi y flwyddyn honno.

Dylid cyflwyno ceisiadau drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg yn unol â’r dyddiadau a gyhoeddwyd. Rhaid i bob cais ddod i law erbyn dechrau mis Ionawr (gweler y wefan i weld yr union ddyddiad bob blwyddyn). Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan Bwyllgor Derbyniadau'r ysgol a bydd rhieni'n cael gwybod ym mis Ebrill a fydd gan eu plentyn le.

Bydd pob ymgeisydd yn cael ei dderbyn hyd at y nifer derbyn, sef 30. Pan fydd nifer y ceisiadau ar gyfer y dosbarth Derbyn yn fwy na'r nifer derbyn, caiff pob cais ei asesu yn unol â’r meini prawf gordanysgrifio isod, yn y drefn a nodir, er mwyn dyrannu lleoedd hyd at y nifer derbyn.

**6. Meini Prawf Gordanysgrifio**

Bydd y Corff Llywodraethu’n rhoi blaenoriaeth i:

1. Blant sy’n derbyn gofal a phlant a arferai dderbyn gofal

2. Plant â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol, sy'n enwi'r ysgol, fel y'i pennwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol..

3. Plant y bydd ganddynt frawd neu chwaer *(gan gynnwys llys-frawd/llys-chwaer yn byw yn yr un tŷ)* yn mynychu’r ysgol ar yr adeg y cânt eu derbyn, pe byddai eu cais yn llwyddiannus.

4. Plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol sydd, gyda'u rhiant/rhieni/gwarcheidwad/gwarcheidwaid, yn Anglicaniaid ac yn cymryd rhan weithredol mewn eglwys Anglicanaidd (m*ynychu* o *leiaf unwaith y mis*).

5. Plant o enwadau Cristnogol eraill neu wahanol grefyddau, sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol ac sy'n ymwneud yn weithredol â'u cymuned ffydd.

6. Plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol.

7. Plant rhieni sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ac sy’n cymryd rhan weithredol mewn eglwys Anglicanaidd.

8. Plant rhieni sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, ac sy’n cymryd rhan weithredol mewn enwadau Cristnogol eraill neu ffydd arall.

9. Plant y mae eu rhieni am iddynt gael eu haddysgu yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr a Llanhari.

Bydd pob plentyn nad yw'n cael cynnig lle yn cael ei roi ar restr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y mae wedi gwneud cais ar ei chyfer. Bydd yr ysgol yn cysylltu â Rhieni/ Gwarcheidwaid os daw lle ar gael.

**Sylwer:**

- Diffinnir ymwneud yn weithredol ag eglwys neu gymuned ffydd fel mynychu o leiaf unwaith y mis.
  Bydd meini prawf ar gyfer categorïau 4, 5, 7 ac 8 yn cael eu pennu'n llym yng ngoleuni'r argymhelliad wedi'i lofnodi gan yr arweinydd ffydd cydnabyddedig.
- Diffinnir dalgylch yr ysgol o fewn y mapiau sydd wedi'u cynnwys ar ddiwedd y polisi hwn.
- Rhoddir blaenoriaeth i'r disgyblion sy'n byw agosaf at yr ysgol, gan ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i fesur pellter.Ystyrir mai man preswylio y plentyn yw'r eiddo preswyl lle mae'r person neu'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn preswylio ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau derbyn i'r ysgol. Os oes gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant, a bod y bobl hynny'n byw mewn gwahanol eiddo, man preswyl y plentyn fyddai'r eiddo y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos, gan gynnwys penwythnosau.

**7. Yr hawl i apelio:**

Mae'r Corff Llywodraethu yn ystyried pob cais yn unigol yn unol â'r polisi hwn. Os na chynigir lle i blentyn, mae gan y rhieni hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Corff Llywodraethu. Dylid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr a Llanhari, Llansanwyr, Ystradowen, Y Bont-faen, CF71 7SZ, a hynny o fewn 15 diwrnod ar ôl i'r hysbysiad ddod i law. Dylai unrhyw apêl nodi pam mae penderfyniad y Llywodraethwyr yn groes i'r polisi hwn.

Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan banel Derbyn i Ysgolion annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Llandaf, yn ôl Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Gwahoddir y rhieni i wrandawiad apeliadau o fewn 30 diwrnod ysgol i'r dyddiad cau penodedig ar gyfer cyflwyno apeliadau.

**O.N. Nid yw Addysg Feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni hawl i apelio os yw eu cais am le mewn Dosbarth Meithrin yn aflwyddiannus.**

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn

Ysgol gydaddysgol wirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg gyda naws Gristnogol nodedig yw Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn.

Mae'n gwasanaethu fel yr ysgol bentref leol ar gyfer cymunedau Llanddunwyd a Phendeulwyn, ond mae hefyd yn denu disgyblion o ardal ehangach gan gynnwys rhannau o Rhondda Cynon Taf megis Meisgyn, Llantrisant a Phont-y-clun. Dyma'r ysgol Eglwys yng Nghymru agosaf sy'n gwasanaethu'r ardal honno. Un o brif amcanion yr ysgol yw darparu addysg Gristnogol yn unol ag addysg, athrawiaethau ac arfer enwadol yr Eglwys yng Nghymru. Mae hefyd yn derbyn ac yn croesawu disgyblion o bob ffydd ac enwad ynghyd â disgyblion heb ffydd.

Y Corff Llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol ac mae'n adolygu ei bolisi derbyn bob blwyddyn.

**Nifer Derbyn**

Rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at eu nifer derbyn cyhoeddedig. Nid oes modd gwrthod cais derbyn i ysgol nes cyrraedd y nifer derbyn. Mae'r nifer derbyn cyhoeddedig wedi ei chyfrifo'n unol â methodoleg cyfrifo capasiti ysgolion Llywodraeth Cymru, sef "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru (MCYNg)". Gan fod y nifer hon wedi ei seilio ar gapasiti corfforol ysgolion i gynnal disgyblon, ni ddylid mynd yn uwch na hi mewn amgylchiadau arferol.

Nifer safonol y plant y gellir eu derbyn i'r dosbarth Derbyn bob blwyddyn yw 30. Mae'r nifer hwn yn seiliedig ar gapasiti'r ysgol (210 o leoedd cyfwerth ag amser llawn a 30 o leoedd meithrin rhan-amser, yn ddarostyngedig i newid) hefyd yn adlewyrchu'r terfyn statudol ar faint dosbarthiadau.

**Cydraddoldeb**

Rhoddir cyfle cyfartal i bob plentyn gymryd lle yn Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn, waeth beth fo'i ryw, ethnigrwydd, cyrhaeddiad, anabledd neu gefndir diwylliannol, cymdeithasol neu ieithyddol. Mae gwahaniaethu o unrhyw fath yn erbyn y nodweddion gwarchodedig hyn yn annerbyniol ac mae Llywodraethwyr yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, cyhyd â bod ymgeiswyr yn bodloni meini prawf y Polisi Derbyn.

## Derbyn i'r Dosbarth Meithrin

Mae gan Ysgol Gynradd Pendeulwyn ddosbarth meithrin y caiff plant eu derbyn iddo yn Nhymor yr Hydref ym mlwyddyn academaidd eu pen-blwydd yn bedair oed (mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ar 1 Medi ac yn dod i ben ar 31 Awst).

Mae lleoedd meithrin ar gael yn y boreau. Mae'r ysgol yn derbyn hyd at 32 o ddisgyblion meithrin bob blwyddyn. Os ceir mwy na 30 o geisiadau am leoedd meithrin, byddai'r un meini prawf gordanysgrifio yn cael eu gweithredu fel y nodir ar gyfer dyrannu lleoedd yn y dosbarth Derbyn. Dylid cyflwyno cais am leoedd yn nosbarth meithrin y bore erbyn diwedd mis Rhagfyr y flwyddyn academaidd cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Bydd y Pwyllgor Derbyn yn hysbysu'r rhieni o'u penderfyniad erbyn diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn canlynol.

Nid yw mynychu'r Feithrinfa yn effeithio ar dderbyn i'r brif ysgol: nid yw sicrhau lle yn y dosbarth meithrin yn gwarantu na chynyddu'r siawns o sicrhau lle yn y dosbarth Derbyn. Rhaid cwblhau ffurflen gais newydd ar gyfer cael lle yn y Dosbarth Derbyn.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cyfleuster Gofal Dydd Sesiynol yn y prynhawniau y codir tâl amdano. Os yw'r rhieni'n gymwys, gallant hefyd wneud cais am Gynnig Gofal Plant Cymru, 30 awr a ariennir yn rhannol, am le yn y prynhawniau. Caiff plant eu derbyn i'n cyfleuster Gofal Dydd Sesiynol y tymor ar ôl eu 3ydd pen-blwydd a dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer sesiynau'r prynhawn ar wahân.

Gan nad yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol, nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio o dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion os nad yw eu cais am le mewn meithrinfa yn llwyddiannus.

## Derbyn i Ddosbarth Derbyn

Caiff plant eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn yn Nhymor yr Hydref ym mlwyddyn academaidd eu pen-blwydd yn 5 oed. Bydd ffurflenni cais ar gael o fis Tachwedd y flwyddyn academaidd cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol a dylid eu dychwelyd erbyn y mis Ionawr canlynol. Gwneir penderfyniadau gan y Pwyllgor Derbyn i Ysgolion a chyhoeddir cynigion o leoedd erbyn diwedd Tymor y Gwanwyn. Gall yr union ddyddiadau newid yn flynyddol i gyd-fynd ag ysgolion eraill yn y Fro ac ar draws Cymru.

Ni fyddwn yn ystyried **Ceisiadau Hwyr** ar ôl y dyddiad cau (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol) nes bod y rhai a wnaeth gais yn brydlon wedi cael cynnig lle ac mae'r ymatebion hynny wedi dod i law. Mae hyn yn golygu, os yw'r ysgol yn cael ei gordanysgrifio, y gall ymgeisydd hwyr fethu â sicrhau lle hyd yn oed os yw'n sgorio'n

uwch o dan y meini prawf gordanysgrifio nag ymgeiswyr a gyflwynodd gais erbyn y dyddiad cau.

**Derbyniadau yn ystod y Flwyddyn**

Bydd unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno mynychu'r ysgol yn ystod y flwyddyn yn gorfod bodloni'r un meini prawf derbyn a gordanysgrifio. Os yw'r grŵp blwyddyn y gwnaed cais amdano'n llawn, bydd y plentyn yn cael ei roi ar restr aros am dymor a rhoddir blaenoriaeth mewn perthynas â'r meini prawf gordanysgrifio. Mae gan unrhyw ymgeisydd sy'n aflwyddiannus yr un hawl i apelio fel y nodir yn y polisi hwn.

## Meini Prawf Gordanysgrifio

Os yw nifer yr ymgeiswyr yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu yn gweithredu'r meini prawf a nodir isod yn nhrefn blaenoriaeth, er mwyn dyrannu lleoedd hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig.

1. 'Plant sy'n derbyn gofal', plant a arferai dderbyn gofal
2. Plant sydd â brawd neu chwaer sy'n ddisgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol ar y dyddiad y mae'r plentyn sy'n gwneud y cais i fod i ddechrau yn yr ysgol.
3. Plant sy'n byw yn y plwyf* y mae eu rhieni yn aelodau gweithredol o'r Eglwys yng Nghymru
4. Plant sy'n byw yn y plwyf* y mae eu teuluoedd yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol arall
5. Plant sy'n byw yn y plwyf* sy'n aelodau gweithredol o gymuned ffydd arall
6. Plant eraill yn y plwyf* sy'n dymuno mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru
7. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch y plwyf* y mae eu teuluoedd yn aelodau gweithredol o'r Eglwys yng Nghymru
8. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch y plwyf* y mae eu teuluoedd yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol arall
9. Plant sy'n byw y tu allan i'r plwyf* sy'n aelodau gweithredol o gymuned ffydd arall
10. Plant eraill yn y plwyf* sy'n dymuno mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru

* **plwyf = enwyd yn flaenorol yn blwyf eglwysig Pendeulwyn a Llanddunwyd sydd bellach wedi'i lleoli ym Mywoliaeth Reithorol Dwyrain y Fro.**

**Cofiwch y bydd plant sydd â Datganiad o Angen Addysgol neu Gynllun Datblygu Unigol sy'n enwi'r ysgol fel y lleoliad mwyaf priodol yn cael eu derbyn yn awtomatig.**

Y pellter rhwng cartref y teulu a'r ysgol fydd y ffactor hollbwysig os oes mwy o ymgeiswyr mewn unrhyw gategori na nifer y lleoedd sy'n weddill. Cyflwynir plant genedigaeth luosog gyda'i gilydd hyd yn oed os yw hyn yn gwneud cyfanswm uwch na'r nifer derbyn os yw'n golygu gwahanu plant oherwydd byddai un ohonynt y 31ain plentyn.

## Y Weithdrefn Apelio

Mae gennych hawl i apelio os yw eich cais yn aflwyddiannus. Dylid gwneud apêl o'r fath i glerc y llywodraethwyr, d/o yr ysgol, a hynny o fewn tair wythnos galendr i dderbyn y llythyr yn gwrthod lle i'ch plentyn. Bydd ffurflen apelio'n cael ei hamgáu gyda'r llythyr. Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn i Ysgolion annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Llandaf, yn ôl Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion.

Os oes gormod o geisiadau am yr ysgol, bydd pob plentyn nad yw'n cael cynnig lle yn cael ei roi ar y rhestr aros tan ddiwedd Tymor yr Hydref yn y flwyddyn ysgol y gwnaeth gais amdani. Cysylltir â rhieni/warcheidwaid os daw lle ar gael.

## Trafnidiaeth

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig trafnidiaeth ysgol am ddim i blant oed meithrin heblaw am y rhai sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded yr ysgol briodol agosaf.

*"Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd. Mesurir pellteroedd drwy'r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."*

## Diffiniadau

Mae **'Teuluoedd sy'n aelodau o'r Eglwys yng Nghymru'**, yn golygu lle mae o leiaf un rhiant yn mynychu'r Eglwys yng Nghymru yn rheolaidd ac yn mynychu'r eglwys o leiaf unwaith y mis. Bydd angen cadarnhad gan y clerigwyr plwyf perthnasol.

Mae **'Teuluoedd sy'n aelodau gweithredol o enwad Cristnogol arall'** yn golygu lle mae o leiaf un rhiant yn addolwr rheolaidd (o leiaf unwaith y mis) o fewn cymuned Gristnogol arall (wedi'i gofrestru gyda CYTUN - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru). Bydd angen cadarnhad gan arweinydd ffydd priodol.

Mae **'Teuluoedd sy'n aelodau o Gymuned Ffydd arall'** yn golygu lle mae o leiaf un rhiant yn addolwr rheolaidd (o leiaf unwaith y mis) o fewn cymuned Grefyddol gydnabyddedig arall (a gydnabyddir gan Gyngor Rhyng-ffydd Cymru). Bydd angen cadarnhad gan arweinydd ffydd priodol

Mae map o **ffiniau plwyfi** sy'n nodi'r **dalgylch** ar gael yn yr ysgol. Bydd pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei fesur gan Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol cymeradwy. (Gweler yr atodiad Map - Atodiad 1)

Mae **'Brawd neu Chwaer'** yn cynnwys hanner brawd neu chwaer, neu lysfrodyr neu lyschwiorydd sy'n preswylio'n barhaol yn yr un cyfeiriad. Rhaid i'r brawd neu chwaer hŷn barhau i fod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol ar y dyddiad y byddai'r disgybl sy'n gwneud cais am le yn dechrau yn yr ysgol.

## Ysgol Gynradd Saint Andras yr Eglwys yng Nghymru

Mae Ysgol Gynradd Saint Andras yr Eglwys yng Nghymru yn ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir sydd â naws Gristnogol nodedig. Mae'r polisi derbyn a gordanysgrifio yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- ethos Cristnogol yr ysgol a'i chysylltiadau agos â'i heglwysi Plwyf, sy'n pwysleisio pwysigrwydd gweddïo, addoli ac addysgu Cristnogol;
- ymrwymiad yr ysgol wrth gefnogi'r teulu, cyfle cyfartal a diffyg elitiaeth;
- ein rôl fel sefydliad addysgol lleol sy'n gwasanaethu'r gymuned leol;
- ein rôl fel ysgol sy'n cyflawni ei gofynion addysgol statudol.

## Dyddiadau cyflwyno ceisiadau

Dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer y Dosbarth Meithrin ac i'r Dosbarth Derbyn yn unol â dyddiadau derbyn i ysgolion Bro Morgannwg y cytunir arnynt a'u cyhoeddi yn flynyddol. Bydd yr holl ddyddiadau o ran derbyn i'r Meithrin a'r Dosbarth Derbyn yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw, gan gynnwys ar wefan yr ysgol ac mewn cylchlythyr wythnosol. Mae ceisiadau Dosbarth Derbyn yn cael eu gwneud trwy wefan Bro Morgannwg. Mae ceisiadau Meithrin yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r ysgol.

## Nifer derbyn

Cyfrifir capasiti'r ysgol gan ddefnyddio Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 021/2011- Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru. Capasiti'r ysgol yw 210 o ddisgyblion. Y Nifer Derbyn yw nifer y disgyblion y bydd y Corff Llywodraethu yn eu derbyn i grŵp blwyddyn yn yr ysgol a chaiff ei chyfrifo ar sail capasiti'r ysgol. Y Nifer Derbyn ar gyfer yr ysgol hon a gyfrifir gan yr Awdurdod Lleol yw **30.**

## Maint dosbarthiadau

Bydd yr ysgol yn sicrhau cydymffurfio a'r rheoliad statudol ar faint dosbarthiadau babanod a bydd dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 yn gyfyngedig i **30** o blant, yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn wir oni bai bod 'disgyblion a eithrir' yn cael eu derbyn yn dilyn penderfyniad gan y Panel Apeliadau Annibynnol, fel y nodir gan y rheoliadau maint dosbarthiadau.

## Derbyn i'r Dosbarth Meithrin

Mae darpariaeth Meithrin ran-amser ar gyfer uchafswm o 30 o blant ar gyfer naill ai lleoedd yn y bore neu yn y prynhawn (15 ym mhob sesiwn). Mae gan rieni yr hawl i wneud cais am le rhan-amser i'w plentyn, o ddechrau tymor yr hydref sy'n dilyn ei ben-blwydd yn dair oed. Y Pennaeth a fydd yn penderfynu ar leoedd y bore neu'r prynhawn.

## Derbyn i Ddosbarth Derbyn

Bydd plant sy'n bedair oed hyd at yn cynnwys ar 31 Awst mewn blwyddyn benodol yn gymwys i gael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi y flwyddyn honno. Fodd bynnag, gall rhieni ddewis gohirio hynny tan y tymor yn dilyn pen-blwydd eu plentyn yn bump oed. Yn achos genedigaethau'r haf, byddent yn cael eu derbyn felly i Flwyddyn 1.

Bydd pob ymgeisydd yn cael ei dderbyn hyd at y nifer derbyn, sef **30**. Pan fydd nifer y ceisiadau ar gyfer y dosbarth Derbyn yn fwy na'r nifer derbyn, caiff pob cais ei asesu yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio isod.

Pan fo nifer y ceisiadau am le mewn ysgol yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y Corff Llywodraethu'n gweithredu'r meini prawf a nodir isod, yn y drefn a nodir, i ddyrannu lleoedd hyd at y Nifer Derbyn.

Bydd y Corff Llywodraethu'n rhoi blaenoriaeth i:

1. Blant sy'n derbyn gofal a phlant a arferai dderbyn gofal
2. Bydd plant sydd â Chynllun Datblygu Unigol yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio os enwyd yr ysgol fel y lleoliad mwyaf priodol.
3. Plant rhieni sy'n mynychu'r eglwys Anglicanaidd yn rheolaidd ym Mhlwyf Saint Andras gyda Llanfihangel-y-pwll.
4. Plant sy'n byw ym Mhlwyf Saint Andras gyda Llanfihangel-y-pwll.
5. Plant rhieni sy'n byw y tu allan i'r plwyf ac yn mynychu eglwys Anglicanaidd.
6. Plant y mae eu rhieni am iddynt gael eu haddysgu yn Ysgol Gynradd Saint Andras yr Eglwys yng Nghymru.

Pan fo nifer yr ymgeiswyr o fewn categori yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd y meini prawf cymhwyso canlynol yn cael eu gweithredu:

1) Rhoddir blaenoriaeth ym mhob categori i blant sydd â brawd neu chwaer hŷn sydd eisoes yn mynychu Ysgol Gynradd Saint Andreas (o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 5) ar adeg gwneud y cais, a bydd yn mynychu gyda'u brawd neu chwaer pan fyddant yn cael eu derbyn. Pennir blaenoriaeth gan gyfeirio at y brawd/chwaer ieuengaf yn yr ysgol, gyda'r ieuengaf yn cael y flaenoriaeth uchaf.

2) Plant sy'n byw yn y plwyf lleol yn ôl agosrwydd at yr ysgol. Mae plwyf lleol yn golygu preswylio ym mhlwyf lleol Saint Andras (Dinas Powys) gyda Llanfihangel-y-pwll. Caiff pellter ei fesur yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel sydd ar gael o'r cartref i'r ysgol gan ddefnyddio'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a fabwysiedir gan Fro Morgannwg. Gellir gweld map sy'n dangos ffin y Plwyf yn yr ysgol.

3) Ar gyfer plant sy'n preswylio y tu allan i'r plwyf, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff pellter ei fesur yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel sydd ar gael o'r cartref i'r ysgol gan ddefnyddio'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS).

4) Os yw'r plentyn, wrth ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio, yr olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y llywodraethwyr yn derbyn y brodyr/chwiorydd eraill hefyd. Yn y Cyfnod Sylfaen byddai'r plant hyn yn cael eu hystyried yn blant eithriedig.

*Bydd pob plentyn nad yw'n cael cynnig lle yn cael ei roi ar restr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y mae wedi gwneud cais ar ei chyfer. Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni/gwarcheidwaid os daw lle ar gael.

*DIFFINIADAU:*

**Diffiniad o gymryd rhan weithredol mewn eglwys:**
Trwy gymryd rhan weithredol mewn eglwys deallwn y canlynol: bedydd; presenoldeb rheolaidd yn yr eglwys (o leiaf bob pythefnos); mynd i'r ysgol Sul. Bydd bedydd yn cael ei ystyried ochr yn ochr â phresenoldeb rheolaidd. Gofynnir i chi roi rhagor o fanylion ynghylch eich presenoldeb ar y ffurflen gais. Wrth ymdrin â cheisiadau sy'n seiliedig ar ymrwymiad ffydd, cysylltir ag offeiriaid plwyfi weinidogion lleol i wirio manylion y cais.

**Diffiniad plwyf lleol:**
Y plwyfi lleol yw Saint Andras, San Pedr a Llanfihangel-y-pwll. Gellir gweld map sy'n dangos ffin y Plwyf yn yr ysgol.

**Diffiniad brawd/chwaer**

At ddibenion derbyn, mae brawd neu chwaer yn cynnwys plentyn sy'n hanner brawd/chwaer (plant sy'n rhannu un rhiant cyffredin), llysfrawd/llyschwaer (sy'n byw yn yr un cyfeiriad am o leiaf ran o'r wythnos). Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad â brawd neu chwaer yn glir yn y cais.

**Pellter o'r ysgol:**
Bydd pellter i'r ysgol yn cael ei fesur o brif fynedfa cartref y teulu (man preswylio) i brif gât yr ysgol, gan ddefnyddio'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a fabwysiadwyd gan Gyngor Bro Morgannwg.

**Man preswylio:**
Ystyrir mai man preswylio arferol y plentyn yw'r eiddo preswyl lle mae'r person neu'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn preswylio ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i gael derbyn y plentyn i'r ysgol.
Os oes gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant ac mae'r bobl hynny'n byw mewn gwahanol eiddo, man preswyl arferol y plentyn fyddai'r eiddo y mae'r plentyn yn byw ynddo ran fwyaf yr wythnos, gan gynnwys penwythnosau.

## *NODIADAU:*

**Hysbysiad o benderfyniad y Llywodraethwyr:**

Bydd rhieni neu ofalwyr yr ymgeisydd yn cael gwybod am benderfyniad y Llywodraethwyr am dderbyn i'r Feithrin a'r Dosbarth Derbyn (ar gyfer y mis Medi canlynol) yn unol â dyddiadau cyhoeddedig yr Awdurdod Lleol.

**Hawl Apelio:**

Os na chynigir lle i blentyn, mae gan y rhieni hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Corff Llywodraethu. Dylid gwneud yr apêl yn ysgrifenedig o fewn 15 diwrnod o gael gwybod na chafodd plentyn le, a'i hysgrifennu at sylw Cadeirydd y Llywodraethwyr, d/o Ysgol Gynradd Sant Andreas yr Eglwys yng Nghymru, St Andrews Road, Dinas Powys, Bro Morgannwg, CF64 4HB.
Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan banel Apeliadau Derbyn i Ysgolion annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Llandaf, yn ôl Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion. Gwahoddir y rhieni i wrandawiad apêl o fewn 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith) wedi'r dyddiad y cyflwynir yr apêl i'r panel.
*** Nid yw Addysg Feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni hawl i apelio os yw eu cais am le mewn Dosbarth Meithrin yn aflwyddiannus.**

**Cymhwysedd y polisi hwn:**

Bydd fersiynau newydd o'r polisi derbyn a gordanysgrifio hwn yn effeithiol o 1 Medi (dechrau'r flwyddyn academaidd newydd) 12 mis calendr ar ôl i'r corff llywodraethu llawn ei fabwysiadu'n ffurfiol.

Mae hyn er mwyn sicrhau bod rhieni plant sy'n cael eu derbyn yn cael digon o rybudd o'r polisi gordanysgrifio wrth ddewis ysgol.

## YSGOL GYNRADD WIRFODDOL A GYNORTHWYIR YR EGLWYS YNG NGHYMRU SAINT-Y-BRID

1. Mae Cod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gyhoeddi ei drefniadau ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol. Nifer Derbyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid yw 30. Bydd y Corff Llywodraethu, sy'n Awdurdod Derbyn Ysgol Gynradd Saint-y-brid, yn ymgynghori ag awdurdodau derbyn ysgolion eraill yn yr ardal, h.y. Dewi Sant, Tregolwyn a'r Wig a Marcroes yn ogystal â Chyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth a Bro Morgannwg.

2. Nod y polisi hwn yw nodi'r gweithdrefnau i rieni sy'n gwneud cais am le yn yr ysgol ar gyfer 2024/2025 ac ystyried y ceisiadau hyn gan y Corff Llywodraethu. 3. Dylai rhieni sydd angen lle yn y dosbarth derbyn ar gyfer mis Medi 2024 gwblhau Ffurflen Gais Derbyniadau i Ysgolion yr Awdurdod Lleol a fydd ar eu gwefan o fis Tachwedd 2023 ac a fydd yn cau ym mis Ionawr 2024. www.bromorgannwg.gov.uk Ni warentir lle yn y dosbarth derbyn yn y flwyddyn ganlynol i'r plant sydd eisoes yn mynd i'r ysgol feithrin.

4. Bydd y Corff Llywodraethu yn ystyried ceisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau a rhoddir blaenoriaeth i: a. plant â Chynllun Datblygu Unigol a reolir gan yr Awdurdod Lleol (a elwid gynt yn Ddatganiad o Angen Addysgol Arbennig) lle mae'r ysgol yn cael ei henwi fel y lleoliad mwyaf priodol, b. plant sy'n derbyn gofal neu blant a arferai dderbyn gofal.

5. Os daw mwy o geisiadau i law na'r lleoedd sydd ar gael, caiff lleoedd eu dyrannu (o fewn pa un bynnag o'r categorïau y mae'r gordanysgrifio'n digwydd gyntaf) yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio (mewn trefn), fel a ganlyn: a. Plant sy'n preswylio yng nghymunedau Ewenni a Saint-y-brid yn rhannol neu yn llawn, fel y'u diffinnir gan y map amgaeedig. b. Plant nad ydynt yn byw yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol ar hyn o bryd, y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Corff Llywodraethu (drwy roi tystiolaeth ysgrifenedig briodol megis cytundeb rhent neu gadarnhad prynu tŷ), ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol cyn i'r tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo ddechrau.

6. Plant y bydd eu brawd neu chwaer hŷn (brawd neu chwaer lawn, hanner brawd neu chwaer neu lysfrawd neu lyschwaer) yn mynychu'r ysgol ar adeg cofrestru ar gyfer yr ysgol. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr o'r categori hwn yn unig, bydd y Llywodraethwyr yn blaenoriaethu ac yn dyrannu lleoedd yn ôl oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf a gaiff y flaenoriaeth uchaf.

7. a. Plant sydd â rhiant sy'n cymryd rhan weithredol ym mywyd yr Eglwys Anglicanaidd ac sy'n mynychu gwasanaeth yr Eglwys yng Nghymru o leiaf ddwywaith y mis yng nghymunedau Ewenni a Saint-y-brid, fel y'u diffinnir gan y map amgaeedig, ers cyfnod o chwe mis o leiaf neu bob mis ers symud i ddalgylch yr ysgol. b. Plant sydd â rhiant sy'n cymryd rhan weithredol ym mywyd yr Eglwys Anglicanaidd ac sy'n mynychu gwasanaeth o leiaf ddwywaith y mis ers cyfnod o chwe mis o leiaf. c. Plant sydd â rhiant sy'n cymryd rhan weithredol ym mywyd eglwys neu gapel nad yw'n Anglicanaidd ac sy'n mynychu gwasanaeth o leiaf ddwywaith y mis ers cyfnod o chwe mis o leiaf. (Bydd disgwyl i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am le o dan gategorïau 7a b ac c ddarparu geirda ffydd.)

8. Os yw nifer y ceisiadau am leoedd yn dal i fod yn fwy na'r nifer derbyn sef 30, rhoddir blaenoriaeth yn unrhyw un o'r categorïau uchod (mewn trefn) yn ôl pa mor agos at yr ysgol (fel y'i mesurir gan yr Awdurdod Lleol) y mae'r plant yn byw. Mae'r Cyngor yn defnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol.

9. Os na all yr ysgol dderbyn pob brawd a chwaer o enedigaeth luosog, ni dderbynnir yr un ohonynt.

10. Bydd plant yn cael eu hystyried i'w derbyn i'r grŵp blwyddyn sy'n cyfateb i'w hoedran cronolegol yn unig.

11. Bydd cynigion cadarn lleoedd ar gyfer derbyniadau 2024/2025 yn cael eu hanfon at rieni ym mis Ebrill 2024. Bydd ceisiadau am unrhyw grŵp blwyddyn, ar unrhyw adeg o'r flwyddyn (e.e. teuluoedd sydd wedi symud i'r dalgylch yn ddiweddar), yn cael eu hystyried gan y Llywodraethwyr ar gyfer unrhyw leoedd sydd ar gael yn y grŵp blwyddyn hwnnw. Dylech anfon unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniad y Llywodraethwyr i dderbyn plentyn at Glerc y Llywodraethwyr d/o yr ysgol o fewn 21 diwrnod wedi dyddiad y llythyr gwrthod. Caiff yna ei ystyried gan Banel Apeliadau Annibynnol. Os yw'r apêl yn aflwyddiannus, ni fydd ceisiadau pellach am le yn cael eu hystyried yn ystod yr un flwyddyn academaidd oni bai bod newidiadau sylweddol a materol yn amgylchiadau'r rhieni neu'r ysgol.

12. Gall rhieni y mae eu ceisiadau am dderbyn i'r dosbarth derbyn o ddechrau'r flwyddyn academaidd (y cyfeirir atynt hefyd fel 'derbyniadau arferol') yn aflwyddiannus ddewis cael eu rhoi ar restr aros rhag ofn y daw lle ar gael, ond bydd unrhyw restr aros o'r fath yn dod i ben ar 30 Medi. Ar ôl y dyddiad hwn, rhaid gwneud cais newydd. Bydd cais o'r fath yn cael ei drin fel 'cais yn ystod y flwyddyn'. (Gweler 13 isod.)

13. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus ar gyfer derbyn i'r dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 6 (cynhwysol) y daeth eu cais i law y tu allan i'r cylch derbyn arferol (y cyfeirir ato fel 'cais yn ystod y flwyddyn'), yn aros ar restr aros tan ddiwedd y tymor y byddai'r plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Os yw rhiant yn dymuno i'w blentyn barhau i gael ei ystyried i'w dderbyn i'r ysgol ar ôl y dyddiad y mae'r rhestr aros yn dod i ben, rhaid cyflwyno cais newydd. Sylwer: Yn achos pwyntiau 12 a 13 uchod, ni chaiff lleoedd eu blaenoriaethu ar sail pa mor hir y mae plentyn wedi bod ar restr aros. Pennir blaenoriaeth yn ôl y Meini Prawf Gordanysgrifio. Ystyrir ceisiadau yn unol â'r meini prawf a chaiff unrhyw leoedd sy'n dod ar gael eu dyrannu ar y sail honno. Gallai safle plentyn ar y rhestr aros newid, gan y gallai ceisiadau ddod i law sydd â blaenoriaeth uwch dan y meini prawf gordanysgrifio.

14. Ni chaiff ceisiadau ac apeliadau hwyr ond eu derbyn os oes rheswm da am fod yn hwyr.

15. Y Corff Llywodraethu fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi hwn. Yn ôl gofynion deddfwriaeth, caiff ei adolygu'n flynyddol. Mae'r polisi hwn wedi'i dderbyn gan y Corff Llywodraethu, fel yr amlinellir yng nghofnodion cyfarfod y corff llawn.

**Derbyniadau Meithrin:** Bydd derbyniadau i'r ysgol feithrin yn dilyn yr un set o feini prawf â'r prif bolisi derbyn. Fodd bynnag, nid oes hawl i apelio os nad yw'r ysgol yn cynnig lle. Nid yw derbyn i'r ysgol feithrin yn gwarantu lle yn y dosbarth derbyn y flwyddyn ganlynol. Gwneir hyn drwy gyflwyno cais arall. Bydd hyd at 48 o leoedd yn cael eu cynnig 3 gwaith y flwyddyn (ym mis Mehefin, mis Tachwedd a mis Mawrth) ar gyfer plant sy'n troi'n 3 oed cyn dechrau'r tymor priodol. (Mae gan y termau a ddefnyddir yn y polisi hwn yr ystyron a nodir yn y Cod Derbyn i Ysgolion neu'r Ddeddfwriaeth Ategol.)

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant

### POLISI DERBYN YR YSGOL

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â naws Gristnogol gadarn a nodedig. Adlewyrchir hyn ym mywyd cyfan yr ysgol. Mae'r ysgol ym mhentref hardd Tregolwyn, hanner ffordd rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a'r Bont-faen. Mae'r ysgol yn gwasanaethu plwyf* Tregolwyn, Llyswyrni a Llandŵ, o fewn Ardal Weinidogaeth y Bont-faen. Ond nid yn unig, gan y gall yr ysgol, yn unol â'r Weithred Ymddiriedolaeth, dderbyn disgyblion y tu hwnt i ffiniau'r plwyf. Felly, os oes lleoedd ar gael yn yr ysgol a chyda chytundeb y Corff Llywodraethu, gellir derbyn plant o'r tu allan i'r plwyfi.

**Nifer Derbyn yr Ysgol**

Rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at eu nifer derbyn cyhoeddedig. Nid oes modd gwrthod cais derbyn i ysgol nes cyrraedd y nifer derbyn. Mae'r nifer derbyn cyhoeddedig wedi ei chyfrifo'n unol â methodoleg cyfrifo capasiti ysgolion Llywodraeth Cymru, sef "Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru (MCYNg)". Gan fod y nifer hwn wedi ei seilio ar le ffisegol mewn ysgolion i gynnal disgyblon, ni ddylid mynd yn uwch nag ef mewn amgylchiadau arferol.

Bydd gan yr ysgol 21ain Ganrif newydd le ar gyfer 210 o ddisgyblion cyfwerth ag amser llawn ynghyd â 32 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Y nifer derbyn yw nifer y disgyblion y bydd y Corff Llywodraethu'n eu derbyn i grŵp blwyddyn yn yr ysgol a chaiff ei chyfrifo ar sail nifer y lleoedd sydd gan yr ysgol. Y nifer derbyn ar gyfer yr ysgol hon a gyfrifir gan yr Awdurdod Lleol yw **30**.

**Rheoliadau Maint Dosbarthiadau Babanod**

Cyflwynodd y Llywodraeth bolisi i leihau maint dosbarthiadau ar gyfer plant pump, chwech a saith oed, yn rhan o'i nod gyffredinol i wella safonau addysg mewn ysgolion.

Mae Adran 1 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 a Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) 1998, a ddaeth i rym ar 1 Medi 1998, yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i gyfyngu maint dosbarthiadau plant 5, 6 a 7 oed i 30 o fis Medi 2001, h.y. plant dosbarth derbyn a blynyddoedd 1 a 2. Ni fydd unrhyw ddosbarth Cyfnod Sylfaen yn cynnwys mwy na 30 o ddisgyblion, ac eithrio pan fo eithriadau a ganiateir.

Mae'r eithriadau'n cynnwys:-

- Genedigaeth luosog, pe bai'n golygu gwahanu plant oherwydd bod un ohonynt yn

blentyn rhif 31.

- O fewn capasiti rhesymol os caiff staff milwrol eu lleoli i'r ardal ar ôl y dyddiad cau ac os oes ganddynt y dogfennau cywir i gadarnhau hyn.

Nid oes gofyn i awdurdodau derbyn dderbyn plentyn i ddosbarth babanod pe byddai gwneud hynny'n mynd yn groes i'r ddyletswydd i fodloni terfynau maint dosbarthiadau babanod, oherwydd byddai derbyn y plentyn yn gofyn am fesurau i gydymffurfio â'r terfynau hynny a fyddai'n cyfaddawdu ar addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Ar gyfer dosbarthiadau grwpiau blwyddyn cymysg a bennwyd ym mis Medi, dim ond os yw'r nifer derbyn ar gyfer y ddau grŵp blwyddyn eisoes wedi'i chyrraedd y gall awdurdodau derbyn wrthod derbyn yng nghanol blwyddyn ar sail anfantais oherwydd maint dosbarth babanod.

**Dyddiadau cyflwyno ceisiadau**

Dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer lle yn yr Ysgol Feithrin a'r Dosbarth Derbyn yn unol â dyddiadau derbyn ysgolion Bro Morgannwg y cytunir arnynt ac sy'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol. https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/admissions/School-Admissions.aspx

Ni ystyrir **Ceisiadau Hwyr** a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau nes bod cynigion wedi'u gwneud i'r rhai a wnaeth eu ceisiadau cyn y dyddiad cau, ac y daw ymatebion y rhieni/gofalwyr hynny i law.  Mae hyn yn golygu, os yw'r ysgol wedi'i gordanysgrifio ac mae ymgeisydd hwyr yn bodloni maen prawf uwch na'r rhai y cynigiwyd lleoedd oddi tanynt i ymgeiswyr eraill, bydd yn dal yn aflwyddiannus.

**Cydraddoldeb**

Rhoddir cyfle cyfartal i bob plentyn gymryd lle yn Ysgol Gynradd Dewi Sant, waeth beth fo'i ryw, ethnigrwydd, cyrhaeddiad, anabledd neu gefndir diwylliannol, cymdeithasol neu ieithyddol. Mae gwahaniaethu o unrhyw fath yn erbyn y nodweddion gwarchodedig hyn yn annerbyniol ac mae Llywodraethwyr yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, ar yr amod bod yr ymgeiswyr yn bodloni meini prawf y Polisi Derbyn.

Mae cynllun Archwilio Anabledd manwl yn amlinellu'r mesurau rhesymol y mae'r ysgol yn eu cymryd i sicrhau mynediad i bawb ac atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Lle bynnag y bo'n ymarferol ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael, mae'r ysgol yn barod i addasu'r amgylchedd corfforol, y gweithdrefnau, y deunyddiau addysgu ac adnoddau eraill (mae rampiau cadair olwyn a thoiled i'w defnyddio gan bobl anabl eisoes wedi'u gosod), er mwyn galluogi disgyblion anabl i gael mynediad llawn at y cwricwlwm cenedlaethol ac ehangach. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr ysgol wneud cais i addasu neu i ddatgymhwyso'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion y plentyn.

**<u>TREFNIADAU DERBYN I'R DOSBARTH MEITHRIN</u>**

Mae 24 o leoedd yn uned feithrin foreol Dewi Sant. Bydd darpariaeth gofal plant gofleidiol, Colwinston Childcare, yn defnyddio'r ystafell yn y prynhawn. Mae gan blant hawl i gael lle meithrin rhan-amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Gallant hefyd gofrestru ar gyfer gofal plant y mae'n rhaid talu amdano. Os yw'r rhieni'n gymwys, gallant hefyd wneud cais am Gynnig Gofal Plant Cymru, sef 30 awr a ariennir yn rhannol, i gael lle yn y prynhawn.

**Ffurflenni Cais**

Mae ffurflenni cais derbyn ar gael ar gais o swyddfa'r ysgol neu gellir eu lawrlwytho o'r wefan. Dylid cyflwyno ceisiadau am leoedd Meithrin yn **uniongyrchol i'r ysgol** erbyn y diwrnod ysgol olaf cyn hanner tymor mis Chwefror.

Bydd y Corff Llywodraethu'n ystyried pob cais unigol a ddaw i law erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Bydd rhieni'n cael gwybod am y penderfyniad ar ddiwrnod olaf tymor y gwanwyn, cyn gwyliau'r Pasg. Os ceir mwy na 24 o geisiadau am leoedd meithrin, **byddai'r un meini prawf gordanysgrifio yn cael eu gweithredu ag a nodir ar gyfer dyrannu lleoedd yn y dosbarth Derbyn.** Os oes lleoedd gwag, yna bydd yr ysgol yn derbyn rhagor o blant 3 oed bob tymor. (Ar ôl y Nadolig ac ar ôl y Pasg.)

Nid ystyrir i ba ysgol fabanod neu gynradd benodol y mae'r plentyn yn debygol o fynd iddi ar ôl hynny, na'r cyfnod y mae'r ysgol wedi bod yn ymwybodol o fwriad y rhieni i wneud cais am le yn yr ysgol.

Dylai rhieni gofio na fydd gan blant sy'n mynychu ysgol feithrin hawl 'awtomatig' i barhau â'i addysg yn yr un ysgol wrth symud i fyny i'r dosbarth derbyn. Bydd yn ofynnol i holl rieni plant mewn dosbarth meithrin sydd i fod i ddechrau dosbarth derbyn y flwyddyn ganlynol, boed yn byw yn nalgylch yr ysgol neu'r tu allan iddi, lenwi ffurflen gais erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig.

**Gan nad yw addysg feithrin yn ddarpariaeth statudol, nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio o dan y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion os nad yw eu cais am le mewn meithrinfa yn llwyddiannus.**

**TREFNIADAU DERBYN I'R DOSBARTH DERBYN**

***(Gan gynnwys unrhyw blentyn sy'n ymuno ag un o'r blynyddoedd hŷn)***

**Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn rhoi hawl uniongyrchol i'r plentyn hwnnw gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol.**

Caiff plant eu derbyn ym mis Medi yn ystod blwyddyn academaidd eu pen-blwydd yn bump oed (mae'r flwyddyn academaidd yn rhedeg o 1 Medi 2025 i 31 Awst 2026).

Fel arfer, ar gyfer Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir, Corff Llywodraethu'r ysgol yw ei Hawdurdod Derbyn.  Fodd bynnag, yn dilyn ymgynghoriad i gyflwyno cynllun peilot ar gyfer trefniadau derbyn cydlynol ar gyfer grŵp oedran y dosbarth derbyn ym mlwyddyn academaidd 2021-22, mae'r corff llywodraethu wedi cytuno i gymryd rhan yn y cynllun ar gyfer 2025-26. Dylid gwneud cais am leoedd yn nosbarth derbyn 2025-26 gan ddefnyddio gwasanaeth ymgeisio ar-lein Cyngor Bro Morgannwg.
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/admissions/primary/Primary-School-Admissions.aspx

**Meini Prawf Gordanysgrifio:**

Pan fo'r un nifer neu lai o geisiadau yn dod i law na'r nifer derbyn yna caiff **pawb** eu derbyn.

Os nad oes digon o leoedd i bawb sy'n gwneud cais am le ac sy'n gymwys dan unrhyw un o'r categorïau, caiff lleoedd eu hystyried yn ôl agosrwydd* man preswylio'r* ymgeiswyr i'r ysgol os mai Dewi Sant yw'r Ysgol Eglwysig agosaf atynt.

**Bydd plant â Datganiad o Angen Addysgol neu Gynllun Datblygu Unigol yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio os enwyd yr ysgol fel y lleoliad mwyaf priodol.**

1. Plant "sy'n Derbyn Gofal" a phlant "a Arferai Dderbyn Gofal".
2. Plant sydd â brawd neu chwaer* sy'n ddisgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol ar y dyddiad y mae'r plentyn sy'n gwneud y cais i fod i ddechrau yn yr ysgol. (Yn nhrefn blaenoriaeth: brodyr a chwiorydd cyntaf yn y Dosbarth Derbyn, yna Blwyddyn 1, yna Blwyddyn 2, yna Blwyddyn 3, yna Blwyddyn 4, yna Blwyddyn 5 ac yn olaf Blwyddyn 6)
3. Plant sy'n byw yn ein plwyfi.
4. Plant sy'n byw y tu allan i blwyfi'r ysgol, sy'n gallu dangos eu bod yn cymryd rhan weithredol* yn y gymuned Gristnogol.
5. Plant sy'n byw y tu allan i blwyfi'r ysgol, sy'n gallu dangos eu bod yn cymryd rhan weithredol* mewn cymuned ffydd arall.
6. Plant y mae eu teuluoedd yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

**Y Weithdrefn Apelio**
Mae gan rieni/gofalwyr na chynigir lle i'w plentyn hawl i apelio i bwyllgor apêl annibynnol dan y Deddfau Addysg. Dylai rhieni sy'n dymuno apelio lenwi'r ffurflen apêl fydd ynghlwm wrth y llythyr sy'n rhoi gwybod iddynt nad yw eu plentyn wedi cael cynnig lle. Dylid anfon y ffurflen at sylw Clerc y Llywodraethwyr o fewn 15 diwrnod wedi cael gwybod am y penderfyniad. Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan banel Apeliadau Derbyn i Ysgolion annibynnol yn ôl Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion.

**Trafnidiaeth**

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig trafnidiaeth ysgol am ddim i blant oed meithrin heblaw am y rhai sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded yr ysgol briodol agosaf.

*"Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd. Mesurir pellteroedd drwy'r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."*

Ar hyn o bryd mae'r P121 yn gwasanaethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant o'r Bont-faen drwy bentrefi lleol. Gweler y map.

Y Corff Llywodraethu fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi hwn. Yn ôl gofynion deddfwriaeth, caiff ei adolygu'n flynyddol.

*

***Diffiniad o frawd neu chwaer**: brawd/chwaer; neu lysfrawd/llyschwaer; neu hanner brawd/hanner chwaer wedi'i fabwysiadu neu ei faethu ac sy'n preswylio'n barhaol yn yr un cyfeiriad.*

***Agosrwydd**: mesurir pellter o'r ysgol gan ddefnyddio'r system a fabwysiadwyd gan Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer pob ysgol a gynhelir o fewn y fwrdeistref sirol.*

***Man preswylio:** Ystyrir mai man preswylio arferol y plentyn yw'r eiddo preswyl lle mae'r person neu'r personau sydd â chyfrifoldeb rhianta dros y plentyn yn preswylio ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i dderbyn y plentyn i ysgol. Os oes gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant, a bod y bobl hynny'n byw mewn gwahanol eiddo, man preswyl arferol y*

*plentyn fyddai'r eiddo y mae'r plentyn yn byw ynddo am y rhan fwyaf o'r wythnos, gan gynnwys penwythnosau.*

***Plwyf:*** *tri phlwyf Tregolwyn, Llandŵ a Llyswyrni; a Bywoliaeth Reithorol ehangach y Bont-faen. Gweler y map atodol.*

***Rhestr Aros****: mae'r ysgol yn gweithredu rhestr aros yn unol â'r Meini Prawf Gordanysgrifio. Rhoddir plant ar y rhestr aros mewn safle sy'n adlewyrchu'r meini prawf, heb ystyried y dyddiad y cawsant eu rhoi ar y rhestr. Caiff y rhestr hon ei chynnal tan 30 Medi.*

***Cymryd Rhan Weithredol mewn Cymuned Gristnogol:*** y rhai sydd wedi cael eu Bedyddio neu sy'n mynychu addoliad Cristnogol ddydd Sul gan amlaf ( ac mae hyn wedi'i ddilysu gan offeiriad y plwyf).

## Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Helen

**Cyflwyniad**

Mae Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen yn ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir a sefydlwyd gan Archesgobaeth Caerdydd. Mae'r ysgol ar ddau safle. Mae disgyblion 3-7 oed yn cael eu haddysgu ar safle Maes Y Cwm Street a disgyblion 7-11 oed ar safle Tynewydd Road.

Gwneir ceisiadau derbyn i'r ysgol gyfan ac nid i safle penodol. Y cod post ar gyfer yr ysgol yw CF63 4EH.

Y Corff Llywodraethu yn unig sy'n gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgol. Dim ond y corff llywodraethu all dderbyn ac ni all unrhyw gynrychiolaeth a wneir gan unrhyw berson gan gynnwys llywodraethwr, aelod o staff, clerigwyr neu unrhyw aelod o'r awdurdod lleol gael ei hystyried yn gynnig neu addewid o le. Dim ond cynnig ysgrifenedig ar ran y Corff Llywodraethu y gellir ei dderbyn fel cynnig o le yn Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen.

Mae Santes Helen yn gwasanaethu'r Plwyfi canlynol yn y Barri a Bro Morgannwg.

Santes Helen, y Barri gan gynnwys Sili a'r Rhws

Y Santes Fair ac Illtud Sant, Llanilltud Fawr

St Cadocs, y Bont-faen

**Nifer Derbyn**

Y nifer derbyn i'r ysgol Gynradd yw 44. Yn ogystal â'r niferoedd derbyn, mae deddfwriaeth y Llywodraeth yn nodi na fydd unrhyw blentyn 5-7 oed mewn dosbarth lle ceir mwy na 30 o ddisgyblion fel yr amlinellir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn rhoi hawl i rieni fynegi ysgol benodol o'u dewis ar gyfer eu plant. Gwneir derbyniadau i Ysgol Santes Helen yn unol â dewis rhieni, os oes lleoedd ar gael.

Os daw mwy o geisiadau i law'r Corff Llywodraethu na'r 44 lle sydd ar gael, bydd yn gweithredu'r meini prawf gordanysgrifio isod er mwyn penderfynu ar bob cais.

Mae'r polisi yma'n rhoi ystyriaeth ddyledus i God Derbyn Llywodraeth Cymru 2013.

**Meini Prawf Gordanysgrifio**

Caiff plant eu derbyn yn unol â'r drefn flaenoriaeth isod:

Rhoddir blaenoriaeth i Blant sy'n Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 **ym mhob categori.** Rhoddir yr un blaenoriaeth hefyd i Blant a Arferai Dderbyn Gofal. (Cod 2.32)

Rhoddir blaenoriaeth hefyd i gais plentyn sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Gynllun Datblygu Unigol sy'n enwi Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen. (Cod 3.51)

1. Plant Catholig sydd wedi cael eu bedyddio yn yr Eglwys Gatholig fydd â brawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd)

2. Plant Catholig sydd wedi cael eu bedyddio yn yr Eglwys Gatholig. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd).

3. Plant Cristnogol sydd wedi cael eu bedyddio mewn enwad Cristnogol arall y bydd ganddynt frawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd neu lythyr gan weinidog yr efengyl).

4. Plant Cristnogol sydd wedi cael eu bedyddio mewn enwad Cristnogol arall. (Rhaid cyflwyno tystysgrif bedydd neu lythyr gan weinidog yr efengyl).

5. Plant o grefyddau eraill y bydd ganddynt frawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen lle nad oes darpariaeth i'r plant fynychu ysgol o'u ffydd eu hunain yn yr ardal (angen llythyr gan weinidog crefyddol).

6. Plant o grefyddau eraill lle nad oes darpariaeth i'w plant fynychu ysgol o'u ffydd eu hunain yn yr ardal (angen llythyr gan weinidog crefyddol).

7. Plant fydd â brawd neu chwaer ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen, y mae eu rhieni'n chwilio am amgylchedd Catholig ar gyfer addysg eu plentyn ac y mae addysg Gatholig yn brif ystyriaeth ganddynt. Dylid ysgrifennu llythyr ategol at y Corff Llywodraethu yn nodi'r bwriad hwn yn glir.

8. Plant y mae eu rhieni'n chwilio am amgylchedd Catholig ar gyfer addysg eu plentyn ac y mae addysg Gatholig yn brif ystyriaeth ganddynt. Dylid ysgrifennu llythyr ategol at y Corff Llywodraethu yn nodi'r bwriad hwn yn glir.

Gall y Corff Llywodraethu dderbyn unrhyw blentyn heb ystyriaeth i'r Meini Prawf uchod (ac eithrio ymgeiswyr yng nghategori 1 a 2) sy'n dangos rhesymau meddygol eithriadol. Rhaid i dystiolaeth o blaid cais o'r fath gael ei chefnogi gan lythyr/adroddiad meddygol gan ymgynghorydd proffesiynol neu'r gwasanaethau cymdeithasol ar adeg y cais, gan nodi'n glir pam mai Santes Helen yw'r ysgol fwyaf addas ac amlinellu unrhyw anawsterau i fynychu ysgol awdurdod lleol. (Cod 2.39)

**Torri'r Ddadl**

Os na all y Corff Llywodraethu dderbyn pob cais sy'n bodloni'r meini prawf isaf, bydd gofyn torri'r ddadl trwy roi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol, fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Defnyddir System Ddaearyddol Annibynnol (GIS) yr awdurdod lleol, i gyfrifo pellteroedd cartref i ysgol. Pennir hyn o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd at giât yr ysgol ar Maes y Cwm Street.

**Nodiadau Canllaw**

I wneud cais am le yn Ysgol Gynradd Santes Helen, **rhaid** i riant/gwarcheidwad ddarparu'r dogfennau canlynol: Tystysgrifau bedydd a geni ynghyd â'r ffurflen gais derbyn sydd ar gael gan yr ysgol. Dylid darparu tystiolaeth o gyfeiriad y cartref hefyd.

**Brodyr a chwiorydd**

At ddibenion derbyn, mae brawd/chwaer yn frawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant ag un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer, sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad brawd neu chwaer yn y cais.

**Genedigaethau Lluosog (e.e. gefeilliaid neu dripledau)**

Os bydd y plentyn olaf i gael ei dderbyn yn blentyn genedigaeth luosog, bydd y brodyr/chwiorydd sy'n weddill hefyd yn cael eu derbyn fel eithriadau.

**Plant aelodau o Luoedd Arfog y DU a gweision eraill y Goron (gan gynnwys diplomyddion)**

Mae plant personél Lluoedd y DU a gweision eraill y Goron yn symud yn aml o fewn y DU a thramor, yn aml ar fyr rybydd. Rhaid dyrannu llefydd ysgol i blant a'u teuluoedd cyn y flwyddyn ysgol sy'n agosáu os ceir llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) neu'r Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO) yn datgan dyddiad dychwelyd. Gellir rhoi statws wedi ei eithrio i blant Lluoedd y DU at ddibenion maint dosbarth babanod wrth gael eu derbyn i ysgol y tu allan i'r rownd dderbyn arferol. (Cod 3.65)

**Ceisiadau Hwyr**

Byddwn ond yn ystyried ceisiadau a fydd yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd. Caiff ffurflenni cais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd eu prosesu yn yr un ffordd, ond fe'u hystyrir ar ôl yr holl geisiadau a ddaeth i law mewn pryd. Gallai hyn olygu efallai na fydd lle ar gael yn yr Ysgol. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall cais hwyr gael ei ystyried gan y Corff Llywodraethu ar yr un pryd â'r rownd gychwynnol o geisiadau. (Cod 3.15)

**Rhestr Aros**

Pan fo cais wedi ei wrthod, bydd yr ymgeisydd yn cael ei roi ar restr aros. Bydd ceisiadau sy'n dod i law yn ystod y dyraniadau llefydd blynyddol yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn dderbyn.

Bydd ceisiadau sy'n dod i law y tu allan i'r dyraniadau llefydd blynyddol yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn dderbyn. Wedi'r amser hwn disgwylir i'r rhieni gyflwyno cais derbyn o'r newydd.

**Yr Hawl i Apelio**

Dilynir manylion y weithdrefn yn unol â Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apeliadau Derbyn) (Cymru) 2005; os ystyrir apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y Corff Llywodraethu ynghylch derbyn, gellir cael gwybodaeth gan y Pwyllgor Apeliadau Derbyn:

d/o Clerc y Corff Llywodraethu

Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen

Maesycwm Street

Y Barri

CF63 4EH

StHelenscps@valeofglamorgan.gov.uk

## Ysgol Gynradd Gatholig Joseff Sant

**Polisi Derbyn**

Y Corff Llywodraethu yn unig sy’n gyfrifol am dderbyn disgyblion i’r ysgol. (Nid yw'r polisi hwn yn ymwneud â dosbarth Meithrin Sant Joseff.)

O fis Medi 2021 ymlaen, mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydlynu mynediad i Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff. Yn y lle cyntaf, mae rhieni a gofalwyr yn gwneud cais drwy wasanaeth gwneud cais derbyn ar-lein Bro Morgannwg. Ar ôl y dyddiad cau, bydd rhieni a gofalwyr yn cael gwybod gan Fro Morgannwg am y canlyniadau, tua thri mis yn ddiweddarach, pan ofynnir iddyn nhw dderbyn y lle. Mae amserlen ar gyfer y broses o wneud cais i'w gweld ar wefan Derbyniadau Bro Morgannwg. Ar ôl cael cadarnhad o dderbyn, bydd Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yn cysylltu â rhieni a gofalwyr i gwblhau ffurflen gais ysgol fanylach a darparu'r holl dystiolaeth ategol angenrheidiol fel y manylir isod.

Mae 30 o leoedd yn Nosbarth Derbyn yr ysgol. Rhaid i blant fod yn bum mlwydd oed o leiaf rhwng 1 Medi a 31 Awst cyn cael mynd i’r Dosbarth Derbyn.

Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Adran (86) yn rhoi hawl i rieni fynegi ysgol o ddewis o ran lle ysgol ar gyfer eu plant. Os yw nifer y ceisiadau sy’n dod i law ar gyfer Medi 2022-2023 yr un faint â neu’n is na’n nifer derbyn a nodir, yna rhoddir lle i bawb sydd wedi gwneud cais.

Mae'r polisi yma'n rhoi ystyriaeth ddyledus i God Derbyn Llywodraeth Cymru 2013.

Os oes mwy o geisiadau am leoedd na nifer derbyn a nodir yr ysgol, bydd y Meini Prawf Gordanysgrifio canlynol yn cael eu gweithredu:

**Meini Prawf Gordanysgrifio:** Bydd y Corff Llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth fel a ganlyn:

1. Rhoddir blaenoriaeth i Blant sy’n Derbyn Gofal (PDG) gan yr Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 Deddf Plant 1989 ym mhob categori. Rhoddir blaenoriaeth gydradd hefyd i Blant a Arferai Dderbyn Gofal (Cod 2.32)
2. Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Gynllun Datblygu Unigol sy'n enwi Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff. (Cod 3.51).
3. Plant Catholig bedyddiedig sy'n byw ym Mhlwyfi Sant Joseff, Penarth a’r Santes Fair Dinas Powys (Mae ffiniau'r plwyf yn unol â ffiniau Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ym Mhenarth a Dinas Powys).
4. Plant Catholig bedyddiedig sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar hyn o bryd
5. Plant Catholig bedyddiedig sy'n byw y tu allan i Blwyfi Joseff Sant, Penarth a’r Santes Fair Dinas Powys
6. Brodyr neu chwiorydd plant sydd eisoes yn yr ysgol
7. Plant y mae eu rhieni'n Gatholigion bedyddiedig
8. Plant bedyddiedig o enwadau Cristnogol eraill
9. Plant nad ydynt yn Gatholig ac mae'r rhieni'n deall ac yn derbyn y bydd eu plentyn/plant yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd sy'n adlewyrchu gwerthoedd Cristnogol. Bydd gofyn ysgrifennu llythyr ategol at y Corff Llywodraethu yn nodi’r bwriad hwn yn glir.

Os oes dau neu fwy o ymgeiswyr yn gwneud cais am un lle ac mae’r Corff Llywodraethu’n methu â’u gwahanu gan ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio uchod, bydd y lle'n cael ei ddyrannu ar sail agosrwydd at yr ysgol, a bennir gan y Cynllunio Strategol ac Adran Perfformiad yr Awdurdod Lleol. Defnyddir System Ddaearyddol Annibynnol (GIS) yr awdurdod lleol, i gyfrifo pellteroedd cartref i ysgol. Pennir hyn o gyfeiriad cartref yr ymgeisydd at giât yr ysgol ar Sully Road.

Mae gan ymgeiswyr aflwyddiannus hawl statudol i apelio. Bydd unrhyw apêl o'r fath yn dod gerbron Panel Apeliadau Annibynnol a bydd penderfyniad y panel yn derfynol. Mae manylion y broses apêl ar gael ar gais gan Swyddog Gweinyddol yr Ysgol**: Swyddog Gweinyddol yr Ysgol, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Sully Road, Penarth, Bro Morgannwg. CF64 2TQ**

**Mynychu’r Dosbarth Meithrin**

Nid yw mynychu’r dosbarth meithrin yn Joseff Sant o anghenraid yn golygu bod hawl gan blentyn i le yn nosbarth derbyn yr un ysgol. Rhaid gwneud cais ar wahân erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd os yw'r cais i gael ei ystyried yn y rownd gyntaf o ddyraniadau.

Bydd Ffurflenni Cais Derbyn ar gyfer Dosbarth Derbyn Medi 2022/2023 ar gael o safle Derbyn Bro Morgannwg a swyddfa'r ysgol.

**Nifer Derbyn yr Ysgol**

Rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at eu nifer derbyn cyhoeddedig. Y nifer derbyn ar gyfer Ysgol Gatholig Sant Joseff yw 30.

Mae’r nifer derbyn cyhoeddedig wedi ei gyfrifo’n unol â methodoleg cyfrifo capasiti ysgolion Llywodraeth Cymru, sef “Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru (MCYC)”.

**Rheoliadau Maint Dosbarthiadau Babanod**

Mae’r Llywodraeth wedi cyflwyno polisi i leihau maint dosbarthiadau ar gyfer plant pump, chwech a saith oed, yn rhan o’i nod gyffredinol i wella safonau addysg mewn ysgolion.

Mae Adran 1 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Maint Dosbarthiadau Babanod) 2013, yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i gyfyngu maint dosbarthiadau plant 5, 6 a 7 oed i 30, h.y. plant dosbarth derbyn a Blynyddoedd 1 a 2. Felly, ni fydd unrhyw ddosbarth Cyfnod Sylfaen yn cynnwys mwy na 30 o ddisgyblion, ac eithrio pan fo eithriadau a ganiateir.

Nid oes gofyn i awdurdodau derbyn dderbyn plentyn i ddosbarth babanod pe byddai gwneud hynny'n mynd yn groes i'r ddyletswydd i fodloni terfynau maint dosbarthiadau babanod, oherwydd byddai derbyn y plentyn yn gofyn am fesurau i gydymffurfio â'r terfynau hynny a fyddai'n cyfaddawdu ar addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Dim ond pan fo’r nifer derbyn wedi ei gyrraedd y gall yr ysgol wrthod derbyn ar sail anfantais i faint dosbarth babanod.

**Tystiolaeth Ategol**

I wneud cais am le yn Ysgol Gynradd Sant Joseff, rhaid i riant/gwarcheidwad ddarparu'r dogfennau canlynol:

- Ffurflen gais derbyn (ar gael gan yr ysgol)
- Tystysgrif geni
- Prawf preswylio. Ystyrir mai man preswylio arferol y plentyn yw’r eiddo preswyl lle mae'r person neu'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn preswylio ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i dderbyn y plentyn i'r ysgol. Os oes gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant ac mae’r bobl hyn yn byw mewn gwahanol eiddo, man preswyl arferol y plentyn fyddai’r eiddo y mae’r plentyn yn byw ynddo ran fwyaf yr wythnos, gan gynnwys penwythnosau (h.y. nosweithiau allan o 7).
- Os ydych wedi nodi bod eich plentyn wedi’i fedyddio’n Gatholig neu wedi'i dderbyn i'r Eglwys Gatholig, mae angen cyflwyno tystiolaeth gyda'r cais. Gall tystiolaeth gynnwys Tystysgrif Bedydd neu gadarnhad ysgrifenedig gan offeiriad.

**Brodyr a chwiorydd**

At ddibenion derbyn, brawd/chwaer yw brawd/chwaer, hanner brawd/chwaer (plant ag un rhiant yn gyffredin) neu lysfrawd/llyschwaer sef pan fydd dau blentyn yn perthyn drwy briodas. Mae’r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys plant a fabwysiadwyd neu blant maeth sy’n byw yn yr un cyfeiriad. Rhaid nodi unrhyw gysylltiad brawd neu chwaer yn y cais.

**Ceisiadau Hwyr**

Dim ond ceisiadau a fydd yn ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd a gaiff eu hystyried yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd. Caiff ffurflenni cais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd eu prosesu yn yr un ffordd, ond fe'u hystyrir ar ôl yr holl geisiadau a ddaeth i law yn brydlon. Gallai hyn olygu efallai na fydd lle ar gael yn yr ysgol. Mewn amgylchiadau eithriadol gall cais hwyr gael ei ystyried gan y corff llywodraethu ar yr un pryd â'r rownd gyntaf o geisiadau. (Cod 3.15)

**Rhestr Aros**

Pan fo cais wedi ei wrthod, bydd yr ymgeisydd yn cael ei roi ar restr aros. Bydd ceisiadau sy'n dod i law yn ystod y dyraniadau llefydd blynyddol yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn dderbyn.

Bydd ceisiadau sy'n dod i law y tu allan i'r dyraniadau blynyddol yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi ar ôl i'r cais ddod i law. Wedi hynny, bydd disgwyl i'r rhieni wneud cais arall os am barhau ar y rhestr aros.

**Yr Hawl i Apelio**

Dilynir manylion y weithdrefn yn unol â Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apeliadau Derbyn) (Cymru) 2005 os ystyrir gwneud apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad gan y Corff Llywodraethu ar dderbyn, gellir cael gwybodaeth gan y Pwyllgor Apeliadau Derbyn:

d/o Clerc i'r Corff Llywodraethu

Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff

Sully Road

Penarth

CF64 2TQ

stjosephsps@valeofglamorgan.gov.uk

## Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

**Polisi Derbyn a Meini Prawf Gordanysgrifio**

Y Corff Llywodraethu yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn. Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, mae'r Corff Llywodraethu wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros benderfynu derbyniadau i'w 'Bwyllgor Derbyn'. Mae ein dalgylch yn cwmpasu Bro Morgannwg gyfan. Ein hysgolion bwydo dynodedig yw Santes Helen, y Barri a Joseff Sant, Penarth.

Mae'n rhaid cwblhau pob cais gan ddefnyddio proses ymgeisio ar-lein Cyngor Bro Morgannwg. Rhaid cwblhau hyn erbyn y dyddiad cau sef **22 Tachwedd 2024.**Dim ond 'pan roddir rheswm da' yr ystyrir ceisiadau hwyr a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau, Cod Derbyn i Ysgolion Rhif 005/2013. Os na 'roddir rheswm da' bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl penderfynu ar y ceisiadau hynny sydd wedi eu cyflwyno cyn y dyddiad cau.

Os daw mwy o geisiadau i law na'r nifer derbyn, bydd ceisiadau'n cael eu rhoi ar restr aros tan 30 Medi 2025. Bydd ceisiadau'n cael eu rhestru yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio. Bydd y corff llywodraethu yn ystyried ceisiadau a geir gan deuluoedd plant genedigaeth luosog (efeilliaid, tripledi ac ati) gyda'i gilydd yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio. Y nifer derbyn yw 210 ar yr amod bod adeilad newydd yr ysgol wedi'i gwblhau i symud i mewn ddechrau Medi 2025. Os na fydd yn barod, byddwn yn dychwelyd i'n NDC o 163. Os daw mwy o geisiadau i law na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff ceisiadau eu blaenoriaethu yn y drefn ganlynol:

MAE ANGEN TYSTYSGRIF GENI WREIDDIOL AR GYFER POB CAIS.

| | Disgrifydd | Angen tystiolaeth ychwanegol |
|---|---|---|
| 1 | Plant sy'n derbyn gofal neu a arferai dderbyn gofal. | Gorchymyn Gofal Awdurdodau Lleol.<br><br>*Contract ethos yr ysgol i'w gwblhau gan deulu/gofalwyr a'r disgybl. |
| 2. | Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig ar hyn o bryd. | *Contract ethos yr ysgol i'w gwblhau gan y teulu a'r disgybl. |
| 3. | Plant Catholig wedi'u bedyddio nad ydynt yn mynychu Ysgol Gynradd Gatholig. | Mae angen tystysgrif bedydd wreiddiol.<br><br>*Contract ethos yr ysgol i'w gwblhau gan y teulu a'r disgybl. |
| 4. | Plant sy'n mynychu ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru neu ysgol ffydd arall ym Mro Morgannwg. | *Contract ethos yr ysgol i'w gwblhau gan y teulu a'r disgybl. |
| 5. | Plant sydd â brawd neu chwaer yn Sant Richard Gwyn ar hyn o bryd (gweler nodyn 2). | *Contract ethos yr ysgol i'w gwblhau gan y teulu a'r disgybl. |
| 6. | Aelodau o enwadau Cristnogol eraill nad ydynt yn mynychu ysgol ffydd ar hyn o bryd ym Mro Morgannwg. | Tystysgrif bedydd (neu dderbyniad arall). |

| | | |
|---|---|---|
| | | *Contract ethos yr ysgol i'w gwblhau gan y teulu a’r disgybl. |
| 7. | Aelodau o grefyddau nad ydynt wedi’u diffinio fel Cristnogion sy'n dymuno derbyn addysg ffydd a byw ym Mro Morgannwg. | Tystysgrif bedydd (neu dderbyniad arall).<br><br>*Contract ethos yr ysgol i'w gwblhau gan y teulu a’r disgybl. |
| 8. | Unrhyw blant eraill y mae eu rhieni'n chwilio am addysg ffydd yn Sant Richard Gwyn. | Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i'r rhai sydd â llythyr cefnogol gan arweinydd ffydd.<br><br>*Contract ethos yr ysgol i'w gwblhau gan y teulu a’r disgybl. |

*Dilyswyd gan Sant Richard Gwyn.

Os oes mwy o geisiadau gan blant o fewn maen prawf na'r capasiti sydd ar gael ac maent yn bodloni’r gofynion tystiolaeth, rhoddir blaenoriaeth i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mesur agosrwydd sy'n penderfynu hyn.

Dyddiad cau ceisiadau Blwyddyn 7 yw **22 Tachwedd 2024**, er mwyn cydymffurfio â'r amserlen leol. Bydd llythyrau penderfyniad yn cael eu cyhoeddi erbyn **3 Mawrth 2025.**

Bydd y llywodraethwyr yn ystyried ceisiadau i dderbyn plant i bob grŵp blwyddyn ar unrhyw adeg heblaw am fyfyrwyr Blwyddyn 7, lle bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar ôl 30 Medi.

**Y Weithdrefn Apelio**
Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae’r Llywodraethwyr wedi sefydlu gweithdrefn Apelio. Gall rhiant/rhieni neu ofalwr/gofalwyr plant na chawsant eu derbyn apelio yn erbyn y penderfyniad. Penodir y panel gan Esgobaeth Caerdydd ac mae'n gwbl annibynnol ar yr Ysgol a'r Awdurdod Lleol. Dylid anfon hysbysiad o fwriad i apelio at y Swyddog Derbyn yn yr Ysgol a fydd wedyn yn hysbysu Swyddfa Addysg yr Esgobaeth. Yna bydd Swyddfa'r Esgobaeth yn cysylltu'n uniongyrchol â'r apelwyr gyda manylion gwrandawiad apêl.

Nodiadau
1 Mae 'plant sy'n derbyn gofal' yn blant sydd wedi'u cofrestru yng ngwasanaethau gofal yr awdurdod lleol (o dan adran 31 Deddf Plant 1989) neu sy'n cael llety gan yr awdurdod lleol (o dan adran 20 Deddf Plant 1989);

2 Mae brawd a chwaer yn yr achos hwn yn cynnwys brawd neu chwaer fiolegol, hanner brawd neu chwaer, brawd neu chwaer wedi'i fabwysiadu, plant maeth sy'n byw yn yr un cyfeiriad â’r brawd a chwaer ac a fydd yn dal i fod ar gofrestr yr ysgol ar yr amser

derbyn. Yn achos plant genedigaeth luosog, bydd y corff llywodraethu yn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael ei dderbyn er mwyn osgoi gwahanu teuluoedd;

3 Mae 'agosrwydd' yn cyfeirio at y pellter a fesurir rhwng prif breswylfa'r disgybl (a nodir ar y ffurflen gais) a'r ysgol. Mae'r mesur hwn yn cael ei gynnal yn annibynnol gan yr Awdurdod Lleol.

I'w adolygu: Hydref 2024

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir sydd â naws Gristnogol gadarn a nodedig. Mae'r Llywodraethwyr, fel yr awdurdod derbyn, yn derbyn plant teuluoedd sydd am i'w plant gael eu haddysgu mewn cymuned Gristnogol lle mae pwysigrwydd gweddi, addoli ac addysgu Cristnogol yn cael ei adlewyrchu drwy gydol bywyd yr ysgol.

Rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at eu nifer derbyn cyhoeddedig. Nid oes modd gwrthod cais derbyn i ysgol nes cyrraedd y nifer derbyn. Mae'r nifer derbyn cyhoeddedig wedi ei chyfrifo'n unol â methodoleg cyfrifo capasiti ysgolion Llywodraeth Cymru, sef 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru (MCYNg)'.

### Rheoliadau Maint Dosbarthiadau Babanod

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno polisi i leihau maint dosbarthiadau ar gyfer plant pump, chwech a saith oed, yn rhan o'i nod gyffredinol i wella safonau addysg mewn ysgolion.

Rhoddodd Adran 1 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 a Rheoliadau Addysg (Maint

Dosbarthiadau Babanod) 1998, a ddaeth i rym ar 1 Medi 1998, ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i gyfyngu maint dosbarthiadau plant 5, 6 a 7 oed i 30 o fis Medi 2001, h.y. plant dosbarth derbyn a blynyddoedd 1 a 2.

Felly, o fis Medi 2001 ni chaiff unrhyw ddosbarth Cyfnod Sylfaen gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion, ac eithrio pan fo eithriadau a ganiateir.

Nid oes gofyn i awdurdodau derbyn dderbyn plentyn i ddosbarth babanod pe byddai gwneud hynny'n mynd yn groes i'r ddyletswydd i fodloni terfynau maint dosbarthiadau babanod, oherwydd byddai derbyn y plentyn yn gofyn am fesurau i gydymffurfio â'r terfynau hynny a fyddai'n cyfaddawdu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Dim ond pan fo'r nifer derbyn wedi ei gyrraedd y gall awdurdodau derbyn wrthod derbyn ar sail niwed i faint dosbarth babanod.

Caiff plant eu derbyn ym mis Medi yn ystod blwyddyn academaidd eu pen-blwydd yn bump oed (mae'r flwyddyn academaidd yn rhedeg o 1 Medi 2021 i 31 Awst 2022).

Y Nifer Derbyn ar gyfer disgyblion Dosbarth Derbyn yn unrhyw fis Medi yw **22.**

Os yw nifer y ceisiadau sy’n dod i law ar gyfer y Dosbarth Derbyn yn fwy na 22, bydd y llywodraethwyr yn ystyried ymgeiswyr gan ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio a nodir yn y ddogfen hon.

Ar gyfer dosbarthiadau yn y Cyfnod Sylfaen, ni chaiff maint y dosbarth fod yn fwy na 30 disgybl, oni bai ei fod yn cynnwys "disgyblion a eithrir" fel y nodir yn y Rheoliad. Mae’r eithriadau'n cynnwys:-

• Genedigaeth luosog, pe bai'n golygu gwahanu plant oherwydd bod un ohonynt yn blentyn rhif 31.

• O fewn capasiti rhesymol os caiff staff milwrol eu lleoli i'r ardal ar ôl y dyddiad cau.

**Cydraddoldeb**

Rhoddir cyfle cyfartal i bob plentyn gymryd lle yn Ysgol y Wig a Marcroes, waeth beth fo'i ryw, ethnigrwydd, cyrhaeddiad, anabledd neu gefndir diwylliannol, cymdeithasol neu ieithyddol. Mae gwahaniaethu o unrhyw fath yn annerbyniol ac mae Llywodraethwyr yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, cyhyd â bod ymgeiswyr yn bodloni meini prawf y Polisi Derbyn.

Mae cynllun Archwilio Anabledd manwl yn amlinellu'r mesurau rhesymol y mae'r ysgol yn eu cymryd i sicrhau mynediad i bawb ac atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill. Lle bynnag y bo'n ymarferol ac o fewn yr adnoddau sydd ar gael, mae'r ysgol yn barod i addasu'r amgylchedd corfforol, y gweithdrefnau, y deunyddiau addysgu ac adnoddau eraill er mwyn galluogi disgyblion anabl i gael mynediad llawn i'r cwricwlwm cenedlaethol ac ehangach. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr ysgol wneud cais i addasu neu i ddatgymhwyso'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion y plentyn.

**Meini Prawf Gordanysgrifio**

Pan fo’r un nifer neu lai o geisiadau na’r nifer derbyn yna caiff **pawb** eu derbyn. Os nad oes digon o leoedd i bawb sy’n gwneud cais am le sy’n gymwys dan unrhyw un o’r categorïau, caiff lleoedd eu hystyried yn ôl agosrwydd* man preswylio’r* ymgeiswyr i’r ysgol.

Bydd plant sydd â Chynllun Datblygu Unigol a Gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn cael eu derbyn cyn cymhwyso’r meini prawf gordanysgrifio os enwyd yr ysgol fel y lleoliad mwyaf priodol.

a. *Plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd neu a arferai dderbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol fel y nodir yn Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013 ac yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.*

b. *Plant y mae eu rhieni / gwarcheidwaid yn aelodau gweithredol o'r Eglwys yng Nghymru ac yn mynychu eglwys yn rheolaidd o fewn Bywoliaeth Reithorol Arfordir Treftadaeth Morgannwg, neu y mae eu plant yn mynychu'n rheolaidd yng nghwmni pobl eraill. Defnyddir geirdaon gan glerigwyr i bennu pa mor aml y maen nhw'n mynychu'r eglwys.*

c. *Plant y mae eu rhieni / gwarcheidwaid yn byw o fewn ffin y cyngor cymuned ar gyfer y Wig a Marcroes.*

d. *Plant y mae ganddynt frawd neu chwaer* sy'n ddisgybl yn yr ysgol ar y dyddiad y mae'r plentyn sy'n gwneud y cais i fod i ddechrau yn yr ysgol.*

e. *Plant y mae eu rhieni / gwarcheidwaid yn aelodau gweithredol o'r Eglwys yng Nghymru ac yn byw o fewn Bywoliaeth Reithorol Arfordir Treftadaeth Morgannwg, ond sy'n mynychu eglwys blwyf arall yn rheolaidd, neu y mae eu plant yn mynychu eglwys blwyf arall yn rheolaidd yng nghwmni pobl eraill.*

f. *Plant y mae eu rhieni / gwarcheidwaid yn aelodau gweithredol o'r Eglwys yng Nghymru ac yn byw y tu allan i Fywoliaeth Reithorol Arfordir Treftadaeth Morgannwg, ac sy'n mynychu eglwys blwyf arall yn rheolaidd, neu y mae eu plant yn mynychu eglwys blwyf arall yng nghwmni pobl eraill. Defnyddir geirdaon gan glerigwyr i bennu pa mor aml y maen nhw'n mynychu'r eglwys.*

g. *Plant y mae eu rhieni / gwarcheidwaid yn aelodau gweithredol ac yn ymarfer mewn cymuned ffydd arall. Defnyddir geirdaon i bennu pa mor aml y maen nhw'n mynychu'r eglwys.*

h. *Plant y mae eu teuluoedd yn dymuno iddynt gael eu haddysgu mewn ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhai y mae eu man preswylio* agosaf at yr ysgol ac Eglwys St James yw eu heglwys agosaf.*

Ar gyfer plant genedigaeth luosog, pan fyddai un plentyn (yr hynaf) yn cael ei dderbyn (ar sail unrhyw faen prawf), ac oherwydd gordanysgrifio, nid yw'r brodyr neu'r chwiorydd wedi cael lle, byddai'r brodyr a'r chwiorydd hynny'n cael blaenoriaeth ar y rhestr aros* ar gyfer y lle nesaf sy'n dod ar gael (oni ychwanegid plentyn o feini prawf 1 neu 2 at y rhestr o fewn yr amser hwn, a fyddai wedyn yn cael blaenoriaeth).

**Proses ymgeisio**

Dylid cyflwyno ceisiadau am le yn y Dosbarth Derbyn yn unol â dyddiadau derbyn i ysgolion Bro Morgannwg y cytunir arnynt a'u cyhoeddir yn flynyddol. Gwneir ceisiadau am le yn y Dosbarth Derbyn drwy borth Bro Morgannwg ac yna caent eu trosglwyddo i bwyllgor derbyniadau'r corff llywodraethu.

**Ceisiadau hwyr**

Ni ystyrir ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau nes bod cynigion wedi'u gwneud i'r rhai a wnaeth eu ceisiadau cyn y dyddiad cau, ac y daw ymatebion y rhieni/gofalwyr hynny i law. Mae hyn yn golygu, os yw'r ysgol wedi'i gordanysgrifio a bod ymgeisydd hwyr yn bodloni maen prawf uwch na'r hyn y cynigiwyd lleoedd oddi tani i ymgeiswyr eraill, y bydd yn dal yn aflwyddiannus.

**Y weithdrefn apelio**

Mae gan rieni/gofalwyr na chynigir lle i'w plant hawl i apelio i bwyllgor apêl annibynnol. Dylai rhieni sy'n dymuno apelio wneud hynny yn ysgrifenedig at sylw Clerc y Llywodraethwyr o fewn 15 diwrnod ysgol o ddyddiad y cawsant eu hysbysu o'r penderfyniad. Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan Banel Apeliadau Derbyn i Ysgolion annibynnol, a weinyddir gan Fwrdd Addysg Esgobaeth Llandaf, yn ôl Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn i Ysgolion.

Y Corff Llywodraethu fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi hwn. Caiff ei adolygu'n flynyddol.

**DIFFINIADAU**

**Man preswylio**

Ystyrir mai man preswylio arferol y plentyn yw'r eiddo preswyl lle mae'r person neu'r personau sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn yn preswylio ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i dderbyn y plentyn i'r ysgol.  Os oes gan fwy nag un person gyfrifoldeb rhiant ac mae'r bobl hynny'n byw mewn gwahanol eiddo, man preswyl arferol y plentyn fyddai'r eiddo y mae'r plentyn yn byw ynddo fan fwyaf yr wythnos, gan gynnwys penwythnosau.

**Agosrwydd**

Pellter o gartref y disgybl i'r ysgol gan ddefnyddio'r llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Yn unol â Chyngor Bro Morgannwg, mae'r Corff Llywodraethu'n defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo pellteroedd rhwng y cartref a'r ysgol.

**Rhestr aros**

Mae'r ysgol yn gweithredu rhestr aros yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio. Rhoddir plant ar y rhestr aros mewn safle sy'n adlewyrchu'r meini prawf, heb ystyried y dyddiad y cawsant eu rhoi ar y rhestr. Bydd y rhestr aros ar gyfer y cylch derbyn arferol yn cael ei chynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn berthnasol.

**'Mynychu'n rheolaidd'**

Diffinnir mynychu'n rheolaidd fel mynychu ddwywaith y mis.

**Brawd / Chwaer**

Er mwyn bodloni'r meini prawf o ran brodyr a chwiorydd, rhaid i un o'r amodau canlynol fodoli:

i. brawd a/neu chwaer sy'n preswylio'n barhaol yn yr un cyfeiriad
ii. llysfrawd a/neu lyschwaer sy'n preswylio'n barhaol yn yr un cyfeiriad
iii. hanner brawd a/neu hanner chwaer wedi'u mabwysiadu neu eu maethu sy'n preswylio'n barhaol yn yr un cyfeiriad

**<u>DYDDIADAU GWYLIAU YSGOL 2026/2027</u>**

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer y Diwrnodau Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Hydref 2026 | Dydd Mawrth 1 Medi 2026 | Dydd Llun 26 Hyd 2026 | Dydd Gwener 30 Hyd 2026 | Dydd Gwener 18 Rhag 2026 | 74 |
| Gwanwyn 2027 | Dydd Llun 4 Ion 2027 | Dydd Llun 8 Chwef 2027 | Dydd Gwener 12 Chwef 2027 | Dydd Gwener 19 Maw 2027 | 50 |
| Haf 2027 | Dydd Llun 5 Ebrill 2027 | Dydd Llun 31 Mai 2027 | Dydd Gwener 4 Meh 2027 | *Dydd Mawrth 20 Gorff 2027 | 71 |
| | | | | CYFANSWM | **195** |

i) **<u>Bydd dydd Mawrth 1 Medi 2026, *dydd Llun 19 a dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2027</u>** yn cael eu dynodi yn ddiwrnodau HMS ar gyfer pob Ysgol a Gynhelir gan yr AALl. Cymerir y ddau ddiwrnod HMS sy'n weddill yn ôl disgresiwn pob ysgol unigol ar ôl ymgynghori'n briodol â staff. ***Y bwriad yw y bydd y Diwrnod HMS hyn yn cael eu cymryd naill ai ar ddydd Llun 19 a dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2027 neu ar adeg arall er enghraifft ar ffurf sesiynau gyda'r hwyr.**

Bydd yr holl ysgolion ar gau ar **<u>ddydd Llun 3 Mai 2027</u>** ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai.

Dyddiadau pwysig:

| | |
|---|---|
| Y Nadolig | Dydd Gwener 25 Rhagfyr 2026 |
| | Dydd Gwener y Groglith y Pasg 26 Mawrth 2027<br>Dydd Llun y Pasg 29 Mawrth 2027 |
| Gwyliau Banc Mis Mai | Dydd Llun 3 Mai 2027<br>Dydd Llun 31 Mai 2027 |